

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

29/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

24/03/2021

Gwerthusiad o'r Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS)

Teitl: Gwerthusiad o'r Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS).

Awduron:

Eluned Glyn, Stuart Harries, Jennifer Lane a Sioned Lewis,
Arad Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Glyn, E., Harries, S., Lane, J., Lewis, S. (2021).
Gwerthusiad o'r Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS).
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 29/2021
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gynllun-cymorth-gofal-plant-y-coronafeirws>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Aimee Marks

Is-adran: Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: TrafodGofalPlant@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau.....	2
Rhestr o'r ffigurau	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg	10
3. Gweithredu C-CAS.....	23
4. Effaith C-CAS ar y rhieni a gymerodd ran yn y Cynllun.....	44
5. Effaith C-CAS ar y darparwyr a gymerodd ran yn y Cynllun.....	50
6. Y cymorth a gynigiwyd i blant agored i niwed.....	57
7. Casgliadau	69
Atodiad A: Diffiniad o weithwyr hanfodol drwy gyfnod y Coronafeirws (allweddol).....	75
Atodiad B: Cymorth Gofal Plant i Weithwyr Hanfodol a Phlant sy'n Agored i Niwed yn ystod pandemig Coronafeirws: Canllawiau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru	77
Atodiad C: Arolwg o Sut y Gweithredwyd Mesurau Diogelu Rhag y Coronafeirws gan Leoliadau Gofal Plant a Chwarae Cofrestredig	79
Atodiad D: Dadansoddiad ychwanegol o ddata monitro	81
Atodiad E: Canllawiau Holi.....	83
Atodiad F: Arolygon	103
Atodiad G: Hysbysiadau Preifatrwydd.....	134

Rhestr o'r tablau

Tabl 1.1: Nifer y plant a fanteisiodd ar C-CAS ym mhob awdurdod lleol.....	7
Tabl 1.2 Nifer y plant a fanteisiodd ar C-CAS yn ôl oedran.....	8
Tabl 2.1 Trosolwg o'r fethodoleg.....	11
Tabl 2.2: Ymatebion darparwyr C-CAS fesul awdurdod lleol	13
Tabl 2.3: Cyfraddau ymateb rhieni C-CAS yn ôl awdurdod lleol	17
Tabl 3.1: Enghreifftiau o gyfraddau cyllido C-CAS a gynigiwyd gan awdurdodau lleol i'r darparwyr a gymrodd ran yn y cynllun.....	35

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 2.1: Y math o leoliadau gofal plant a ddarparodd y cynllun C-CAS	14
Ffigur 2.2: Ymateb y darparwr i'r cwestiwn am oedrannau'r plant yr oeddent yn gofalu amdanynt drwy C-CAS.....	15

Geirfa

Acronym / Allweddair	Diffiniad
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)	Arolygiaeth Gofal Cymru - rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.
C-CAS	Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws
Cwlwm	Cwlwm yw'r consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru.
Cylch Meithrin	Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg (lluosog: Cylchoedd).
Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Cynllun Cadw Swyddi)	Cynllun cymorth ar gyfer cyflogau gan lywodraeth y DU gyda'r nod o ddiogelu swyddi yn sgil effeithiau economaidd y pandemig COVID-19, ac i roi cymorth i gyflogwyr sy'n wynebu anawsterau i barhau i dalu cyflogau yn hytrach na diswyddo pobl. Cyfeirir ato fel ffyrlo.
Cynnig Gofal Plant (y Cynnig)	30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
Dechrau'n Deg	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i blant (0-3 oed) a'u teuluoedd. Mae rhan o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn cynnwys 2.5 awr o ofal plant a ariennir i gefnogi datblygiad y plant 2-3 oed sy'n gymwys i gael cymorth.
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd	Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd - y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr ac maent yn darparu gwybodaeth am ofal plant.
Gweithiwr hanfodol	Unigolion y mae eu gwaith yn hanfodol i'r ymateb i COVID-19, neu sy'n gweithio mewn rhannau penodol o un o'r sectorau critigol, sef iechyd a gofal cymdeithasol; addysg a gofal plant; gwasanaethau cyhoeddus allweddol, llywodraeth leol a chenedlaethol; bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill; diogelwch y cyhoedd a diogelwch gwladol; gwasanaethau trafnidiaeth, cyfleustodau, cyfathrebu ac ariannol (Gweler hefyd Atodiad A).
Plant agored i niwed	Yng nghyd-destun C-CAS, caiff plant sy'n agored i niwed eu nodi gan yr awdurdod lleol. Maent yn cynnwys y rhai ag anghenion diogelu ac a gefnogir gan ofal cymdeithasol, sy'n cynnwys plant â chynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, plant anabl a'r rhai â Datganiadau o anghenion addysgol arbennig, ond heb fod yn gyfyngedig i'r grwpiau hyn.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Darparodd Llywodraeth Cymru ofal plant a ariennir i blant dan bump oed sy'n blant i weithwyr hanfodol a phlant agored i niwed o dan y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) o fis Ebrill tan fis Awst 2020. Fel rhan o'i contract presennol i werthuso'r Cynnig Gofal Plant, penodwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r cynllun C-CAS.

Y cefndir

- 1.2 Mewn ymateb i'r cynnydd yn y brigiad o achosion o COVID-19 ym mis Mawrth 2020, nododd Llywodraeth Cymru, lle bynnag y bo'n bosibl, y dylid gofalu am blant gartref ac y dylai darparwyr gofal plant roi blaenoriaeth i blant gweithwyr hanfodol neu blant agored i niwed.¹ Ym mis Ebrill cadarnhawyd bod Cynnig Gofal Plant Cymru (y Cynnig) yn cael ei atal dros dro i newydd-ddyfodiaid a bod ei gyllideb yn cael ei aildefnyddio i gefnogi anghenion gofal plant gweithwyr hanfodol ac anghenion plant agored i niwed. Cafodd hyn ei wneud drwy'r Cynllun C-CAS².
- 1.3 Cyflwynwyd C-CAS ar frys a'i roi ar waith o fewn amserlen fer iawn. Roedd y Cynllun wedi'i ddylunio erbyn 24 Mawrth, fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac fe'i rhoddwyd ar waith lai nag wythnos yn ddiweddarach ar 6 Ebrill, gyda'r cyllid a ddyrannwyd yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill. Yn ystod yr un cyfnod byr, lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i'w rhoi i awdurdodau lleol yn ogystal â gwybodaeth ar ffurf Cwestiynau Cyffredin y gallai awdurdodau a darparwyr lleol gael mynediad atynt ar-lein. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, cymerodd y Cynnig Gofal Plant, sydd wedi cael ei ganmol am yr amser cymharol fyr a gymerodd i'w ddatblygu a'i lansio, ddwy flynedd i'w gwmpasu, ei ddatblygu a'i lansio fel peilot ym mis Medi 2017.
- 1.4 Yn ystod y cyfnod pan oedd C-CAS yn cael ei ddatblygu a'i lansio roedd llawer o leoliadau gofal plant wedi cau mewn ymateb i gyfyngiadau COVID. O ganlyniad, nid oedd llawer o rieni a oedd yn weithwyr hanfodol yn gallu defnyddio eu darparwyr gofal plant arferol na chael mynediad at leoliadau gofal plant amgen. Roedd

¹ [Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Meini prawf ar gyfer defnyddio'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer plant sy'n agored i niwed, neu y mae eu rhieni'n hanfodol ar gyfer ymateb i COVID-19](#), 20 Mawrth 2020.

² [Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Cynnig Gofal Plant i Gymru - Cefnogi Gweithwyr Hanfodol yn ystod y Pandemig Coronafeirws](#), 6 Ebrill 2020.

mynediad rhieni at ofal plant anffurfiol drwy aelodau estynedig o'u teulu neu ffrindiau hefyd yn gyfyngedig gan fod canllawiau'r llywodraeth yn dweud wrth bobl am beidio â chymysgu y tu allan i'w cartrefi eu hunain. Nid oedd rhai rhieni a oedd yn weithwyr hanfodol wedi defnyddio gofal plant ffurfiol o'r blaen ac felly roedd angen lleoedd arnynt mewn lleoliadau gofal plant drwy C-CAS nad oeddent wedi'u defnyddio o'r blaen. Roedd angen gofal plant ar rai rhieni a oedd yn weithwyr hanfodol am oriau estynedig bob dydd yn ogystal â darpariaeth gofal plant dros wyl y banc ac ar benwythnosau. Ochr yn ochr â hyn, roedd yn bwysig iawn bod gofal plant hefyd ar gael i blant agored i niwed. Roedd ceisio mynd i'r afael ag anghenion gofal plant pob plentyn a oedd yn gymwys ar gyfer C-CAS yn rhoi llawer o bwysau ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a oedd yn gweinyddu'r Cynllun yn ogystal â'r darparwyr a oedd yn diwallu anghenion gofal plant rhieni.

- 1.5 Roedd y canllawiau i awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, yn disgrifio nod y C-CAS:

Mae'n hollbwysig nad yw gweithwyr hanfodol – y rhai hynny ar y rheng flaen – yn wynebu rhwystrau yn y frwydr yn erbyn coronafeirws. Gwyddom fod angen darpariaeth gofal plant frys ar lawer o'r rhieni hyn, naill ai am fod eu lleoliad arferol wedi cau neu am eu bod wedi dibynnu'n flaenorol ar rieni neu neiniau a theidiau am ofal plant, sydd bellach yn hunanynysu. Mae angen i ni hefyd barhau i ddarparu gofal i'n plant mwyaf agored i niwed. Er bod darpariaeth o'r fath ar gael mewn ysgolion i blant oed ysgol heb unrhyw gost ychwanegol i rieni, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth a ariennir mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig i blant cyn oed ysgol.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd Cynnig Gofal Plant Cymru, sy'n darparu hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant 3 a 4 oed³, ar gau i ymgeiswyr newydd o 1 Ebrill 2020. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r cyllid i helpu gweithwyr hanfodol gyda'u costau gofal plant a chefnogi plant sy'n agored i niwed yn ystod pandemig COVID-19.⁴

³ Mae'r 30 awr yn cynnwys hyd at 20 awr o ofal plant sydd ar gael trwy'r Cynnig, ac o leiaf 10 awr o addysg gynnar yr wythnos yn cael ei ddarparu trwy Feithrinfa Cyfnod Sylfaen yn ystod y tymor.

⁴ Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020) *Cymorth Gofal Plant i Weithwyr Hanfodol a Phlant sy'n Agored i Niwed yn ystod pandemig Coronafeirws, Canllawiau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Ebrill 2020- Mehefin 2020. Atodiad B*

Darparu'r cynllun a chymhwysra

- 1.6 Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar ddarparu C-CAS yn genedlaethol ledled Cymru, ar lefel leol, rhoddwyd rhywfaint o ymreolaeth i awdurdodau lleol benderfynu ar y ffordd orau i ddarparu C-CAS yn eu hardaloedd nhw, gan gynnwys y cyfraddau cyllido a delir i'r darparwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun. Nododd canllawiau Llywodraeth Cymru nad oedd cyfyngiad ar nifer yr oriau o ofal plant a ariennir y gellid eu cynnig i rieni cymwys ac y gallai'r cyllid dalu am ofal y tu allan i oriau gan gynnwys ar benwythnosau. Mater i awdurdodau lleol felly oedd penderfynu, yn seiliedig ar y lefel ddisgwyliedig o alw yn lleol a'r ddarpariaeth sydd a oedd ar gael, sawl awr o ofal plant a ariennir i'w gynnig i rieni cymwys yn eu hardal. Mae hyn yn wahanol iawn i fodel cymharol safonedig y Cynnig Gofal Plant. Trafodir hyn ymhellach ym mhennod 3.7.

Y nifer a fanteisiodd ar y cynnig

- 1.7 Manteisiodd cyfanswm o 10,499 o blant ar C-CAS, ac o blith y rheini atgyfeiriwyd 588 ohonynt at y Cynllun oherwydd y nodwyd eu bod yn blant agored i niwed⁵. Mae Tabl 1.1 isod yn cyflwyno'r niferoedd cyffredinol a fanteisiodd ar C-CAS, wedi'u dadansoddi yn ôl awdurdod lleol.

⁵ Deilliodd y ffigurau hyn o'r data monitro a ddarparwyd gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru.

Tabl 1.1: Nifer y plant a fanteisiodd ar C-CAS ym mhob awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer y plant a fanteisiodd ar C-CAS
Abertawe	824
Blaenau Gwent	276
Bro Morgannwg	313
Caerdydd	550
Caerffili	538
Casnewydd	496
Castell-nedd Port Talbot	822
Ceredigion	70
Conwy	463
Gwynedd	371
Merthyr	205
Pen-y-bont ar Ogwr	495
Powys	516
Rhondda Cynon Taf	747
Sir Benfro	332
Sir Ddinbych	568
Sir Fynwy	403
Sir Gaerfyrddin	744
Sir y Fflint	608
Torfaen	305
Wrecsam	596
Ynys Môn	257
Cyfanswm	10,499

Ffynhonnell: Data monitro

1.8 Yn ôl y data monitro, dros gyfnod cyfan y cynllun, roedd y gyfran fwyaf o blant yn 3 oed (29 y cant). Roedd chwarter y plant a fanteisiodd ar y cynllun yn 2 oed (25 y cant); ac roedd ychydig dros un rhan o bump yn 1 oed (22 y cant). Roedd nifer bach o'r plant o dan 1 oed (3 y cant) ac yn 5 oed a throsodd (5 y cant)⁶. Cyflwynir dadansoddiad o'r plant a fanteisiodd ar y cynllun yn ôl oedran yn Nhabl 1.2 isod. Rhoddir rhagor o fanylion am y niferoedd a fanteisiodd ar C-CAS bob mis, wedi'u dadansoddi yn ôl oedran ac yn ôl plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed, yn Atodiad D.

⁶ Cyfrifwyd oedran y plant o ddyddiad geni'r plant yn ôl data monitro a ddarparwyd gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd dyddiad sylfaen o 30 Awst 2020 i gyfrifo oedran pob plentyn ychydig cyn i'r cynllun ddod i ben.

Tabl 1.2 Nifer y plant a fanteisiodd ar C-CAS yn ôl oedran

Oedran y plant	Nifer y plant a fanteisiodd ar C-CAS	Canran y plant a fanteisiodd ar C-CAS (%)
Dan 1 oed	311	3
1 oed	2,293	22
2 oed	2,666	25
3 oed	3,040	29
4 oed	1,690	16
5 oed +	474	5
Cyfanswm	10,474*	

*Nid y ffigur hwn yw cyfanswm cyffredinol y plant a fanteisiodd ar C-CAS oherwydd nid oedd yn bosibl cyfrifo oedran rhai plant gan fod y dyddiad geni a gofnodwyd yn y data monitro wedi'i fformatio'n anghywir ac felly'n anhysbys.

Ffynhonnell: Data monitro

- 1.9 Yn ôl y data monitro, o blith y rhieni a fanteisiodd ar y cynllun, roedd ychydig yn llai na'u hanner (44 y cant) yn weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol; roedd 14 y cant yn weithwyr addysg neu ofal plant; roedd 13 y cant yn gweithio yn y sector cyfleustodau, cyllid a chyfathrebu; roedd 10 y cant yn weithwyr bwyd a nwyddau hanfodol; roedd 8 y cant yn gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol); roedd 7 y cant yn y sector diogelwch cyhoeddus (milwrol, gwasanaethau brys); ac roedd 4 y cant yn weithwyr trafndiaeth.
- 1.10 Casglodd awdurdodau lleol wybodaeth am nifer yr oriau o ofal plant yr oedd plant wedi eu cael drwy C-CAS o gymharu â nifer yr oriau a archebwyd ar draws y cyfnod cyfan yr oedd C-CAS ar gael. Ar draws y cyfnod cyfan, y nifer cyfartalog cymedrig o oriau a archebwyd fesul plentyn, yn seiliedig ar y data a gasglwyd, oedd 289 o oriau a'r nifer cyfartalog cymedrig o oriau a fynychwyd fesul plentyn oedd 277.

Nodau ac amcanion y gwerthusiad

- 1.11 Er iddo gael ei ddylunio mewn ymateb i anghenion gofal plant yn ystod misoedd cyntaf y pandemig COVID-19, mae C-CAS yn cynnig cyfle i ddysgu mewn perthynas â pholisi a darpariaeth gofal plant yn gyffredinol ac ar gyfer unrhyw gynlluniau brys yn y dyfodol. Yn hynny o beth, nodau'r gwerthusiad oedd:

- Adolygu'r ffordd y cafodd C-CAS ei ddylunio a'i ddarparu;
- Ystyried yr effaith a gafodd y Cynllun ar rieni a darparwyr a gymerodd ran ynddo;
- Ystyried yr effaith a gafodd y Cynllun ar deuluoedd plant agored i niwed;
- Ystyried yr effaith / dylanwad ar gynaliadwyedd y sector gofal plant yn y dyfodol;
- Ystyried yr effaith / dylanwad ar y defnydd o ofal plant yn y dyfodol;
- Ystyried y gwersi a ddysgwyd a allai fod yn sail i ddarparu cynlluniau tebyg yn y dyfodol a / neu ddarparu'r Cynnig Gofal Plant yn y dyfodol.

1.12 Yn wahanol i'r Cynnig ar gyfer plant tair a phedair oed, roedd gofal plant C-CAS ar gael i bob plentyn cyn oed ysgol a oedd yn blentyn i weithwyr hanfodol a phlant agored i niwed, ac ni osodwyd cap ar nifer yr oriau y gellid eu hariannu. Roedd rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddewis ymestyn C-CAS i blant 5 oed a throsodd lle roedd amgylchiadau penodol yn awgrymu y byddai hyn er budd y plentyn, er enghraifft, i'w alluogi i aros gyda'i frodyr a'i chwiorydd neu i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol penodol y plentyn. Mae'r model cyflawni hwn yn cynnig cyfle unigryw i gael rhywfaint o ddealltwriaeth o'r canlynol:

- Newid yn ymddygiad y rhieni sy'n gymwys ar gyfer C-CAS - newid o ofal plant anffurfiol (e.e. neiniau a theidiau) i ofal plant ffurfiol;
- Barn rhieni am gael cynnig gofal plant a ariennir ar gyfer plant 0 i 5 oed - a yw rhieni'n croesawu hyn, a oes ganddynt unrhyw bryderon am y dylanwad y gallai hyn ei gael ar eu plant;
- Barn darparwyr - pa wahaniaeth y mae C-CAS wedi'i wneud i broffil y darparwr - ystod oedran y plant y maent yn gofalu amdanynt; pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud i'w lleoliadau - y cyfleusterau sy'n ofynnol - cymarebau staffio;
- Bydd llawer o weithwyr hanfodol yn gweithio sifftiau a all amrywio o wythnos i wythnos - mae hwn yn gyfle i ddod i ddeall i ba raddau y gallant gael gofal plant sy'n cyd -fynd â gwahanol batrymau gweithio a sut y gall darparwyr ddiwallu'r anghenion hyn.

2. Methodoleg

Crynodeb o'r Fethodoleg

Gwerthusiad â dulliau cymysg:

Gwerthuso prosesau

Cyflwyno

Aliniad

Canlyniadau
anfwriadol

Gwerthuso effaith

Effeithiolrwydd

Bodloni cyflenwad/galw

Gofal plant yn y dyfodol



Rhieni yn cyrchu C-CAS

2,382 o ymatebion i'r arolwg ar-lein

Darparwyr gofal plant sy'n darparu C-CAS

349 o ymatebion arlein **22** cyfweiliad



Adborth yn ymwneud â chefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed

22 cyfweiliadau atgyfeirio **3** cyfweiliad â rhieni



Cyfweiliadau Awdurdod Lleol

21 cyfweiliad

Dadansoddiad o ddata monitro Awdurdodau Lleol



Eiconau gan Icons8.com

2.1 Mabwysiadwyd dull cymysg o gynnal y gwerthusiad, a oedd yn cynnwys sawl elfen ymchwil. Mae Tabl 2.1 yn rhoi trosolwg o wahanol elfennau'r ymchwil.

Tabl 2.1 Trosolwg o'r fethodoleg

Cyfranogwr	Dull	Nifer yr ymatebwyr	Pryd
Swyddogion Llywodraeth Cymru	Cynnal cyfweiliadau rhithiol	2	Hydref 2020
Awdurdodau Lleol	Cynnal cyfweiliadau rhithiol	21	Tachwedd 2020
Darparwyr Gofal Plant a Gymerodd Ran	Arolwg ar-lein	349	Tachwedd i Ragfyr 2020
Darparwyr Gofal Plant a Gymerodd Ran	Cyfweiliadau dros y ffôn	22	Tachwedd i Ionawr 2020
Rhieni a gymerodd ran	Arolwg ar-lein	2,382	Hydref i Dachwedd 2020
Rhieni plant agored i niwed a gymerodd ran	Cyfweiliadau dros y ffôn	3	Hydref i Dachwedd 2020
Atgyfeirwyr at C-CAS	Cyfweiliadau dros y ffôn	22	Tachwedd i Ragfyr 2020
Sefydliadau rhanddeiliaid allweddol	Cyfweiliadau dros y ffôn	6	Tachwedd i Ionawr 2020

Cyfweiliadau â chynrychiolwyr timau gofal plant awdurdodau lleol

2.2 Cynhaliwyd cyfweiliadau â chynrychiolwyr tîm C-CAS mewn awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2020. Pwrpas y cyfweiliadau hyn oedd deall sut y bu i bob awdurdod lleol weithredu C-CAS, gan gynnwys y prosesau a oedd yn gysylltiedig â sefydlu a darparu'r Cynllun; yr effaith a gafodd darparu'r cymorth ar amser ac adnoddau'r awdurdod lleol; ac effaith C-CAS ar rieni a darparwyr gofal plant a gymerodd ran yn y Cynllun. Nid oedd un awdurdod lleol wedi cael ei gyfweild oherwydd materion yn ymwneud â'r amseru. Paratowyd hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer y cyfweiliadau hyn, ac ar gyfer yr holl waith maes (gweler Atodiad E).

Arolwg o ddarparwyr gofal plant

- 2.3 Ym mis Tachwedd 2020, dosbarthwyd arolwg ar-lein i ddarparwyr gofal plant a oedd wedi cymryd rhan yn C-CAS a/neu Gynnig Gofal Plant Cymru - gweler hefyd yr adroddiad Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3 - y darparwyd eu manylion cyswllt gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â barn darparwyr gofal plant am C-CAS a'r Cynnig Gofal Plant. Nododd darparwyr gofal plant pa Gynllun a ddarparwyd ganddynt ar ddechrau'r arolwg a chafodd unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r Cynllun na wnaethant ei ddarparu eu hepgor.
- 2.4 Dosbarthwyd yr arolwg drwy e-bost i 2,677 o ddarparwyr gofal plant a oedd wedi darparu cyfeiriad e-bost. Anfonwyd ail e-bost wythnos ar ôl y gwahoddiad cychwynnol, fel nodyn atgoffa er mwyn cael cyfradd ymateb mor uchel â phosibl. Yn ogystal, o blith y darparwyr hynny yr anfonwyd e-bost atynt, anfonwyd neges destun at 1,074 a oedd yn cynnwys dolen i'r arolwg gan fod y darparwyr hyn hefyd wedi darparu rhif ffôn symudol.
- 2.5 Roedd yr arolwg ar agor am bedair wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw daeth cyfanswm o 550 o ymatebion i law; cyfradd ymateb o 22 y cant. Roedd y gyfradd ymateb yn uwch na'r nifer ofynnol o 226 o ymatebion i sicrhau cyfwng hyder o 5 y cant ar lefel hyder o 95% (yn seiliedig ar nifer y lleoliadau y dosbarthwyd yr arolwg iddynt)⁷. O blith y 550 o'r lleoliadau hyn, darparodd 349 y cynllun C-CAS a darparodd 498 y Cynnig Gofal Plant. Cyflwynir dadansoddiad o nifer yr ymatebion gan ddarparwyr C-CAS ym mhob awdurdod lleol yn Nhabl 2.2.

⁷ 226 yw'r nifer lleiaf o ymatebion sy'n ofynnol er mwyn bod 95% yn hyderus bod ymatebion y darparwyr i'r arolwg yn ddibynadwy rhwng ffin cyfeiliorniad o 5 y cant. Y mwyaf yw'r sampl (roedd maint sampl yr arolwg o ddarparwyr yn 2,677) y mwyaf hyderus y gallwn fod bod atebion darparwyr yn adlewyrchiad o gyfanswm y darparwyr a ddarparodd y cynllun.

Tabl 2.2: Ymatebion darparwyr C-CAS fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb fel cyfran o'r ffrâm samplu (%)*
Abertawe	16	12
Blaenau Gwent	16	37
Bro Morgannwg	13	21
Caerdydd	31	26
Caerffili	23	31
Casnewydd	10	13
Castell-nedd Port Talbot	24	42
Ceredigion	4	21
Conwy	13	25
Gwynedd	19	31
Merthyr Tudful	3	19
Pen-y-bont ar Ogwr	3	7
Powys	20	34
Rhondda Cynon Taf	14	14
Sir Benfro	13	38
Sir Ddinbych	12	17
Sir Fynwy	9	16
Sir Gaerfyrddin	23	50
Sir y Fflint	28	31
Torfaen	13	32
Wrecsam	30	36
Ynys Môn	12	34
Cyfanswm	349	

**Mae hyn yn cyfeirio at gyfradd ymateb yr arolwg fel canran o'r darparwyr ym mhob awdurdod lleol a ddarparodd C-CAS ac y rhannwyd eu manylion cyswllt gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru.

Ffynhonnell: Arolwg o ddarparwyr gofal plant


2.6 Roedd cwestiynau arolwg C-CAS yn canolbwyntio ar yr ohebiaeth a gafodd y darparwyr gan awdurdodau lleol; dyluniad C-CAS; dylanwad C-CAS ar y ddarpariaeth a gynigwyd gan ddarparwyr; ac effaith C-CAS ar gynaliadwyedd darparwyr.

Proffil o ddarparwyr C-CAS a ymatebodd i'r arolwg

2.7 O blith y 349 o leoliadau gofal plant a ymatebodd i'r arolwg a oedd wedi darparu'r cynllun C-CAS, roedd dwy ran o dair yn warchodwyr plant (230); roedd dros chwarter y darparwyr wedi'u cofrestru fel lleoliadau gofal dydd llawn (103 o

leoliadau); roedd 19 o leoliadau yn darparu gofal dydd sesiynol; roedd 14 o leoliadau'n darparu gofal y tu allan i'r ysgol; ac un creche a ddarparodd C-CAS ledled Cymru.⁸ Cyflwynir proffil o ddarparwyr C-CAS a ymatebodd i'r arolwg yn Ffigur 2.1.

Ffigur 2.1: Y math o leoliadau gofal plant a ddarparodd y cynllun C-CAS




N=349

Ffynhonnell: Arolwg o ddarparwyr: Darparwyr a nododd eu math o leoliad cofrestredig

2.8 Ymatebodd 349 o ddarparwyr i'r arolwg gan nodi eu bod wedi gofalu am 2,513 o blant rhyngddynt. Nododd yr ymatebion i'r arolwg fod llai na thraean (30 y cant) y plant yr oeddent yn darparu gofal iddynt yn dair oed, mymryn yn llai na chwarter (24 y cant) yn ddwy oed, llai nag un rhan o bump (19 y cant) o blant rhwng 12 a 23 mis oed, dros un rhan o ddeg (12 y cant) yn blant pedair oed, a lleiafrif llai o dan 12 mis (8 y cant), ac yn 5 oed a throsodd (7 y cant.) Cyflwynir y wybodaeth hon yn Ffigur 2.2.

⁸ Roedd modd i ddarparwyr ddewis mwy nag un opsiwn yn yr arolwg.

Ffigur 2.2: Ymateb y darparwr i'r cwestiwn am oedrannau'r plant yr oeddent yn gofalu amdanynt drwy C-CAS



N=2,513

Ffynhonnell: Arolwg o ddarparwyr: Nifer y plant y darparwyd gofal iddynt o dan C-CAS

2.9 Nododd yr ymatebion i'r arolwg fod mwyafrif y plant (61 y cant) yn dod o deuluoedd gweithwyr hanfodol, gyda bron i chwarter y plant (23 y cant) yn cael eu hystyried yn agored i niwed, a phymtheg y cant yn blant gweithwyr hanfodol a oedd hefyd yn cael eu hystyried yn agored i niwed.

Cyfweliadau â darparwyr gofal plant C-CAS a gymerodd ran yn y Cynllun

2.10 Cysylltwyd â chyfanswm cyffredinol o 134 o ddarparwyr drwy e-bost a'u gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn. Cynhaliwyd cyfanswm o 22 o gyfweiliadau dros y ffôn gyda darparwyr gofal plant a ddarparodd C-CAS, a darparodd pob un ohonynt y Cynnig Gofal Plant hefyd. O blith y 22 o ddarparwr a gyfwelwyd, roedd 13 yn warchodwyr plant; roedd 8 yn lleoliadau gofal dydd llawn; ac roedd 1 yn lleoliad gofal dydd sesiynol.

2.11 Dilynodd y cyfweiliadau fformat tebyg i un yr arolwg o ddarparwyr o ran y cwestiynau a rhoddwyd cyfle i drafod safbwyntiau yn fanylach a chasglu barn ar unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer darpariaeth gofal plant yn y dyfodol.

Arolwg o rieni

- 2.12 Ym mis Hydref 2020, dosbarthwyd arolwg ar-lein i bob rhiant ledled Cymru a oedd wedi cael cymorth drwy C-CAS, gan gynnwys rhieni sy'n weithwyr hanfodol a rhieni plant agored i niwed. Canolbwyntiodd cwestiynau'r arolwg ar farn rhieni am broses ymgeisio C-CAS; defnydd rhieni o ofal plant C-CAS a sut roedd hyn yn cymharu â'u trefniadau gofal plant blaenorol; addaswydd y ddarpariaeth gofal plant a gynigiwyd; ac effaith C-CAS ar y teulu.
- 2.13 Dosbarthwyd yr arolwg drwy e-bost i 7,690 o rieni y darparwyd eu manylion cyswllt gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru. Anfonwyd e-bost atgoffa wythnos ar ôl y gwahoddiad cychwynnol er mwyn cael cyfradd ymateb mor uchel â phosibl. Anfonwyd dolen i'r arolwg hefyd drwy neges destun at 7,201 o blith y 7,690 o rieni a e-bostiwyd a oedd hefyd wedi darparu manylion cyswllt ffôn symudol.
- 2.14 Roedd yr arolwg ar agor am bedair wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw daeth cyfanswm o 2,382 o ymatebion i law: cyfradd ymateb o 32 y cant. Roedd y gyfradd ymateb yn uwch na'r nifer ofynnol o 255 o ymatebion i sicrhau cyfwng hyder o 5 y cant ar lefel hyder o 95% (yn seiliedig ar nifer y rhieni y dosbarthwyd yr arolwg iddynt)⁹. Cyflwynir dadansoddiad o nifer yr ymatebion gan rieni sy'n byw ym mhob awdurdod lleol yn Nhabl 2.3.

⁹ 255 yw'r nifer lleiaf o ymatebion sy'n ofynnol er mwyn bod 95% yn hyderus bod ymatebion y rhieni i'r arolwg yn ddibynadwy rhwng ffin cyfeilliarniad o 5 y cant. Y mwyaf yw'r sampl (roedd maint sampl yr arolwg o ddarparwyr yn 7,690) y mwyaf hyderus y gallwn fod bod atebion y rhieni yn adlewyrchiad o gyfanswm y rhieni a fanteisiodd ar y cynllun.

Tabl 2.3: Cyfraddau ymateb rhieni C-CAS yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb fel cyfran o'r ffrâm samplu (%)*
Blaenau Gwent	63	34
Pen-y-bont ar Ogwr	142	30
Caerffili	100	32
Caerdydd	132	23
Sir Gaerfyrddin	216	37
Ceredigion	15	27
Conwy	125	41
Sir Ddinbych	99	30
Sir y Fflint	146	34
Gwynedd	83	34
Ynys Môn	59	30
Merthyr Tudful	47	32
Sir Fynwy	91	38
Castell-nedd Port Talbot	157	32
Casnewydd	135	28
Sir Benfro	52	21
Powys	108	31
Rhondda Cynon Taf	118	20
Abertawe	247	37
Torfaen	60	30
Bro Morgannwg	64	34
Wrecsam	121	29
Cyfanswm	2380**	

* Mae hyn yn cyfeirio at y gyfradd ymateb i'r arolwg fel canran o rieni ym mhob awdurdod lleol a fanteisiodd ar C-CAS ac y rhannwyd eu manylion cyswllt gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru.

** Er bod 2382 o ymatebwyr wedi cwblhau'r arolwg, nid atebodd 2 ymatebydd y cwestiwn ynghylch yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddo.

Ffynhonnell: Arolwg o rieni a fanteisiodd ar C-CAS

Proffil yr ymatebwyr i arolwg y rhieni

- 2.15 O blith y rhieni a ymatebodd i'r arolwg, roedd bron pob un (97 y cant) o'r rhieni'n weithwyr hanfodol. Roedd gan un y cant o rieni blant â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, a nododd un y cant fod ganddynt weithiwr cymdeithasol.
- 2.16 O blith y rhieni hynny a nododd eu bod yn weithwyr hanfodol, roedd dros hanner (51 y cant) y rhieni yn weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol. Roedd 16 y cant o weithwyr hanfodol yn weithwyr addysg neu ofal plant, roedd 9 y cant yn gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac roedd tua phump y cant o rieni yn gweithio ym

meysydd diogelwch y cyhoedd, bwyd a nwyddau hanfodol, cyfleustodau, cyllid a chyfathrebu.¹⁰

Cyfweliadau â rhieni plant agored i niwed a fanteisiodd ar C-CAS ac unigolion a atgyfeiriodd blant agored i niwed at C-CAS

- 2.17 Er mwyn casglu adborth ar yr elfen o C-CAS a oedd yn caniatáu i rieni plant agored i niwed fanteisio ar y Cynllun, cynhaliwyd cyfweliadau â rhieni plant agored i niwed (3 cyfweliad) ac unigolion a atgyfeiriodd blant agored i niwed at C-CAS (22 o gyfweliadau). Canolbwyntiodd y cyfweliadau â rhieni plant agored i niwed ar eu barn am y cymorth a gafwyd drwy C-CAS ac effaith y cymorth hwn arnyn nhw a'u teulu.
- 2.18 Cynhaliwyd cyfanswm o 22 o gyfweliadau dros y ffôn gydag unigolion a oedd wedi atgyfeirio plant agored i niwed at C-CAS. Roedd yr atgyfeirwyr hyn yn cefnogi teuluoedd agored i niwed yn rhinwedd eu swydd cyn ac yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd eu swyddi yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, swyddogion Tîm o Amgylch y Teulu, cynrychiolydd y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg, aelodau o staff Dechrau'n Deg (gan gynnwys ymwelwyr iechyd a chynghorwyr) a Swyddog Diogelu mewn sefydliad addysg.
- 2.19 Darparwyd manylion cyswllt atgyfeirwyr, drwy Lywodraeth Cymru, gan awdurdodau lleol a gafodd ganiatâd yr atgyfeirwyr i rannu eu manylion cyswllt. Gwahoddwyd cyfanswm o 48 o atgyfeirwyr i gyfweliad, ymatebodd 22 ohonynt a chawsant eu cyfweld.
- 2.20 Yn gyffredinol, roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar farn atgyfeirwyr am y broses atgyfeirio, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn arbennig o dda a ph'un a oedd unrhyw heriau ynghlwm â'r broses hon; trefniadau gofal plant y teuluoedd a atgyfeiriwyd cyn ac ar ôl manteisio ar gymorth C-CAS; barn yr atgyfeirwyr ar fanteision a heriau C-CAS i rieni a'u plant; ac a ddysgwyd unrhyw wersi ynghylch

¹⁰ Mae'r dadansoddiad hwn o rolau gweithwyr hanfodol yn debyg i'r ffigurau a nodwyd yn y data monitro. Fel yr amlinellir yn adran 1.9, yn ôl y data monitro, o blith y rhieni a fanteisiodd ar y cynllun, roedd ychydig yn llai na'u hanner (44 y cant) yn weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol; roedd 14 y cant yn weithwyr addysg neu ofal plant; roedd 13 y cant yn gweithio yn y sector cyfleustodau, cyllid a chyfathrebu; roedd 10 y cant yn weithwyr bwyd a nwyddau hanfodol; roedd 8 y cant yn gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol); roedd 7 y cant yn y sector diogelwch cyhoeddus (milwrol, gwasanaethau brys); ac roedd 4 y cant yn weithwyr trafniadaeth.

darparu cymorth i blant agored i niwed yn y dyfodol neu ar gyfer darpariaeth gofal plant yn y dyfodol.

Cyfweliadau â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol

- 2.21 Cynhaliwyd cyfweliadau fideo gyda chynrychiolwyr pedwar o sefydliadau Cwlwm¹¹, a gyda Phlant yng Nghymru. Yn achos cynrychiolwyr Cwlwm, canolbwyntiodd y cyfweliadau hyn ar sylwadau cyffredinol am y Cynllun a gwersi ehangach ar gyfer y dyfodol tra bod y cyfweliad â Plant yng Nghymru wedi canolbwyntio ar y ddarpariaeth ar gyfer plant agored i niwed hefyd.

Darparwyd crynodeb ysgrifenedig hefyd gan Wasanaeth Ymchwilio a Chynghori Comisiynydd Plant Cymru mewn perthynas â'r cynllun C-CAS yn seiliedig ar astudiaethau achos dienw a gynhyrchwyd ganddo. Crynhoir prif bwyntiau'r astudiaethau achos yn adran 3.6.

Dadansoddiad o ddata monitro

- 2.22 Cyflwynwyd data monitro ar deuluoedd a fanteisiodd ar C-CAS i Lywodraeth Cymru gan bob awdurdod lleol. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad o'r data hyn i archwilio nifer y plant a oedd wedi manteisio ar C-CAS a'r oriau gofal plant a archebwyd ac a ddefnyddiwyd o dan C-CAS. Canolbwyntiodd y dadansoddiad hwn ar ddata monitro rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020.

Llinell amser darparu C-CAS

- 2.23 Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 yn gofyn am gamau a arweiniodd at roi newidiadau ar waith ar unwaith. Fel y nodwyd yn yr adran gefndir uchod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 18 Mawrth y byddai ysgolion yn cau ac yn symud i ddysgu ar-lein o 20 Mawrth 2020. Ar 20 Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r ddarpariaeth ar safleoedd ysgolion ond ar gael i blant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed o 23 Mawrth ymlaen. Ar yr un pryd gofynnodd Llywodraeth Cymru i ddarparwyr gofal plant roi blaenoriaeth i blant gweithwyr

¹¹ Cwlwm yw'r consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru. Y sefydliadau sy'n rhan o Cwlwm yw Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.

hanfodol a phlant agored i niwed. Cafodd gofal plant a ariennir a ddarparwyd drwy'r Cynnig Gofal Plant hefyd ei atal dros dro ar gyfer newydd-ddyfodiaid am dri mis o'r cyntaf o Ebrill ymlaen.

- 2.24 Er mwyn lleihau'r sioc ariannol i ddarparwyr yn sgil cau lleoliadau gofal plant, ar 18 Mawrth, cytunodd Llywodraeth Cymru i barhau i dalu i ddarparwyr am yr oriau gofal plant a archebwyd o dan y Cynnig am dri mis, hyd yn oed os nad oedd y plentyn yn gallu mynychu, neu lle roedd yn ofynnol i'r lleoliad gau o ganlyniad i'r feirws. Roedd y cyllid ar gyfer elfen FPN y Cynnig hefyd yn parhau i fod ar gael i rai darparwyr yn ôl disgrisiwn awdurdodau lleol unigol. Roedd lleoliadau Gofal Plant Dechrau'n Deg hefyd yn parhau i gael eu hariannu trwy'r Grant Plant a Chymunedau. Yn fuan ar ôl cyhoeddi hyn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai'n cyflwyno'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Cynllun Cadw Swyddi) - y cyfeirir ato fel y 'cynllun ffyrlo.'
- 2.25 Ym mis Ebrill 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru C-CAS a oedd yn cynnig darpariaeth gofal plant a ariennir i blant cyn oed ysgol a oedd yn agored i niwed neu yr oedd eu rhieni'n weithwyr hanfodol. Rhoddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ar y pryd yn amlinellu nodau'r Cynllun â'r meini prawf cymhwysra ar gyfer gweithwyr hanfodol (a oedd yn gyson â rhestr Llywodraeth y DU o weithwyr hanfodol) a phlant agored i niwed y gallai'r Cynllun eu cefnogi.
- 2.26 Er mwyn darparu gofal plant yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn ofynnol i leoliadau newid y ffordd yr oeddent yn gweithredu. I gydnabod hyn, cyflwynwyd newidiadau dros dro ar 8 Ebrill i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ar gyfer plant hyd at 12 oed gan gynnwys, newidiadau dros dro i gymarebau staff a gofynion hyfforddi er mwyn helpu i sicrhau y gallai lleoliadau barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol mewn amgylchiadau heriol. Cynhaliwyd arolwg o leoliadau gan Lywodraeth Cymru hefyd i fod yn sail i ganllawiau ar fesurau diogelu rhag COVID-19 (gweler Atodiad C).
- 2.27 Er i Lywodraeth Cymru barhau i dalu am elfen gofal plant y Cynnig ar gyfer plant cymwys¹² hyd at 19 Mehefin, roedd llawer o rieni wedi methu â manteisio ar y gofal plant hwn ers i gyfyngiadau COVID-19 gael eu cyflwyno ym mis Mawrth. Fodd bynnag, ym mis Mehefin cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y gallai lleoliadau gofal

¹² Hynny yw, plant a oedd yn gymwys i gael gofal plant ac a fanteisiodd arno drwy'r Cynnig Gofal Plant ym mis Mawrth 2020

plant, o 22 Mehefin ymlaen, ofalu am blant heblaw plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed. O ganlyniad, o'r dyddiad hwn, roedd plant a oedd wedi bod yn manteisio ar y Cynnig ym mis Mawrth 2020 nad oeddent wedi gallu cael darpariaeth yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, bellach yn gallu gwneud hynny unwaith eto. Parhaodd lleoliadau gofal plant i dderbyn cyllid y Cynnig ar gyfer y plant hynny a ddychwelodd i'w gofal ar ôl 22 Mehefin. Fodd bynnag, mewn achosion lle na wnaeth y plant a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig ddychwelyd i fanteisio ar y ddarpariaeth a ariennir a oedd ar gael iddynt o'r dyddiad hwn, rhoddwyd y gorau i dalu cyllid i'r darparwyr.

- 2.28 Parhawyd â'r ddarpariaeth C-CAS ochr yn ochr â'r Cynnig Gofal Plant tan 31 Awst 2020. Fodd bynnag, daeth ceisiadau newydd ar gyfer y cynllun C-CAS i ben ar gyfer teuluoedd gweithwyr hanfodol ddechrau mis Gorffennaf, ond gallai plant agored i niwed gael eu hatgyfeirio at C-CAS tan iddo ddod i ben ar 31 Awst.

Trosolwg o'r penodau sy'n weddill

- 2.29 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir ym Mhennod 3 isod yn dechrau drwy amlinellu sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i'r angen i gefnogi C-CAS a'r paratodau a wnaed er mwyn darparu'r Cynllun yn eu hardal nhw. Mae hyn yn cynnwys sut y gwnaeth awdurdodau lleol hysbysu darparwyr gofal plant a rhieni cymwys am y Cynllun, y modelau darparu gan gynnwys trefniadau cyllido y penderfynwyd arnynt a'r broses casglu data a gweinyddu a roddwyd ar waith ganddynt.
- 2.30 Yna aiff y canfyddiadau ym Mhennodau 4 a 5 ymlaen i amlinellu dylanwad C-CAS ar ddarparwyr gofal plant a rhieni a gymerodd ran yn y cynllun. Yn olaf, ym Mhennod 6 mae'r canfyddiadau'n canolbwyntio ar sut y bu i C-CAS gefnogi plant agored i niwed a'r effaith a gafodd y Cynllun ar lesiant y plant hyn a'u rhieni.
- 2.31 Daw'r dystiolaeth a gyflwynir o ddata a gasglwyd o arolygon y rhieni a'r darparwyr gofal plant a gymerodd ran yn y Cynllun. Mae hefyd yn tynnu ar wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfweiliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant, y rhai (megis ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol) a atgyfeiriodd blant agored i niwed at y Cynllun yn ogystal â nifer fach o rieni plant agored i niwed a gefnogwyd gan y Cynllun. Mae Pennod 7 yr adroddiad yn dwyn ynghyd gasgliadau

yn seiliedig ar y canfyddiadau sydd ar gael ac yn cynnig rhai argymhellion i'w hystyried yn y dyfodol.

3. Gweithredu C-CAS

Gweithredu C-CAS

Canfyddiadau allweddol

Roedd **amrywiaeth yn y ddarpariaeth ar draws awdurdodau lleol** oherwydd:

- Meini prawf cymhwysedd
- Trefniadau cyllido
- Argaeledd gofal plant addas
- Dehongliad awdurdodau lleol o ganllaw Llywodraeth Cymru
- Dulliau o hysbysu darparwyr gofal plant o'r cynllun

Gweithiodd awdurdodau lleol **yn agos gyda Llywodraeth Cymru**, gan weithredu C-CAS o fewn amserlen fer.

Roedd yn rhaid i rai awdurdodau lleol weithredu systemau a phrosesau newydd, a **achosiodd heriau gweinyddol**.

Gwerthfawrogodd darparwyr y gefnogaeth ariannol gan C-CAS.

Nododd **91%** o ddarparwyr eu bod yn derbyn eu taliadau C-CAS mewn da bryd.

I'r mwyafrif o ddarparwyr, roedd y cyllid a dderbyniwyd yn **uwch na'r gyfradd yr oeddent yn gofyn fel arfer**. Oherwydd costau ychwanegol, nid oedd hyn yn cyfateb i incwm net uwch.

Achosodd gwahanol feini prawf cymhwysedd gweithwyr allweddol ar draws awdurdodau lleol **deimladau o annhegwch ymysg rhieni**.

Nododd **91%** o rieni fod y broses ymgeisio yn **hawdd neu'n weddol hawdd**.

Roedd nifer y rhieni a ddefnyddiodd C-CAS yn wahanol oherwydd **gwahaniaethau dylunio a chyflenwi amrywiol mewn awdurdodau lleol**.

Eiconau gan Icons8.com
Ffynhonnell: Arolwg Darparwyr C-CAS 2020. N= 349
Arolwg Rhieni Cynnig Gofal Plant 2019/20. N= 2382

3.1 Nododd y darparwyr gofal plant a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd eu bod, ar ôl y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, yn croesawu'r cymorth ariannol a oedd ar gael iddynt drwy daliadau parhaus am y lleoedd a

archebwyd yn flaenrol drwy'r Cynnig Gofal Plant a'r cynllun 'ffyrlo'¹³. Roedd llawer hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle a roddodd C-CAS i'w galluogi i aros ar agor i gefnogi gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, nid oedd modd i lawer o ddarparwyr dderbyn yr holl gymorth ariannol a oedd ar gael (h.y., holl gyllid 'ffyrlo' y Cynllun Cadw Swyddi a phob un o'r taliadau Cynnig Gofal Plant parhaus) gan y byddai gwneud hynny yn golygu y byddent yn cael dau daliad ar wahân, wedi'u hanelu at ddarparu'r un math o gymorth - h.y. byddent wedi derbyn cyllid dwbl. Nododd y darparwyr fod ceisio deall yr hyn yr oedd ganddynt yr hawl i'w gael wedi creu rhagor o heriau gweinyddol. Nododd rhai darparwyr, o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi manteisio, drwy amryfusedd, ar y ddau gynllun cyllid, y bu'n rhaid iddynt ddechwyn yr arian nad oedd ganddynt hawl iddo.

- 3.2 Oherwydd i C-CAS gael ei gyflwyno ar fyr rybudd, ychydig iawn o amser a gafodd awdurdodau lleol i gyflwyno systemau a phrosesau newydd i ddarparu'r Cynllun ar lefel leol. Yn ychwanegol at hyn, roedd angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gyfleu gwybodaeth yn ymwneud â'r sefyllfa a oedd yn newid yn barhaus i ddarparwyr gofal plant a rhieni yn rheolaidd iawn (bob dydd yn aml). Roedd angen i awdurdodau lleol hefyd ymateb yn gyson i gwestiynau ac ymholiadau gan rieni a darparwyr o ganlyniad i'r wybodaeth a gawsant.
- 3.3 Roedd yr holl ddarparwyr a rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad, yn cydnabod bod y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r pandemig yn gwbl angenrheidiol ac anochel, a bod rheoli'r newidiadau gofynnol ar lefel genedlaethol a lefel leol i ddarparu ar gyfer C-CAS wedi bod yn heriol iawn. Roedd pawb yr ymgynghorwyd â hwy hefyd yn canmol y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cydweithio ac wedi llwyddo i weithredu C-CAS ar draws yr holl ardaloedd awdurdodau lleol o fewn amserlen fer iawn.

'Cymerodd 12 mis o gynllunio a pharatoi i lansio Cynnig Gofal Plant Cymru; cafodd y gwaith o gynllunio a gweithredu C-CAS ar draws pob rhan o Gymru ei gwblhau mewn ychydig wythnosau.' (Cynrychiolydd awdurdodau lleol)

¹³ Parhaodd darparwyr a oedd yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg i gael taliadau drwy'r Grant Plant a Chymunedau - fodd bynnag, ni chyfeiriwyd at hyn gan ddarparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg neu a gyfweilwyd.

Roedd ambell gynrychiolydd awdurdod lleol a rhanddeiliad ehangach o'r farn y gallai'r broses o ledaenu gwybodaeth i rieni a darparwyr fod wedi bod yn well. Honnodd rhai o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy fod Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth â rhai sefydliadau a phartïon â diddordeb ar wahanol adegau i eraill. O ganlyniad, roedd rhai rhanddeiliaid, ar brydiau, yn gorfod ymateb i gwestiynau ac ymholiadau gan rieni a darparwyr cyn iddynt dderbyn y wybodaeth lawn eu hunain, gan greu'r potensial i beri dryswch a darparu atebion anghywir mewn ymateb i'r ymholiadau hyn. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth i'r holl bartïon perthnasol cyn gynted â phosibl. Roedd unrhyw ohebiaeth drwy e-bost yn cael ei hanfon at yr awdurdodau lleol yn gyntaf, ac yna at Cwllwm.

Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn nifer fawr iawn o ymholiadau gweithredol gan awdurdodau lleol, ac yn gorfod ymateb iddynt. Roedd ymateb yn gyflym i'r holl ymholiadau hyn yn heriol iawn ac i ddechrau atebwyd unrhyw ymholiadau drwy ymatebion unigol i'r awdurdod lleol penodol a gyflwynodd yr ymholiad. Er mwyn rheoli nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd, dechreuodd Llywodraeth Cymru goladu a rhannu ymatebion gyda'r holl awdurdodau lleol yn wythnosol. Nododd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru hefyd fod sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol, megis partneriaid Cwllwm ac awdurdodau lleol, yn aml yn cael eu briffio ychydig cyn cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru er mwyn cyflymu'r broses o ledaenu gwybodaeth berthnasol i'w haelodau a'r boblogaeth ehangach.

- 3.4 Nododd dau awdurdod lleol eu bod wedi gorfod talu am wasanaethau ychwanegol gan gwmnïau cyfieithu er mwyn gweinyddu C-CAS. Roedd un wedi gorfod defnyddio cyfieithydd i ddsbarthu gwybodaeth hyrwyddo am C-CAS ac roedd y llall wedi gorfod defnyddio cyfieithydd i anfon gwybodaeth ymlaen at ddarparwyr. Nododd yr awdurdodau lleol hyn fod hynny'n golygu bod rhywfaint o wybodaeth wedi dyddio cyn y gellid ei dosbarthu, gan fod cyhoeddiadau, rheolau a rheoliadau yn newid ar fyr rybudd.
- 3.5 Ar y llaw arall, mynegodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol eraill a darparwyr gofal plant gymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r cwestiynau cyffredin yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar ei gwefan. Roedd y Cwestiynau Cyffredin hyn yn cael eu diweddarau'n gyson gan Lywodraeth Cymru ac roedd cael mynediad atynt yn galluogi cynrychiolwyr awdurdodau lleol i ddarparu ymatebion cyson a chywir i

gwestiynau a godwyd gan ddarparwyr a rhieni yn ymwneud â chanllawiau newydd wrth iddynt godi.

3.6 Darparwyd crynodeb ysgrifenedig gan Wasanaeth Ymchwilio a Chynghori Comisiynydd Plant Cymru mewn perthynas â'r cynllun C-CAS yn seiliedig ar astudiaethau achos dienw a gynhyrchwyd ganddo. Roedd y prif bwyntiau a gynhwyswyd yn yr astudiaethau achos yn cynnwys pryderon a fynegwyd gan rieni yn ymwneud â:

- diffyg darpariaeth gofal plant ar gyfer plant rhai gweithwyr hanfodol mewn un ardal lle roedd yr Awdurdod Lleol wedi blaenoriaethu lleoedd gofal plant ar gyfer mathau penodol o swyddi ar y rhestr gweithwyr hanfodol/allweddol oherwydd y nifer cyfyngedig o leoedd gofal plant a oedd ar gael.
- argaeledd darpariaeth Gymraeg drwy C-CAS ar gyfer plant dan bump oed a oedd fel arfer yn defnyddio cyfleusterau gofal plant cyfrwng Gymraeg sydd ynghlwm wrth leoliadau ysgolion cynradd. P'un a fyddai'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei adfer ym mis Medi 2020 ar ôl cael ei atal dros dro y sgil cyflwyno C-CAS. Roedd yr ansicrwydd hwn yn peri i un rhiant boeni a fyddai'n rhaid iddo aros adref o'r gwaith ym mis Medi ac y byddai ei blentyn yn colli'r manteision a ddaw yn sgil mynychu lleoliad gofal plant.
- Tegwch y Cynllun yn yr ystyr y byddai gweithwyr hanfodol/allweddol â phlant cyn oed ysgol yn gallu manteisio ar ofal plant â chymhorthdal llawn yn ystod gwyliau'r haf ond byddai'n rhaid i deuluoedd eraill sy'n gweithio dalu 100% o'r gost er mwyn cael darpariaeth debyg ar gyfer eu plant nhw.
- Tegwch o ran categorio gweithwyr hanfodol - er enghraifft roedd un rhiant yn gweithio mewn canolfan arddio ac roedd yn ofynnol iddo ddychwelyd i'r gwaith pan ganiatawyd i rai busnesau ailagor wrth i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf ddechrau cael eu llacio. Fodd bynnag, nid oedd gweithio mewn canolfan arddio ar y rhestr gweithwyr hanfodol/allweddol ac felly nid oedd y rhiant hwn yn gymwys i gael cymorth C-CAS.
- eu gallu i barhau i ddarparu gofal plant fel gwarchodwr plant drwy C-CAS oherwydd bod yn rhaid iddynt ofalu am eu plentyn eu hunain a oedd yn ei

arddegau na allai fanteisio ar ddarpariaeth yn ei ysgol arbennig oherwydd cyfyngiadau ar lefelau staffio a diffyg lle.

Cymhwysra a manteisio ar y ddarpariaeth gofal plant

- 3.7 Nod sylfaenol C-CAS oedd cefnogi rhieni y nodwyd eu bod yn weithwyr hanfodol i barhau i weithio yn ystod y pandemig drwy gynnig cymorth gofal plant a ariennir iddynt. O'r cychwyn cyntaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer categoreiddio gweithwyr hanfodol - gweler Atodiad A. Rhoddwyd ymreolaeth i bob awdurdod lleol benderfynu sut i gyflwyno C-CAS yn y ffordd yr oeddent yn teimlo a oedd yn gweddu orau i anghenion gweithwyr hanfodol a darparwyr gofal plant yn eu hardal nhw. O ganlyniad, roedd y ffordd yr ariannwyd darparwyr i ddarparu gofal plant a gefnogir gan y Cynllun yn amrywio. Roedd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru wedi disgwyl hyn. Fodd bynnag, roedd y ffordd y dehonglwyd meini prawf cymhwysra y Cynllun hefyd yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol - nid oedd hyn yn rhywbeth a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylanwadodd hyn yn ei dro ar nifer y rhieni a allai fanteisio ar y Cynllun, y gost o'i ariannu a lefel y gwaith gweinyddol a oedd yn ofynnol er mwyn ei ddarparu ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.
- 3.8 Mewn un awdurdod lleol dim ond plant lle roedd y ddau riant (ar wahân i deuluoedd un riant) yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau rheng flaen (h.y. yr heddlu, gwasanaeth tân, iechyd a gofal) ac nad oeddent yn gallu gweithio gartref a oedd yn gymwys i gael C-CAS. Mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill, roedd y diffiniad o weithwyr hanfodol ac felly cymhwysra ar gyfer C-CAS yn ymestyn y tu hwnt i weithwyr rheng flaen brys i gynnwys gyrwyr dosbarthu, gweithwyr siopau ac mewn un achos gweithwyr ffatri a oedd yn cynhyrchu cynhyrchion bwyd a gyflenwyd i'r GIG, yn ogystal ag ystod o gwsmeriaid eraill.
- 3.9 Arhosodd y meini prawf cymhwysra a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yr un fath drwy gydol cyfnod cyflawni C-CAS. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, roedd y ffordd y cafodd y cymhwysra ei ddehongli a'i ymgorffori yn y C-CAS ar lefel leol yn wahanol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Yn ychwanegol at hyn, yn ystod dau fis cyntaf C-CAS, newidiodd y meini prawf cymhwysra ar gyfer rhieni a oedd yn weithwyr hanfodol ar draws llawer o awdurdodau lleol, ond nid pob un. Er enghraifft, penderfynodd rhai awdurdodau lleol o'r cychwyn y byddent yn

gweithredu meini prawf cymhwysra C-CAS er mwyn sicrhau mai dim ond teuluoedd lle mae'r ddau riant yn gymwys (ar wahân i deuluoedd un riant) allai fanteisio ar y Cynllun. Yn ddiweddarach, adolygodd rhai o'r ardaloedd hyn eu dehongliad o'r canllawiau fel mai dim ond un riant neu warcheidwad a oedd yn gorfod dod o fewn y categori gweithiwr hanfodol er mwyn eu galluogi i fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun.¹⁴

- 3.10 Roedd yn ymddangos bod y gwahanol ddulliau o gymhwyso meini prawf cymhwysra C-CAS ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, yn rhannol, yn cael eu dylanwadu gan bolisiâu ehangach a fabwysiadwyd gan wahanol awdurdodau lleol. Roedd pob awdurdod lleol yn ymwybodol o oblygiadau economaidd a chyhoeddus y pandemig. Rhoddodd rhai awdurdodau lleol bwys mawr iawn ar iechyd y cyhoedd gan gyfyngu ar argaeledd C-CAS, ac felly ar nifer y plant a ddyrannwyd i leoliadau gofal plant unigol, er mwyn lleihau i'r eithaf y posibilrwydd o drosglwyddo COVID-19. Roedd awdurdodau lleol eraill yn mabwysiadu dull a oedd yn diogelu rhag y feirws ac ar yr un pryd yn lleihau niwed i'r economi leol drwy geisio cefnogi cymaint o weithwyr â phosibl i barhau i weithio yn ogystal â chefnogi darparwyr gofal plant lleol. Beth bynnag fo'r rhesymeg dros y gwahanol ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd, y canlyniad oedd bod nifer ac amgylchiadau'r plant yr oedd C-CAS yn ariannu gofal plant ar eu cyfer yn wahanol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.
- 3.11 Roedd argaeledd darpariaeth a lleoliadau gofal plant o fewn awdurdodau lleol hefyd yn dylanwadu ar y gwahaniaeth yn y lefelau cymorth. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, roedd lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a ariannwyd gan y llywodraeth yn parhau i fod ar agor O ganlyniad, gellid defnyddio'r lleoliadau hyn i gynnig darpariaeth i blant agored i niwed a / neu blant gweithwyr hanfodol. Roedd rhai ysgolion a oedd, cyn C-CAS, yn cynnig darpariaeth FPN, bellach yn gallu cynnig darpariaeth i blant iau gweithwyr hanfodol (plant 3 a 4 oed) fel rhan o'u hyb ysgol. Fodd bynnag, nid oedd y gallu i fabwysiadu'r gwahanol fathau o ddarpariaeth yn seiliedig ar ddulliau cyflawni a phenderfyniadau a wnaed gan awdurdodau lleol yn unig. Roeddent yn seiliedig yn bennaf ar argaeledd cyfleusterau lleol a staff wedi'u hyfforddi'n briodol.

¹⁴ Mabwysiadodd awdurdod lleol Ceredigion y diffiniad cul o gymhwysra ar gyfer C-CAS drwy gydol y cyfnod gweithredu - h.y. er mwyn bod yn gymwys, roedd yn rhaid i'r ddau riant (neu un mewn teuluoedd un riant) gael eu cyflogi gan wasanaethau brys rheng flaen neu wasanaethau iechyd a gofal a bod mewn swydd lle na allant weithio gartref.

- 3.12 Mae'n anodd dod i gasgliadau pendant o ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn ynghylch pa un o blith yr ystod o ddulliau o ddarparu C-CAS a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol oedd y mwyaf effeithiol neu effeithlon. Er enghraifft, roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu cost y Cynllun mewn rhai ardaloedd, gan fod llawer o'r rhieni a fanteisiodd ar y Cynllun wedi bod yn talu am ofal plant o'r blaen a byddent wedi bod yn hapus i barhau i wneud hynny. Awgrymodd rhai darparwyr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd fod rhai o'r gweithwyr hanfodol sy'n manteisio ar C-CAS yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau a oedd yn talu cyflog a oedd yn fwy na'r cap cyflog o £100k a osodwyd ar feini prawf cymhwysra y Cynnig Gofal Plant ac felly'n cwestiynu ai cynnig gofal plant a ariennir yn llawn i 'weithwyr proffesiynol ar gyflogau da' oedd y defnydd gorau o arian cyhoeddus.¹⁵
- 3.13 Mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, nododd y darparwyr fod y galw am C-CAS wedi bod yn fach gan mai dim ond ychydig o rieni a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun; o ganlyniad, nid oedd y darparwyr hyn o'r farn ei bod yn gost-effeithiol aros ar agor i ddarparu gofal plant a ariannwyd gan y Cynllun. Cyfeirir at gost-effeithiolrwydd darparu C-CAS o safbwynt darparwyr ym mhennod 3.41 hefyd.
- 3.14 Canlyniad net y gwahanol ddulliau hyn oedd y gallai rhieni sy'n gweithio mewn rhai mathau o swyddi mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, fanteisio ar C-CAS ond ni allai rhieni mewn awdurdodau cyfagos a oedd yn gweithio yn yr un math o swydd wneud hynny.
- 3.15 Gwaethygyd yr anghysondeb hwn ymhellach wrth i'r meini prawf cymhwysra mewn rhai ALlau newid dros amser. Mewn rhai awdurdodau lleol, ehangwyd y meini prawf cymhwysra i gynnwys mwy o swyddi. Newidiodd y meini prawf hefyd mewn rhai ardaloedd, ond nid ym mhob un, fel mai dim ond un rhiant a oedd angen bod yn weithiwr hanfodol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun yn hytrach na dau, fel a oedd yn wir yn flaenorol mewn rhai awdurdodau lleol. O ganlyniad, mewn rhai ardaloedd, byddai aelwyd â dau riant lle mai dim ond un rhiant a oedd yn weithiwr hanfodol, a/neu lle roedd gan un rhiant swydd nad oedd yn dod o fewn y categori gweithiwr hanfodol ar y pryd, wedi cael ei wrthod ar gyfer C-CAS ar ddechrau'r

¹⁵ Dylid nodi efallai na fydd canfyddiadau darparwyr o lefelau cyflog bob amser yn gywir. Awgryma [ffigurai ONS ar enillion ac oriau](#) fod cyflog cyfartalog ymarferwyr meddygol, gan gynnwys anesthetyddion, ymgynghorwyr, meddygon, ymarferwyr cyffredinol, pediatregwyr, seiciatryddion, radiolegwyr a llawfeddygon yn £66,038 - ymhell islaw trothwy £100K y Cynnig Gofal Plant i Gymru.

Cynllun. Fodd bynnag, byddai aelwyd â rhieni gyda'r un meini prawf yn union wedi cael ei hystyried yn gymwys ar gyfer y Cynllun yn ddiweddarach yn yr haf pan newidiwyd y meini prawf cymhwystra.

- 3.16 Un casgliad y gellir dod iddo ar sail hyn yw bod yr anghysondeb o ran y dulliau a fabwysiadwyd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol wedi creu teimladau o annhegwch ymhlith rhieni a rhanddeiliaid ehangach.

Hysbysu rhieni

- 3.17 O ganlyniad i'r gwahanol ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol, manteisiodd llawer o rieni a phlant ar y Cynllun mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol ond nifer cymharol fach a fanteisiodd arno mewn ardaloedd eraill. Roedd y nifer a fanteisiodd ar y Cynllun hefyd yn dibynnu ar y ffordd y cafodd y Cynllun ei hyrwyddo i rieni ac i ba raddau.
- 3.18 Mae canfyddiadau'r arolwg o rieni yn dangos bod dros hanner y rhai a holwyd (59 y cant) wedi clywed am y Cynllun yn uniongyrchol gan eu darparwr gofal plant. O blith y rhieni a oedd eisoes yn defnyddio gofal plant ffurfiol, roedd bron i ddwy ran o dair (62 y cant) wedi clywed am y Cynllun drwy eu darparwr gofal plant presennol. Clywodd bron i un rhan o bump am y Cynllun ar dafod leferydd (16 y cant) a chlywodd un rhan o ddeg am y Cynllun drwy'r rhyngwyd a'r cyfryngau cymdeithasol (10 y cant). Dim ond 15 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg a nododd eu bod wedi clywed am y Cynllun yn uniongyrchol gan eu hawdurdod lleol. O blith y rhai a nododd fod gan eu plentyn ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu fod ganddo weithiwr cymdeithasol, roedd y rhain wedi clywed am y Cynllun yn bennaf drwy eu darparwr presennol (15 o blith 40 o ymatebion) a thrwy eu hawdurdod lleol (15 o blith 40 o ymatebion.)
- 3.19 Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn poeni bod y Cynllun yn mynd i arwain at fwy o alw am ofal plant nag y gellid ei ddiwallu. Mae hyn a'r ffaith ei bod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o rieni wedi clywed amdano'n uniongyrchol gan eu darparwr gofal plant, yn awgrymu y gallai awdurdodau lleol fod wedi bod ychydig yn ochelgar o ran y ffordd y gwnaethant hyrwyddo'r Cynllun mewn rhai ardaloedd.¹⁶

¹⁶ Dylid nodi bod awdurdodau lleol yn aml yn gweithio gyda darparwyr ac yn eu hannog i gyfathrebu â rhieni. Er enghraifft, ymddengys fod y dull cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth hwn wedi gweithio'n dda yn y gorffennol yng nghyd-destun y cynnig Gofal Plant.

Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol hefyd eu bod wedi cael eu gorlethu gan yr angen i sefydlu systemau a phrosesau gweinyddu newydd i ddarparu C-CAS mewn amserlen fer iawn a chyda nifer cyfyngedig o staff. O ganlyniad, roedd eu gallu i hysbysu'r holl rieni cymwys am y Cynllun yn gyfyngedig. Nododd ychydig o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg mai dim ond yn ystod ychydig fisoedd olaf y Cynllun y clywsant am C-CAS ac y byddent wedi gwerthfawrogi cael gwybodaeth a gohebiaeth am feini prawf cymhwysra a manteision y Cynllun yn gynharach.

- 3.20 Ochr yn ochr â C-CAS, a oedd wedi'i anelu at blant cyn oed ysgol, roedd pob awdurdod lleol hefyd yn ariannu darpariaeth ar gyfer plant ysgolion cynradd gweithwyr hanfodol mewn ysgolion dynodedig ('hybiau ysgol'). Nododd rhai darparwyr a rhanddeiliaid a gyfwelwyd, mewn llawer o achosion, fod gweithwyr hanfodol a oedd â phlant o oedran ysgol gynradd yn ogystal â phlant cyn oed ysgol, yn tueddu i gael eu cyfeirio tuag at y cymorth sydd ar gael yn yr hybiau ysgol ac nid o reidrwydd tuag at C-CAS. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith, mewn achosion eithriadol, bod cymorth ar gael drwy C-CAS i ariannu darpariaeth ar gyfer brodyr a chworydd oed ysgol y plant cyn oed ysgol cymwys. O ganlyniad, nododd rhai rhanddeiliaid a darparwyr enghreifftiau o rieni yn manteisio ar ddarpariaeth ar gyfer eu plant oed ysgol yn unig drwy'r Hybiau Ysgol neu'n gorfod teithio rai milltiroedd er mwyn mynd ag un plentyn i Hyb Ysgol ac un arall i ddarparwr gofal plant a oedd yn darparu'r cynllun C-CAS. Roedd y pryderon a fynegwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy nid yn unig yn ymwneud â heriau logistaidd mynd â phlant i fwy nag un lleoliad, ond hefyd y peryglon iechyd posibl o fynd â phlant i fwy nag un lleoliad neu fod yn rhan o fwy nag un swigen yn ystod pandemig.
- 3.21 Nododd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod y sefyllfaoedd hyn yn aml yn codi mewn ardaloedd lle roedd y broses o ddarparu cymorth i weithwyr hanfodol yn cael ei harwain gan yr adran addysg. O'r herwydd, cyfeiriwyd rhieni cymwys tuag at ddarpariaeth mewn lleoliad addysg yn gyntaf cyn ystyried darpariaeth mewn lleoliad gofal plant.
- 3.22 Mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol, isadran addysg yr awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol mewn hybiau ysgolion, ac isadran gofal plant yr awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau am C-CAS. Datgelodd cyfweiliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol fod anghysondebau ar adegau o ran y ffordd y dehonglwyd y

meini prawf cymhwysra ar gyfer cymeradwyo ceisiadau a adolygwyd gan yr is-adran addysg a'r ffordd y cawsant eu dehongli ar gyfer cymeradwyo ceisiadau C-CAS yn yr adran gofal plant; er y dylent fod wedi bod yr un fath yn y ddwy adran gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod yr anghysondebau hyn yn digwydd yn bennaf mewn achosion lle roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a oedd y disgrifiad o alwedigaeth y rhiant/rhieni neu'r gwarcheidwad/gwarcheidwaid yn cyfateb i'r diffiniad o weithiwr hanfodol. Cyfeiriodd un cynrychiolydd awdurdod lleol at enghraifft lle y cafodd cais C-CAS a wnaed gan rieni ar gyfer eu plentyn cyn oed ysgol ei wrthod gan yr awdurdod lleol i ddechrau oherwydd yr anghysondeb hwn, ond cafodd eu cais am le yn yr Hyb Ysgol ar gyfer eu plentyn hŷn ei gymeradwyo. O ganlyniad, bu'n rhaid gwrthdroi'r penderfyniad ar gais C-CAS y plentyn iau, a rhoddwyd lle i'r plentyn mewn lleoliad gofal plant, er y gallai ceisiadau C-CAS gan rieni eraill mewn galwedigaeth debyg o fewn yr awdurdod lleol fod wedi'u gwrthod. Nid oedd yn ymddangos bod achosion fel y rhain yn gyffredin, fodd bynnag, pan oeddent yn digwydd, roedd hyn yn ychwanegu at rwystredigaeth rhai darparwyr a rhieni ynghylch y diffyg cysondeb wrth gymhwyso'r meini prawf cymhwysra.

Hysbysu darparwyr gofal plant

- 3.23 Roedd y ffordd y gwnaed darparwyr gofal plant yn ymwybodol o C-CAS a'r ffordd y gofynnwyd iddynt ddarparu gofal plant a ariennir drwy'r Cynllun, hefyd yn wahanol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.
- 3.24 Nododd y mwyafrif o ddarparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi cael gwybod gyntaf am C-CAS drwy negeseuon e-bost neu ohebiaeth gan dîm gofal plant neu Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), partneriaid CWLWM, neu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Clywodd nifer fach o ddarparwyr (19 o leoliadau) am y Cynllun drwy rieni'n holi a oeddent yn gymwys ac a oedd y lleoliad yn darparu gofal plant a ariannwyd drwy'r Cynllun.
- 3.25 Teimlai'r darparwyr fod y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, eu hawdurdod lleol a ffynonellau eraill yn ddigonol a'u bod yn defnyddio hyn i esbonio'r Cynllun newydd i rieni. Mae hyn yn cefnogi'r canfyddiadau a nodir uchod, sef bod y rhan fwyaf o rieni wedi clywed am y Cynllun drwy ddarparwyr gofal plant. Mae'r

canfyddiadau a gynhwyswyd yn adroddiadau gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant a gynhyrchwyd mewn blynyddoedd blaenorol hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o rieni wedi clywed am y cyfleoedd gofal plant a ariennir yn uniongyrchol gan ddarparwyr. Mae canfyddiadau blaenorol yn ogystal â'r rhai a gyflwynir yma, yn awgrymu bod y math hwn o gyfathrebu'n gweithio'n dda, ond mae'n cwestiynu i ba raddau y cafodd rhieni cymwys nad oeddent yn manteisio ar ofal plant ffurfiol o'r blaen gyfle i ddod i wybod am y cymorth sydd ar gael.

- 3.26 Roedd y ffordd y clywodd darparwyr am C-CAS, ac i ba raddau, yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Mewn rhai ardaloedd rhoddwyd cyfle i bob darparwr gofal plant ddarparu gofal plant a ariennir gan C-CAS; mewn ardaloedd eraill estynnwyd y cyfle neu'r cais i nifer llai o ddarparwyr dethol.

'Roedd yn rhaid imi ddarganfod y wybodaeth fy hun. Doedd dim cyhoeddiad cychwynnol bod hyn yn digwydd, felly diolch byth fy mod i wedi gwneud hynny, ac roedd modd imi gofrestru. Wnes i ddod ar ei draws draws drwy gamgymeriad! Roedd yr hysbysebu'n wael iawn.' (Ymatebydd i gyfweiliad â darparwyr C-CAS).

- 3.27 Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, gallai holl ddarparwyr cofrestredig AGC ddarparu C-CAS pe byddai modd iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y ffordd y penderfynodd awdurdodau lleol pa ddarparwyr i ymgysylltu â nhw, eu hannog ac mewn rhai achosion eu dewis i ddarparu C-CAS yn wahanol - yn rhannol o ganlyniad i'r galw disgwylidig am ofal plant y byddai'r Cynllun yn ei greu. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle roedd disgwyl i'r galw fod yn isel, dim ond ychydig o ddarparwyr dethol y cysylltwyd â nhw. Mewn ardaloedd lle roedd y galw disgwylidig yn uchel, cysylltwyd â'r holl ddarparwyr lleol. Dylanwadwyd ar lefel y galw yn ei dro gan y dulliau darparu a fabwysiadwyd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, yn enwedig y ffordd y gwnaeth awdurdodau lleol weithredu neu ddehongli'r canllawiau cymhwysra a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru - gweler hefyd 3.13 uchod.

- 3.28 Esboniodd yr awdurdodau lleol fod rhai o'u darparwyr wedi cau erbyn i C-CAS gael ei gyhoeddi ac nad oeddent ar gael i ddarparu'r Cynllun. I raddau helaeth felly roedd y darparwyr y cysylltwyd â hwy ac a gynigiwyd neu y gofynnwyd iddynt ddarparu gofal plant a ariennir gan C-CAS yn dibynnu ar a oeddent yn barod i agor a / neu'n gallu aros ar agor neu ailagor ar ôl penderfynu cau. Er enghraifft, arhosodd mwyafrif y Cylchoedd Meithrin ar gau ac ni wnaethant ailagor i ddarparu C-CAS. O

ganlyniad, roedd y gofal plant a ariannwyd gan C-CAS a oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd.

- 3.29 Gofynnwyd i ddarparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ac nad oeddent wedi darparu'r cynllun C-CAS pam nad oeddent wedi darparu gofal plant a ariannwyd gan y Cynllun. Nododd un o bob pump (20 y cant) o'r ymatebwyr hyn nad oeddent wedi clywed am C-CAS. Roedd yr 80 y cant arall o'r ymatebwyr hyn yn ymwybodol o'r Cynllun ond wedi dewis peidio â'i ddarparu am amryw resymau gan gynnwys y ffaith nad oedd dim galw, nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn agor yn ystod pandemig neu eu bod wedi dewis cau er mwyn rhoi staff ar ffyrlo a hawlio cyllid drwy'r Cynllun Cadw Swyddi.

Trefniadau cyllido

- 3.30 Rhoddwyd ymreolaeth i awdurdodau lleol ddatblygu eu dulliau eu hunain o ddarparu C-CAS a gosodwyd y paramedrau cyllido a gynigiwyd i ddarparwyr sy'n darparu gofal plant C-CAS ar lefel awdurdod lleol. Mae Tabl 3.1 yn nodi enghreifftiau o wahanol drefniadau cyllido a oedd ar waith.
- 3.31 Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, telir cyfradd unffurf o £4.50 yr awr i bob darparwr gofal plant sy'n cymryd rhan yng Nghynnig Gofal Plant Cymru, er y gallant hefyd godi costau ychwanegol ar rieni am fwyd a thrafnidiaeth os oes angen. Mae adroddiadau gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant a luniwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi dod i'r casgliad bod mwyafrif y darparwyr wedi bod yn fodlon ar y gyfradd unffurf a gawsant yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau hyn hefyd yn amlinellu bod rhai darparwyr, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd lle mae'r cyfraddau a godir am ofal plant yn gymharol uchel, o'r farn nad oedd cyfradd gyfredol y Cynnig Gofal Plant o £4.50 yr awr yn ariannol hyfyw iddyn nhw. Roedd y gwahanol drefniadau cyllido a gynigiwyd i ddarparu gofal plant a ariennir C-CAS yn gyfle posibl i adolygu manteision a heriau talu cyfraddau amrywiol yn hytrach na chyfradd unffurf i'r darparwyr sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath.
- 3.32 Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol eu bod yn pennu cyfradd taliadau C-CAS ar lefel yr oeddent yn ei hystyried yn deg i ddarparwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn yn golygu talu cyfradd uwch na'r gyfradd gyfartalog a gyfer eu hardal er mwyn cydnabod bod darparwyr yn gweithredu o dan amodau mwy heriol oherwydd

COVID-19 ac i sicrhau bod aros ar agor yn opsiwn ariannol hyfyw i ddarparwyr a oedd yn cymryd rhan yn y Cynllun. Cynigir enghreifftiau o'r ystod o wahanol gyfraddau cyllido a gynigiwyd i ddarparwyr yn nhabl 3.1.

Tabl 3.1: Enghreifftiau o gyfraddau cyllido C-CAS a gynigiwyd gan awdurdodau lleol i'r darparwyr a gymrodd ran yn y cynllun

Awdurdod Lleol	Trefniadau Cyllido C-CAS
A	Cyfradd unffurf fesul plentyn o: <ul style="list-style-type: none"> • £52 y dydd i leoliadau meithrin • £45 y dydd i warchodwyr plant • £35 fesul hanner diwrnod i'r holl ddarparwyr
B	Taliad cychwynnol ymlaen llaw o £5,000 (ariannwyd hyn drwy ffynonellau cyllid eraill awdurdodau lleol ac nid drwy C-CAS) i ddarparwyr a ddefnyddiwyd i ddarparu C-CAS ynghyd â'r gyfradd arferol wedi hynny
C	Cyfradd unffurf o £50 y dydd fesul plentyn i'r holl ddarparwyr sy'n cymryd rhan
D	Cyfradd unffurf fesul plentyn o: <ul style="list-style-type: none"> • £50 y dydd (8 awr) • £25 fesul hanner diwrnod (5 awr) • £4.77 yr awr ar ôl 8 awr.
E	50c yr awr ar ben cyfradd arferol darparwyr unigol
B	Cyfradd arferol y darparwyr unigol sy'n cymryd rhan
M	Cynigiwyd isafswm taliad wythnosol i feithrinfeydd dydd sy'n cyfateb i ddarparu lle i 6 o blant 5 diwrnod yr wythnos ar gyfer y 6 phlentyn C-CAS cyntaf yn eu gofal. Cynigiwyd isafswm taliad wythnosol i warchodwyr plant sy'n cyfateb i ddarparu lle i 5 o blant 5 diwrnod yr wythnos ar gyfer y 4 plentyn C-CAS cyntaf yn eu gofal. Roedd pob lleoliad yn cael eu cyfradd ddydd arferol am bob plentyn ychwanegol a gefnogwyd gan y Cynllun yn eu lleoliad.
H	Cyfradd unffurf o £6 yr awr am yr holl ddarpariaeth.
I	Cyfradd fesul plentyn o: <ul style="list-style-type: none"> • £45 y dydd (hyd at 10 awr - fel ei fod yn debyg i'r Cynnig) • £25 fesul hanner diwrnod (5 awr) £3 yr awr am oriau anghymdeithasol

3.33 Gofynnwyd i'r darparwyr a gyfwelwyd a oeddent yn ystyried bod y trefniadau cyllido a gynigiwyd iddynt yn ddigonol i sicrhau bod aros ar agor i ddarparu gofal plant a ariennir C-CAS yn ariannol hyfyw i'w lleoliad. Nododd y mwyafrif fod y cyllid a gawsant yn uwch na'r gyfradd yr oeddent fel arfer yn ei chodi ar rieni neu'n ei chael o gynlluniau a ariennir. Fodd bynnag, nododd llawer o'r darparwyr hyn hefyd nad oedd y gyfradd uwch hon o reidrwydd yn cyfateb i incwm net uwch gan fod darparu C-CAS wedi arwain at gostau ychwanegol gan gynnwys cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ogystal â chostau staffio ychwanegol er mwyn cadw pellter cymdeithasol a darparu gofal plant i grwpiau llai o blant.

3.34 Roedd mwyafrif y darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn bod y cyllid yn ddigonol. Roedd dros dri chwarter (78 y cant) yr ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod C-CAS wedi helpu hyfywedd ariannol eu lleoliad. Nododd bron i hanner (44 y cant) o'r ymatebwyr y byddent wedi cau eu lleoliad dros dro pe na bai C-CAS wedi bod ar gael; gyda mwy nag un o bob deg ymatebydd (13 y cant) yn nodi y gallent fod wedi gorfod cau eu lleoliad yn barhaol oni bai am gyllid C-CAS.

'Mae cyllid C-CAS wedi fy nghadw i fynd o ran sicrhau bod gen i incwm. Mae wedi ein helpu i gadw ein pennau uwchben y dŵr mewn cyfnod anodd.'
(Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).

3.35 Fodd bynnag, nid oedd yr holl ddarparwyr yn fodlon ar y gyfradd gyllido a gynigiwyd iddynt. Nododd un darparwr fod y plant a gefnogwyd gan y Cynllun yn ei leoliad wedi defnyddio llai nag 8 awr o ddarpariaeth bob dydd. Gan mai dim ond am yr oriau yr oedd pob plentyn yn ei dreulio yn ei leoliad ar unrhyw ddiwrnod penodol y gallai'r darparwr hawlio cyllid C-CAS, roedd yr incwm dyddiol cyfartalog fesul plentyn yn is nag yr oedd pan godwyd cyfradd diwrnod arferol ar bob plentyn waeth beth oedd yr union oriau a ddefnyddiwyd. Nododd fod hyn er gwaethaf y ffaith bod cost darparu gofal plant i bob plentyn wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod.

3.36 Nododd nifer bach o ddarparwyr hefyd fod y trefniadau cyllido y cytunwyd arnynt i ddechrau yn eu hardal wedi newid yn ystod y Cynllun, o gyfradd sesiwn ddyddiol neu hanner diwrnod i gyfradd yr awr.

'Fe gollais i arian drwy gynnig darpariaeth C-CAS, gan mai dim ond yn ôl yr awr y gallem hawlio yn hytrach na'n cyfradd ddyddiol arferol, a chan ein bod ar agor am lai o oriau, doeddwn i ddim yn gallu hawlio cost ein gwasanaeth diwrnod llawn. Fel lleoliad, nid oedd [C-CAS] o fudd inni o gwbl, ond gallaf weld ei fod wedi

helpu ein rhieni, a dyna'r prif reswm y gwnes i ei gynnig.' (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).

- 3.37 I rai darparwyr nid y gyfradd gyllido a oedd yn her i hyfywedd ariannol darparu C-CAS, ond nifer y plant yr oedd ganddynt yn eu lleoliad y gallent hawlio cyllid ar eu cyfer. Nododd rhai darparwyr fod nifer y plant yn eu lleoliad yn fach iawn ac felly roedd y cyllid a gawsant hefyd yn fach. Nododd un darparwr a gafodd ei gyfweld ei fod wedi cytuno i ddarparu gofal plant drwy C-CAS i ddechrau ond oherwydd y nifer fach o blant a ddyrannwyd iddo nid oedd wedi bod yn hyfyw iddo barhau i ddarparu'r Cynllun.
- 3.38 Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn y rhan fwyaf o achosion, er eu bod o'r farn bod y cyfraddau cyllido a gynigiwyd yn deg, roedd gweinyddu'r taliadau yn aml yn heriol iawn, yn enwedig mewn ardaloedd lle y talwyd cyfraddau gwahanol i ddarparwyr unigol. Ychwanegodd hyn at yr heriau sydd eisoes yn wynebu awdurdodau lleol mewn perthynas â sefydlu systemau a phrosesau newydd i gyflawni'r Cynllun (gweler isod).
- 3.39 Nid yw'n bosibl dod i'r casgliad ar sail y canfyddiadau hyn p'un a yw cynnig cyfraddau gwahanol am ddarparu gofal plant a ariennir yn creu unrhyw fanteision amlwg i ddarparwyr, gan fod llawer o ffactorau eraill wedi dylanwadu ar hyfywedd ariannol darparu C-CAS. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cynnig cyfraddau cyllido gwahanol yn creu beichiau gweinyddol ychwanegol ar dimau'r awdurdodau lleol dan sylw.

Manteisio ar C-CAS, y Cynnig Gofal Plant a chyllid y Cynllun Cadw Swyddi

- 3.40 Nododd canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2020 y byddai taliadau'r Cynnig Gofal Plant i leoliadau gofal plant yn parhau am dri mis i blant a oedd eisoes yn y system ar 18 Mawrth 2020, hyd yn oed pan nad oedd y plant hynny bellach yn defnyddio'r ddarpariaeth gofal plant honno o ganlyniad i orfod aros adref oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Byddai'r taliadau'n cyfateb i'r oriau yn ystod y tymor yr oedd y rhiant wedi'u harchebu ymlaen llaw.
- 3.41 Yn ystod y cyfweliadau, nododd y darparwyr fod parhau i dderbyn cyllid y Cynnig yn gwneud gwahaniaeth mawr iddynt ar y pryd, yn enwedig gan fod y mwyafrif wedi

gorfod cau yn dilyn cyhoeddi'r cyfyngiadau symud, gan arwain at golled fawr o ran refeniw ond roedd rhaid parhau i dalu costau staff a gorbenion eraill.

'Roedd parhau i gael y cyllid hwnnw pan gafodd y Cynnig Gofal Plant ei atal dros dro yn achubiaeth - fe wnaeth leddfu ein gofidiau ar unwaith.' (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).

3.42 Tua'r un amser ag y cynhyrchwyd y canllawiau hyn, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Cynllun Cadw Swyddi a oedd yn darparu cyllid i gyflogwyr dalu hyd at 80 y cant o gostau cyflogau gweithwyr nad oeddent bellach yn gallu gweithio oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Nododd y darparwyr a gyfwelwyd, a oedd yn cyflogi staff, fod croeso mawr i'r cyhoeddiad hwn hefyd. Fodd bynnag, nododd nifer o ddarparwyr a gyfwelwyd hefyd nad oeddent yn ymwybodol ar unwaith na allent hawlio cyllid y Cynllun Cadw Swyddi ar gyfer eu holl staff, yn ogystal â chadw'r holl gyllid a ddyrannwyd iddynt drwy'r Cynnig am y tri mis nesaf. Achosodd hyn ddryswch gan olygu bod yn rhaid i rai darparwyr, a oedd wedi hawlio cyllid y Cynnig yn ogystal â chyllid y Cynllun Cadw Swyddi, ad-dalu o leiaf rhywfaint o'r cyllid a gawsant drwy'r Cynnig.

Roedd [Llywodraeth Cymru] yn brolio ei bod yn helpu meithrinfeydd drwy'r cyfyngiadau symud drwy dalu'r cyllid [Cynnig Gofal Plant]. Yr hyn na wnaeth ei ddweud oedd nad oeddem yn gallu hawlio tâl ffyrlo am staff a oedd yn rhan o'r cyllid, a oedd mewn gwirionedd yn golygu ein bod yn colli arian gan nad yw'r cyllid yn talu cyflogau staff.' (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).

3.43 Fe wnaeth cyflwyno C-CAS greu rhagor o ddryswch i rai o'r darparwyr a gyfwelwyd. Ar gyfer plant rhieni a oedd yn manteisio ar ddarpariaeth a ariannwyd gan y Cynnig (neu mewn rhai achosion gofal plant a ariannwyd gan Dechrau'n Deg) a oedd hefyd yn gymwys i gael gofal plant a ariannwyd drwy C-CAS, talwyd y cyllid o £4.50 yr awr i ddarparwyr am yr oriau a oedd eisoes wedi cael eu harchebu ar gyfer y plentyn drwy'r Cynnig (neu gyllid cyfatebol Dechrau'n Deg) yn ogystal â'r gwahaniaeth ychwanegol net rhwng y gyfradd gyllido hon a chyfradd cyllido C-CAS ar gyfer yr oriau hyn. Talwyd y gyfradd C-CAS lawn i ddarparwyr hefyd am unrhyw oriau o ddarpariaeth a gynigiwyd yn ychwanegol at y Cynnig a/neu oriau Dechrau'n Deg a archebwyd.

3.44 Yn y rhan fwyaf o achosion, aelodau tîm cymorth gofal plant yr awdurdod lleol a oedd yn cyfrifo'r cyllid yr oedd darparwyr unigol yn gymwys i'w gael, a oedd mewn

sawl achos yn creu heriau gweinyddol sylweddol ychwanegol i'r rhai dan sylw - gweler y bennod ar systemau a phrosesau isod. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i ddarparwyr roi'r wybodaeth angenrheidiol i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i gyfrifo'r cyllid a oedd yn ddyledus. Roedd llawer o'r darparwyr a gyfwelwyd yn ystyried bod darparu'r wybodaeth hon yn broses lafurus a chymhleth yn aml.

'Yn yr un modd â phopeth yn y cyfnod digynsail hwn, roedd llawer o ddryswch i ddechrau ynglŷn â chyllid i leoliadau mewn perthynas â'r cynnig gofal plant, C-CAS, Dechrau'n Deg, y Cynllun Cadw Swyddi ac ati ac achosodd hynny lawer o bryder i leoliadau.' (Ymatebydd i gyfweiliad â darparwyr C-CAS).

Fodd bynnag, nid dyna oedd barn yr holl ddarparwyr. Dywedodd rhai o'r darparwyr a gyfwelwyd eu bod yn teimlo bod y newid o'r Cynnig i C-CAS yn hawdd, a bod eu hawdurdodau lleol a sefydliadau partner Cwlwm yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gydol y broses.

'Anfonwyd e-bost ataf gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dweud bod y Cynnig Gofal Plant wedi'i atal dros dro a bod C-CAS yn cymryd ei le. Anfonwyd yr holl ddogfennau perthnasol ataf a gwybodaeth am ble i'w hanfon. Roeddwn yn hapus gyda'r cyflymder a'r broses. Roedd teuluoedd a oedd eisiau'r ddarpariaeth C-CAS yn gwybod beth oedd dyddiadau'r cyfarfodydd felly roedd yn rhaid sicrhau bod y gwaith papur ar gael mewn pryd ar gyfer hynny.' (Ymatebydd i gyfweiliad â darparwyr C-CAS).

Systemau a phrosesau

3.45 Yn ystod y cyfweiliadau nododd yr awdurdodau lleol, o ganlyniad i gyflwyno C-CAS, fod angen iddynt gyflwyno systemau a phroses a allai:

- Gasglu, cymeradwyo a phrosesu ceisiadau gan rieni cymwys;
- Casglu gwybodaeth gan ddarparwyr yn ymwneud â nifer y plant sy'n manteisio ar y ddarpariaeth drwy'r Cynllun yn eu lleoliad a nifer yr oriau / diwrnodau o ddarpariaeth a archebwyd ac a ddefnyddiwyd ar gyfer pob plentyn;
- Cyfrifo, prosesu a gweinyddu taliadau C-CAS i ddarparwyr.

3.46 Bu'n rhaid sefydlu'r systemau hyn o fewn amserlen fer iawn, gyda nifer y diwrnodau'n amrywio o ddau ddiwrnod / dros y penwythnos, i oddeutu 10 diwrnod yn ôl ambell awdurdod lleol. Roedd gan awdurdodau lleol a wnaeth ymgymryd â rôl partneriaid cyflawni ar gyfer y Cynnig system ar waith eisoes i brosesu ceisiadau

cyllid gan rieni a gweinyddu taliadau cyllid i ddarparwyr.¹⁷ Fodd bynnag, nododd cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol nad mater syml o efelychu systemau presennol y Cynnig er mwyn gweinyddu C-CAS oedd hyn. Roedd yn rhaid addasu systemau presennol y Cynnig er mwyn mynd i'r afael â gwahanol gyfraddau cyllido ac oriau'r ddarpariaeth a ariennir a gynigiwyd gan bob Cynllun.

- 3.47 Nid oedd gan awdurdodau lleol a oedd yn gwasanaethu fel awdurdodau ymgysylltu ar gyfer y Cynnig unrhyw systemau presennol y gellid eu haddasu at ddibenion C-CAS - 'roeddem yn dechrau o'r dechrau.'¹⁸ Er bod awdurdodau cyflawni, mewn sawl achos, yn gweinyddu taliadau C-CAS i ddarparwyr a oedd yn cymryd rhan yn y Cynllun yn eu hawdurdod eu hunain a'r awdurdodau ymgysylltu y maent yn eu cefnogi, roedd gan bob awdurdod lleol unigol gyfrifoldeb dros sefydlu systemau i wirio a chymeradwyo cymhwysra rhieni a oedd yn gwneud cais am y Cynllun a thros gofnodi'r oriau gofal plant a archebwyd ac a ddefnyddiwyd ar draws y darparwyr a oedd yn cymryd rhan yn y Cynllun. Roedd y broses o sefydlu a gweithredu'r systemau hyn yn gryn her i lawer o awdurdodau; ond nododd llawer hefyd eu bod yn croesawu'r cymorth a gawsant gan awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru gyda'r broses. Er gwaethaf yr heriau, llwyddodd pob awdurdod i sefydlu systemau yn llwyddiannus ac roeddent yn gallu gweinyddu'r Cynllun o fewn yr amserlen ofynnol.
- 3.48 Gofynnwyd i ddarparwyr C-CAS yn ystod y cyfweiliadau ac fel rhan o'r arolwg i roi eu barn ar ba mor dda yr oedd y systemau hyn yn gweithio o'u safbwynt nhw. Roedd mwyafrif y darparwyr a ymatebodd i'r arolwg (81 y cant) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y broses gofrestru ar gyfer C-CAS yn syml. Roedd bron i dri chwarter (74 y cant) y lleoliadau hefyd yn teimlo bod y broses o gyflwyno hawliadau ar gyfer taliadau C-CAS hefyd yn syml.
- 3.49 Roedd mwyafrif y darparwyr (84 y cant) yn teimlo bod y cyfathrebu â'u hawdurdod lleol wedi bod yn dda iawn neu'n dda, gyda llawer yn nodi bod awdurdodau lleol

¹⁷ Mae awdurdodau lleol sy'n darparu'r cynllun yn gyfrifol, fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, am brosesu ceisiadau gan rieni, penderfynu ar gymhwystra a'u hysbysu o'r canlyniad. Maent hefyd yn prosesu ac yn gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant am ddarparu'r Cynnig.

¹⁸ Mae awdurdodau ymgysylltu yn gyfrifol am hyrwyddo Cynnig Gofal Plant Cymru i rieni a darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd ac ymdrin ag ymholiadau am y Cynnig. Fel rhan o'r cynnig gofal plant, nid yw'r awdurdodau 'ymgysylltu' yn gweinyddu'r prosesau ymgeisio a thalu.

wedi 'casglu gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithlon' ac 'wedi darparu gwasanaeth mawr ei angen yn ystod cyfnod llawn straen'.

'Roeddent y cyfathrebu'n wych drwyddo draw. Arfer rhagorol. Roeddem yn teimlo ein bod yn cael cefnogaeth dda iawn, ac fe wnaeth hynny ein galluogi i aros ar agor drwy gydol y cyfnod. Atebwyd unrhyw ymholiadau e-bost bron yn syth. Roeddent yn gefnogol iawn - yn ffonio'r feithrinfa bob dydd i wirio'r niferoedd, y staff ac i holi a oedd angen unrhyw gymorth pellach arnom.' (Ymatebydd i'r arolwg o ddarparwyr C-CAS).

- 3.50 Yn ystod cyfweiliadau dros y ffôn, nododd y darparwyr eu bod wedi derbyn gohebiaeth dros y ffôn, negeseuon e-bost gyda'r wybodaeth ddiweddaraf a gohebiaeth gyson gan dîm gofal plant eu hawdurdod lleol, AGC, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, PACEY a Llywodraeth Cymru. Roedd y mwyafrif o'r farn bod yr awdurdodau lleol wedi bod yn gefnogol iawn yn anfon nodiadau atgoffa dros yr e-bost am ddyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni cyllid neu am newidiadau mewn rheoliadau.

'Cawsom gefnogaeth dda, ac roedd yr awdurdod lleol yn ymateb i'n ceisiadau neu ymholiadau o fewn diwrnod fan bellaf, ac weithiau o fewn yr awr'. (Ymatebydd i gyfweiliad â darparwyr C-CAS).

Taliadau

- 3.51 Nododd mwyafrif helaeth y darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (91 y cant) eu bod fel arfer neu bob amser yn cael eu cyllid C-CAS mewn pryd. Nododd llawer o ddarparwyr a gyfwelwyd hefyd eu bod yn teimlo bod y Cynllun wedi'i drefnu'n dda iawn, gyda 'system a dulliau cyfathrebu rhagorol.' Fodd bynnag, nododd lleiafrif eu bod wedi wynebu rhai heriau gan gynnwys oedi cyn derbyn taliadau.
- 3.52 Esboniodd rhai darparwyr (29 o leoliadau) er bod yr awdurdodau lleol wedi anfon taliadau yn y pen draw, yn aml roedd oedi o rhwng wythnos neu hyd at ddau fis hyd yn oed.

'Roedd yn gyfnod llawn straen, roedd y taliadau'n hwyr iawn oherwydd roedd yr unig berson a oedd wedi'i awdurdodi i'w gwneud ar wyliau. Cymerodd bum niwrnod i gael gafael ar rywun [yn yr awdurdod lleol] i ofyn am taliadau hwyr, dim ond i gael gwybod nad oedd unrhyw sicrwydd y byddwn yn cael fy nhalu. Cefais

fy nhalu yn y pen draw, ond roedd yn straen ac yn gyfnod gofidus iawn. Methais dalu llawer o filiau mewn pryd o ganlyniad.' (Ymatebydd i'r arolwg o ddarparwyr C-CAS).

- 3.53 Nododd lleiafrif bach o ddarparwyr hefyd y gallai rhai o'r ffurflenni fod yn anodd eu llenwi, gan ei bod yn ymddangos bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn newid yn gyson oherwydd newidiadau i reolau a rheoliadau. Roedd y darparwyr hyn yn teimlo bod llenwi'r ffurflenni yn ddryslyd, ac roedd rhai wedi gorchwilio cyllid oherwydd camgymeriadau a wnaethant. Er enghraifft, mewn rhai awdurdodau lleol, talwyd darparwyr yn ôl nifer yr oriau o ofal plant a ariannwyd gan C-CAS, a allai fod wedi bod yn wahanol i nifer yr oriau a archebwyd. Weithiau roedd hawlio am yr oriau a archebwyd yn lle yr oriau a ddefnyddiwyd yn golygu bod lleoliadau'n cael eu gordalu, ac yna'n gorfod ad-dalu'r arian hwn, gan greu gofid i'r darparwyr dan sylw.

'Roedd y broses dalu ar gyfer C-CAS yn hawdd iawn ond 2 fis yn ddiweddarach rwyf wedi cael gwybod fy mod wedi cael gordaliad, ac mae angen imi ad-dalu dros £200. Ar ôl llawer o sgysiau dros y ffôn, does neb yn gallu esbonio sut rwyf wedi cael gordaliad.' (Ymatebydd i'r arolwg o ddarparwyr C-CAS).

'Y peth olaf rydych chi eisiau ei wneud pan fydd eich lleoliad wedi bod yn ei chael hi'n anodd eisoes yw darganfod bod yn rhaid ichi ad-dalu'r arian. (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).

Y broses ymgeisio

- 3.54 Fel rhan o'r broses ymgeisio roedd yn ofynnol i rieni ddarparu tystiolaeth i brofi eu cymhwystra ar gyfer C-CAS, roedd hyn yn cynnwys llythyrau gan gyflogwyr, prawf o gyfeiriad a phrawf hunaniaeth a thystysgrif geni eu plentyn. Gofynnwyd i'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg pa mor hawdd neu anodd oedd y broses o wneud cais am C-CAS. Nododd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (91 y cant) fod y broses, yn eu barn nhw, yn hawdd iawn neu'n weddol hawdd o leiaf.
- 3.55 Mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol dim ond unwaith yr oedd yn rhaid i rieni wneud cais am y Cynllun. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, roedd yn ofynnol i rieni gadarnhau eu cymhwystra ar gyfer y Cynllun yn rheolaidd. Dywedodd rhai o'r rhieni hyn y byddai gorfod gwneud cais yn fisol yn hytrach nag yn wythnosol wedi gwneud y broses yn haws, yn enwedig gan fod yn rhaid iddynt ailadrodd yr un

wybodaeth yr oeddent wedi'i darparu o'r blaen bob tro. Nododd rhieni a oedd â mwy nag un plentyn a gefnogwyd gan y Cynllun fod gorfod llenwi'r un ffurflen gais a darparu'r un dystiolaeth am gymhwysra ar gyfer pob plentyn yn faich gweinyddol ychwanegol diangen arnynt.

- 3.56 Nododd ambell riant hefyd ei fod wedi cael anawsterau wrth gwblhau'r cais ar-lein gan nad oedd ganddo ddealltwriaeth glir, cyn dechrau'r broses, o'r prawf cymhwysra yr oedd ei angen. Yn yr amser a gymerodd i ddod o hyd i'r prawf angenrheidiol roedd eu sesiwn ar y wefan wedi dod i ben ac felly roedd yn rhaid iddynt ddechrau'r broses eto.

Crynodeb o'r adran

- 3.57 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn tynnu sylw at yr ymdrech a'r pwysau sylweddol ar amser ac adnoddau a oedd yn ofynnol er mwyn sefydlu a chefnogi C-CAS ar lefel Llywodraeth Cymru a'i gyflawni ar lefel awdurdod lleol. Maent hefyd yn amlinellu, er gwaethaf y pwysau hyn, bod y systemau a'r broses a weithredwyd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol wedi gweithio'n dda. Roedd ceisiadau gan rieni, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu prosesu'n gyflym ac yn effeithiol ac roedd taliadau cyllido i ddarparwyr yn cael eu gweinyddu'n ddidrafferth ac yn amserol.

Gallwn hefyd ddod i'r casgliad ar sail y canfyddiadau hyn, er bod cynnig cyfraddau cyllido amrywiol i ddarparu C-CAS wedi galluogi awdurdodau lleol i dalu'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn deg, roedd gweinyddu'r taliadau hyn yn aml yn heriol iawn, yn enwedig mewn ardaloedd lle y talwyd cyfraddau gwahanol i ddarparwyr unigol. Gallwn hefyd ddod i'r casgliad ar sail y canfyddiadau y byddai dull cyson o ddehongli'r meini prawf cymhwysra ar gyfer C-CAS wedi bod yn fuddiol, gan fod y gwahanol ffyrdd yr oedd awdurdodau lleol yn dehongli cymhwysra ar gyfer y Cynllun yn creu teimladau o annhegwch ymhlith llawer o'r darparwyr, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach.

4. Effaith C-CAS ar y rhieni a gymerodd ran yn y Cynllun

Dylanwad C-CAS ar rieni

Canfyddiadau allweddol

10,499 o blant*  **588** plant agored i niwed*

*Ffynhonnell o ffurflenni awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru a negeseuon e-bost dilynol gydag arweinyr gofal plant

Effaith ar rieni



Teimla **96%** bod C-CAS wedi gwneud hi'n haws iddynt weithio.



Roedd **71%** yn gallu gweithio oriau mwy hyblyg.



Roedd **94%** yn gallu cyrchu'r oriau gofal plant yr oeddent eu hangen trwy C-CAS.



Teimlai **90%** (o rieni) fod C-CAS wedi cael effaith gadarnhaol ar les eu teulu.



Nid oedd **20%** o rieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn cyrchu C-CAS.



Teimlai **90%** (o rieni) fod C-CAS wedi lleihau baich ariannol gofal plant.

Cyflenwad a galw yn y dyfodol am ofal plant ffurfiol ar gyfer plan o dan dri mlwydd oed

Byddai **94%** o rieni â phlentyn o dan 3 mlwydd oed yn manteisio ar gyfleoedd gofal plant wedi'u hariannu os byddai ar gael.

Nododd **64%** y byddent yn barod i dalu am yr holl ddarpariaeth.

Eiconau gan Icons8.com

Arolwg Rhieni Cynnig Gofal Plant 2019/20. N = 2382

- 4.1 Mae'r bennod hon yn ymchwilio i'r effaith y mae C-CAS wedi'i chael ar rieni a'u plant a gymerodd ran yn y Cynllun. Cyflwynwyd C-CAS i sicrhau nad oedd gweithwyr hanfodol yn wynebu rhwystrau gofal plant o ran eu gwaith naill ai oherwydd bod eu lleoliad gofal plant arferol wedi cau neu oherwydd eu bod yn arfer dibynnu ar rieni neu neiniau a theidiau, a oedd bellach yn gorfod gwarchod eu hunain oherwydd COVID-19, am ofal plant. Felly gofynnwyd i'r rhieni a gymerodd ran i ba raddau yr oedd C-CAS wedi eu cefnogi i weithio ac i ba raddau yr oedd y rhwystrau gofal plant yr oeddent yn eu hwynebu wedi'u dileu.
- 4.2 Roedd mwyafrif helaeth yr holl rieni a holwyd (h.y., gweithwyr hanfodol a rhieni plant agored i niwed) yn croesawu C-CAS gan adrodd eu bod wedi elwa o ganlyniad i'r Cynllun gan gynnwys ei gwneud yn haws iddynt weithio, a gallu manteisio ar ofal plant ffurfiol yn ystod cyfnod anodd. Nododd mwyafrif helaeth y rhieni (93 y cant) fod C-CAS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant hwy neu lesiant eu partner. Nododd mwyafrif y rhieni (81 y cant) hefyd fod C-CAS wedi gwella llesiant eu plentyn/plant.
- 4.3 Dywedodd mwyafrif helaeth y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg fod C-CAS wedi ei gwneud yn haws iddynt weithio (96 y cant), yn ogystal â gweithio mwy o oriau (73 y cant,) a gweithio oriau mwy hyblyg (71 y cant) mewn rhai achosion.
- 'Ni fyddwn wedi gallu gweithio pe na bawn i wedi cael gofal plant C-CAS.
Roeddwn hefyd yn gallu gweithio mwy o oriau nag yr wyf yn ei wneud fel arfer. '
(Ymatebydd i gyfweiliad â rhieni C-CAS).
- 4.4 Nododd mwyafrif helaeth (94 y cant) y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi gallu cael yr holl oriau gofal plant yr oedd eu hangen arnynt drwy C-CAS. Nododd mwyafrif y rhieni bod angen gofal plant a ariannwyd gan y Cynllun arnynt yn ystod y dydd - h.y. rhwng 8.00 am a 6.00 pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd bron pob rhiant yr oedd angen gofal plant arno yn ystod yr oriau hyn wedi gallu ei gael drwy C-CAS.
- 4.5 Nododd tuag un o bob deg ymatebydd fod angen gofal plant arnynt yn gynnar yn y bore (cyn 8am) ac yn hwyrach gyda'r nos (ar ôl 6pm). Nododd tua thraean o'r ymatebwyr hyn eu bod wedi gallu cael gofal plant a ariannwyd gan C-CAS yn ystod yr oriau hyn, ond nid oedd hyn yn wir ar gyfer y mwyafrif. Nododd nifer cymharol fach o ymatebwyr hefyd fod angen gofal plant arnynt ar rai penwythnosau a / neu

dros nos. Dim ond cyfran fach o'r rhieni hyn (llai nag un o bob pump) a nododd eu bod wedi gallu cael gofal plant a ariannwyd gan C-CAS yn ystod yr oriau hyn.

'Roedd gen i broblem wirioneddol o ran dod o hyd i ofal plant dros y penwythnos, a bu'n rhaid imi roi'r gorau i weithio dydd Sadwrn am nad oedd gofal plant ar gael.' (Ymatebydd i arolwg o rieni C-CAS).

4.6 Gofynnwyd i rieni a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd a oedd angen gofal plant arnynt am yr un oriau ar yr un diwrnodau bob wythnos gan C-CAS. Nododd bron i dri chwarter y rhieni (70 y cant) bod angen yr un oriau ar yr un dyddiau arnynt, ond nododd 30 y cant fod yr oriau gofal plant yr oedd eu hangen arnynt yn aml yn newid o wythnos i wythnos yn dibynnu ar eu patrymau gwaith. Nododd rhai rhieni fel rhan o'u hymatebion i'r arolwg, nad oeddent bob amser yn gallu newid yr oriau gofal plant yr oeddent eu heisiau gan eu lleoliad o wythnos i wythnos - yn enwedig os oedd yn ofynnol iddynt newid yr oriau ar fyr rybudd.

'Nid oeddwn yn gallu newid fy nyddiau nac amseroedd ar ôl imi eu harchebu ar gyfer y dyddiau hynny.' (Ymatebydd i arolwg o rieni C-CAS).

4.7 Nododd y rhieni hynny nad oeddent yn gallu cael yr holl ofal plant yr oedd ei angen arnynt, ar yr adeg yr oedd ei angen arnynt, fod hyn yn creu rhai heriau, gan gynnwys gorfod aildrefnu eu gwaith er mwyn eu galluogi i weithio rhywfaint o'r cartref neu aildrefnu oriau gwaith i gyd-fynd â'r gofal plant a oedd ar gael. Nododd rhai rhieni hefyd bod yn rhaid iddynt gymryd rhywfaint o absenoldeb di-dâl. Nododd lleiafrif y rhieni a oedd wedi profi aflonyddwch o'r math hwn ei fod wedi achosi mwy o straen ac, mewn rhai achosion, wedi creu baich ariannol yn sgil gorfod gwneud trefniadau amgen.

'Roedd yn rhaid imi geisio cydbwysu 3 diwrnod gartref gyda gefeilliaid a gweithio'n llawnamser fel gweithiwr hanfodol, gan gymryd galwadau brys ac ati. Rhoddodd hyn bwysau a straen arnaf, a doedd gen i ddim cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Pan oedd y feithrinfa'n gallu cymryd y plant eto fe wnaethon ni dalu am y diwrnodau ychwanegol gan nad oedden ni'n gallu gweithio a gofalu am blant gartref ar yr un pryd.' (Ymatebydd i gyfweiliad â rhieni C-CAS).

4.8 Gofynnwyd i'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd manteisio ar ofal plant a ariannwyd drwy C-CAS wedi bod o fudd i'w llesiant ehangach nhw eu hunain a / neu lesiant ehangach eu teulu a nododd 90 y cant fod C-CAS wedi cael effaith

gadarnhaol ar eu llesiant nhw a / neu ar lesiant eu partner. Roedd mwyafrif llethol y rhieni (90 y cant) yn teimlo bod C-CAS wedi lleihau'r baich ariannol sy'n gysylltiedig â gofal plant. Nododd bron pob rhiant a gymerodd ran yn yr arolwg (98 y cant) hefyd eu bod yn credu bod y lleoliad gofal plant yr oeddent yn ei ddefnyddio yn addas ar gyfer eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn.

'Mae C-CAS wedi bod yn amhrisiadwy i'n teulu cyfan - fe wnaeth fy ngalluogi i a'm gŵr i barhau i weithio, rhoddodd gyfle i'm merch ryngweithio'n gymdeithasol yn ogystal â lleddfu pryder ariannol sy'n gysylltiedig â gofal plant. Fe wnaeth fy llesiant meddyliol wella'n aruthrol ar ôl inni fanteisio ar C-CAS ac roeddwn yn gallu bod yn fwy cynhyrchiol yn y gwaith.' (Ymatebydd i arolwg o rieni C-CAS).

4.9 Roedd mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg (80 y cant) yn manteisio ar ofal plant ffurfiol ar gyfer y plant a gefnogwyd gan C-CAS cyn lansio'r Cynllun. O blith y rhain, roedd dros eu hanner (57 y cant) angen yr un nifer o oriau gofal plant ffurfiol drwy C-CAS ag yr oeddent yn eu defnyddio cyn C-CAS; roedd mwy nag un o bob deg (12 y cant) yn defnyddio llai o oriau o ofal plant drwy C-CAS nag yr oeddent cyn lansio'r Cynllun. Nododd y darparwyr gofal plant a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd mai'r un plant oedd y rhai a gefnogwyd yn eu lleoliad drwy C-CAS â'r rhai ag oedd yn eu lleoliad cyn y Cynllun - gweler pennod 5.11. Mae'n ymddangos felly, i oddeutu hanner y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg, bod swm y gofal plant a'r lleoliad yr un fath yn ystod C-CAS ag yr oeddent o'r blaen. Byddai gofal plant yr oedd y rhieni hyn yn ei ddefnyddio o'r blaen wedi cael ei ariannu drwy'r Cynnig neu Dechrau'n Deg, neu byddent wedi talu am y ddarpariaeth hon eu hunain. Ysgogodd hyn rai cynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfwelwyd i gwestiynu i ba raddau yr oedd C-CAS yn darparu unrhyw gymorth gofal plant yn ychwanegol at yr hyn yr oedd y rhieni hyn eisoes wedi bod yn ei gael.

4.10 Roedd trefniadau gofal plant ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr i'r arolwg (43 y cant) wedi newid o ganlyniad i C-CAS. Ochr yn ochr â'r 12 y cant o rieni a ddefnyddiodd lai o oriau o ofal plant, roedd bron i draean (31 y cant) o rieni yn defnyddio mwy o oriau gofal plant drwy C-CAS nag yr oeddent wedi'i wneud o'r blaen. Dywedodd un rhan o bump o'r rhieni (20 y cant) nad oeddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn C-CAS. Cyn hyn, roedd hanner y plant hyn yn cael gofal drwy drefniadau anffurfiol gydag aelodau'r teulu, a gofalwyd am yr hanner arall gartref ac nid oedd angen unrhyw ofal plant ychwanegol arnynt.


4.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn defnyddio gofal plant anffurfiol cyn C-CAS i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod manteisio ar ofal plant ffurfiol yn effeithio ar hapusrwydd a llesiant eu plentyn. Roedd dros hanner (122 o ymatebwyr) yn cytuno i ryw raddau, o gymharu â'u trefniadau gofal plant anffurfiol blaenorol, fod eu plentyn yn hapusach yn y lleoliad gofal plant ffurfiol a gefnogwyd gan C-CAS. Nid oedd chwarter (56 o ymatebwyr) yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn ac nid oedd 13 y cant (32 o ymatebwyr) yn gwybod. Roedd 79 y cant o'r rhieni hyn (182 o ymatebwyr), yn cytuno, i ryw raddau o leiaf, fod eu plentyn yn elwa o fwy o ryngweithio cymdeithasol yn y lleoliad gofal plant ffurfiol nag a brofwyd yn ystod eu trefniadau gofal plant cyn C-CAS. Fodd bynnag, roedd 48 y cant (109) o'r rhieni a arferai ddefnyddio gofal plant anffurfiol yn cytuno â'r datganiad, i ryw raddau o leiaf, fod eu plentyn yn gweld eisiau treulio amser gyda theulu a ffrindiau tra roedd yn y lleoliad gofal plant ffurfiol a ddarparwyd gan C-CAS .

Y galw posibl yn y dyfodol am ofal plant ffurfiol ar gyfer plant dan dair oed, a'r cyflenwad

- 4.12 Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu gofal plant a ariennir i blant cymwys tair a phedair oed. Roedd C-CAS yn darparu gofal plant a ariennir i blant cyn-ysgol cymwys o bob oed. Nid yw'n bosibl llunio cymariaethau rhwng y Cynnig a C-CAS gan eu bod yn cefnogi gwahanol grwpiau o rieni mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd gwahanol iawn. Fodd bynnag, rhoddodd argaeledd gofal plant a ariennir ar gyfer plant o dan dair oed drwy C-CAS gipolwg ar y galw posibl yn y dyfodol am ofal plant ffurfiol i blant o'r oedran hwn - o leiaf ymhlith y garfan o rieni sy'n gymwys ar gyfer C-CAS ac a ymatebodd i'n harolwg.
- 4.13 Gofynnwyd i rieni a gymerodd ran yn yr arolwg feddwl ymlaen i'r amser pan fyddai cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu codi. Yna gofynnwyd iddynt, pe bai darpariaeth gofal plant ffurfiol ar gyfer plant o dan dair oed yn dal i fod ar gael iddynt, a fyddent yn debygol o fanteisio ar hyn. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr (94 y cant) y byddent am fanteisio ar gyfleoedd gofal plant ffurfiol ar gyfer plant dan dair oed pe baent ar gael. Nododd bron i ddwy ran o dair o rieni (64 y cant) y byddent yn barod i dalu am yr holl ddarpariaeth hon gyda'r traean sy'n weddill (32 y cant) yn nodi y byddent yn defnyddio'r ddarpariaeth hon pe bai'n cael ei hariannu'n rhannol o leiaf (15 y cant o'r ymatebwyr) neu'n cael eu hariannu'n llawn (17 y cant o'r ymatebwyr).

- 4.14 Nododd y rhan fwyaf o'r rhieni (76 y cant) a ddywedodd y byddent am fanteisio ar ofal plant ffurfiol ar gyfer eu plant dan dair oed, eu bod eisoes yn defnyddio'r ddarpariaeth hon ac yn talu amdani beth bynnag. Nododd bron i draean o'r rhieni hyn (30 y cant) yr hoffent fanteisio ar ofal plant ffurfiol ar gyfer plant dan dair oed gan y byddai hynny'n well ganddynt na gorfod dibynnu ar deulu a ffrindiau am gymorth gyda gofal plant. Nododd ychydig dros draean (37 y cant) yr hoffent fanteisio ar ofal plant ffurfiol ar gyfer y grŵp oedran hwn gan y byddai'n gwneud eu trefniadau gwaith yn haws.
- 4.15 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod galw am ofal plant ffurfiol ar gyfer plant dan dair oed. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o rieni yn y garfan a gymerodd ran yn yr arolwg eisoes yn manteisio ar y ddarpariaeth hon ac yn talu amdani. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu, fodd bynnag, fod yna rieni a hoffai fanteisio ar ofal plant ffurfiol ar gyfer plant dan dair oed i gefnogi eu trefniadau gwaith bob dydd, ond byddai angen i gost y gofal plant hwn gael ei hariannu'n rhannol o leiaf er mwyn eu galluogi i fanteisio arno.
- 4.16 Gofynnwyd i ddarparwyr a fyddent yn gallu darparu gofal plant a ariennir ar gyfer plant dan dair oed mewn oes ar ôl cyfyngiadau COVID-19. Nododd y mwyafrif helaeth (90 y cant) y byddent yn gallu darparu ar gyfer hyn, gyda thros ddwy ran o dair o'r rhain (70 y cant) yn nodi bod eu lleoliad eisoes yn gallu darparu gofal plant ar gyfer y grŵp oedran hwn a'r 30 y cant arall yn nodi y gallent addasu eu darpariaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn. Roedd mwyafrif y darparwyr hyn (82 y cant) o'r farn y byddai galw gan rieni am ofal plant a ariennir ar gyfer plant dan dair oed.
- 4.17 Nid yw'r canfyddiadau hyn yn darparu tystiolaeth bendant o'r angen am ofal plant a ariennir yn y dyfodol ar gyfer plant dan dair oed yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n awgrymu bod galw am ofal plant a ariennir ar gyfer y grŵp oedran hwn ymhlith rhai rhieni ac y byddai'r mwyafrif o ddarparwyr yn gallu diwallu'r galw hwn. Mae hwn, felly, yn faes lle y gellid cyfiawnhau gwneud rhagor o ymchwil.

5. Effaith C-CAS ar y darparwyr a gymerodd ran yn y Cynllun



5.1 Er y cyflwynwyd C-CAS yn bennaf i sicrhau y gallai gweithwyr hanfodol gael mynediad at ofal plant yr oedd ei angen arnynt ar frys, nod y Cynllun hefyd oedd cefnogi darparwyr gofal plant ac osgoi cau lleoliadau yn barhaol oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r math o ddarpariaeth gofal plant a ddefnyddiwyd i ddarparu C-CAS a'r effaith a gafodd y Cynllun ar y lleoliadau gofal plant unigol dan sylw.

Math o leoliadau

- 5.2 Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd i'r arolwg yn warchodwyr plant (gweler pennod 2.7) ond roedd mwyafrif y plant a gefnogwyd drwy C-CAS, oherwydd maint a chapasiti'r lleoliadau, yn derbyn gofal mewn meithrinfeydd dydd. Roedd gofal plant a ariannwyd gan C-CAS hefyd yn cael ei ddarparu gan leoliadau gofal dydd sesiynol a rhai clybiau y tu allan i'r ysgol ac un crèche.
- 5.3 Nododd dros hanner (53 y cant) y darparwyr a ymatebodd i'r arolwg fod eu lleoliad yn lleoliad cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog, a nododd bron i draean (31 y cant) eu bod yn lleoliad cyfrwng Saesneg. Disgrifiodd wyth y cant o ddarparwyr eu lleoliad fel Dwyieithog, cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Dim ond 8 y cant o'r lleoliadau a gymerodd ran yn yr arolwg a ddisgrifiodd brif iaith eu lleoliad fel Cymraeg; mae hyn yn cymharu â 18 y cant o ddarparwyr a ymatebodd i arolwg Cynnig Gofal Plant 2019 fel rhan o werthusiad yr ail flwyddyn a ddisgrifiodd iaith eu lleoliad fel Cymraeg.
- 5.4 Mae'r gyfran is o leoliadau cyfrwng Cymraeg a gynhwyswyd yn yr arolwg C-CAS yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o Gylchoedd Meithrin, sy'n cynnig y rhan fwyaf o ddarpariaeth sesiynol cyfrwng Cymraeg i blant 3 a 4 oed yng Nghymru, ar gau rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020, gan leihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael drwy C-CAS. Fodd bynnag, ni nododd yr un o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg nad oeddent wedi gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy C-CAS, a nododd bron pob rhiant eu bod yn ystyried bod y ddarpariaeth a gawsant yn addas.
- 5.5 O blith y 28 o ddarparwyr C-CAS a gymerodd ran yn y arolwg ac a ddisgrifiodd eu hunain fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg, roedd 17 yn warchodwyr plant, roedd wyth yn lleoliadau gofal dydd llawn, ac roedd tri yn lleoliadau gofal dydd sesiynol. Roedd y mwyafrif o'r rhain yng Ngwynedd - 16, roedd pump yng Nghaerfyrddin, ac roedd

niferoedd llai yn Ynys Môn (2), Castell-nedd Port Talbot (1), Conwy (1), Powys (1), Rhondda Cynon Taf (1) a Wrecsam (1).

Newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant

- 5.6 Nododd dros dri chwarter y darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (79 y cant) nad oeddent wedi newid eu horiau agor o ganlyniad i C-CAS. Nododd bron i chwarter (21 y cant) eu bod wedi gwneud newidiadau i'w horiau busnes. O blith y darparwyr a oedd wedi newid eu horiau busnes, nododd 68 y cant eu bod wedi mabwysiadu oriau agor mwy hyblyg. Roedd rhai ar agor yn gynharach neu'n hwyrach yn dibynnu ar anghenion y rhieni, roedd rhai hyd yn oed ar agor 24 awr y dydd, ar benwythnosau ac ar ŵyl y banc. Nododd darparwyr eraill bod yn rhaid iddynt gwtogi'r oriau yr oeddent yn gweithredu bob dydd, er mwyn cau'n gynharach i ganiatáu amser ar gyfer y gwaith glanhau ychwanegol, neu oherwydd eu bod yn darparu gofal plant i nifer llai o blant ac nad oedd ganddynt lawer o staff ar gael i ganiatáu iddynt weithredu dros oriau hwy.
- 5.7 Nododd bron i draean o'r lleoliadau (32 y cant) eu bod wedi gwneud newidiadau i'w lleoliad er mwyn darparu C-CAS. Roedd y newidiadau'n cynnwys amrywiol ffyrdd o gadw pellter cymdeithasol yn ystod sesiynau gollwng a chasglu, ardaloedd awyr agored ychwanegol i ddarparu mwy o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored, drafftio a gweithredu polisïau a gweithdrefnau newydd, prynu teganau newydd er mwyn cael mwy nag un, a chael gwared ar deganau a oedd yn anodd eu glanhau. Soniodd darparwyr hefyd ei bod yn ofynnol iddynt rannu grwpiau o blant yn 'swigod' ar wahân a oedd yn golygu 'nad oedd rhai plant yn cymysgu fel y byddent cyn Covid.'
- 5.8 Gofynnwyd hefyd i'r lleoliadau a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd unrhyw arferion yr oeddent wedi'u cyflwyno ar gyfer C-CAS y byddent yn debygol o barhau ar ôl i'r cyfyngiadau cyfredol gael eu codi. Nododd ychydig dros chwarter (28 y cant) y lleoliadau bod arferion y byddent yn debygol o barhau â nhw gan gynnwys:
- parhau i gasglu a gollwng plant ar garreg y drws, gan fod hyn yn ei gwneud yn haws setlo plant newydd ac yn gwneud y broses o drosglwyddo'r awenau gyda rhieni yn haws bob dydd.
 - darparu llai o deganau i blant, gan na fyddai angen eu golchi mor aml, ac 'mae plant yn chwarae ac yn ymgysylltu'n well pan fydd llai o gyfarpar.'

- parhau ag ymdrechion hylendid a glanhau teganau a gorsafoedd diheintio dwylo y tu allan i'w lleoliadau:

'Fe wnaethon ni brynu peiriant creu anwedd i lanhau'r feithrinfa ar ôl pob sesiwn a chyfrannodd y rhieni at y gost o'i brynu. Rydym yn dal i ddefnyddio hwn yn ddyddiol a byddwn yn parhau i'w ddefnyddio ar ôl Covid, gan ei fod yn ddull ychwanegol o atal annwyd a salwch. Mae'n rhoi tawelwch meddwl ychwanegol inni ac dileu'r pwysau ychwanegol ar y staff i lanhau.' (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).

- 5.9 Soniodd ychydig o ddarparwyr hefyd am barhau i ddefnyddio'r cyfleusterau gweithio allanol a brynwyd ganddynt i ddarparu C-CAS, gan gynnwys gasebos a ffensys er mwyn darparu mwy o fannau chwarae yn yr awyr agored.

Newidiadau i oedrannau plant oherwydd C-CAS

- 5.10 Un gwahaniaeth allweddol rhwng C-CAS a'r Cynnig, oedd bod C-CAS yn cynnig gofal plant a ariennir i bob plentyn cyn oed ysgol cymwys, nid dim ond plant tair a phedair oed. Felly adolygodd y gwerthusiad p'un a oedd cynnig gofal plant a ariennir i grwpiau oedran iau yn dylanwadu ar broffil oedran y plant sy'n derbyn gofal yn y lleoliadau a oedd yn cymryd rhan. Trafodir hyn ymhellach ym mhenodau 4.12 - 4.17 Gwahaniaeth arall rhwng C-CAS a'r Cynnig oedd y gallai plant oed ysgol gweithwyr hanfodol fynychu lleoliadau gofal plant mewn rhai achosion pe bai ganddynt frawd neu chwaer o dan 5 oed a oedd hefyd yn mynychu'r lleoliad gofal plant hwnnw. Fodd bynnag, roedd i ba raddau yr oedd yr agwedd hon ar C-CAS yn cael ei gweithredu yn dibynnu ar ddisgresiwn awdurdodau lleol unigol.
- 5.11 Nododd dros bedair rhan o bump (84 y cant) o'r darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg fod proffil oedran plant yn eu lleoliad, yn gyffredinol, wedi aros yr un fath ag yr oedd o'r blaen. Nododd y darparwyr a gyfwelwyd hefyd nad welsant unrhyw newidiadau sylweddol yn oedran y plant yr oeddent yn gofalu amdanynt drwy C-CAS. Roedd hyn, yn eu barn nhw, oherwydd nad oeddent wedi gweld mewnlifiad enfawr o rieni newydd yn manteisio ar ofal plant yn eu lleoliad o ganlyniad i'r Cynllun - gweler hefyd bennod 4.9. Nododd bron i hanner y darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (45 y cant) nad oedd unrhyw blant newydd wedi manteisio ar ofal plant yn eu lleoliad o ganlyniad i C-CAS. Nododd llawer o leoliadau a gyfwelwyd

hefyd fod plant a oedd yn derbyn gofal yn eu lleoliad drwy C-CAS 'bron i gyd yr un rhai' ag oedd â lle gyda nhw cyn cyflwyno'r Cynllun.

- 5.12 Ysgogodd hyn rai darparwyr a gyfwelwyd i gwestiynu'r angen i ddarparu gofal plant a ariennir gan C-CAS i'r rhieni hynny a oedd eisoes yn talu am ofal plant, oherwydd yn eu barn hwy byddai'r rhieni hyn wedi parhau i ddefnyddio gofal plant a thalu am y ddarpariaeth heb gymorth ariannol - gweler hefyd bennod 3.12.

'Roedd rhai rhieni'n ymgynghorwyr [meddygol] arbenigol - mae'n rhaid ei fod wedi costio arian mawr i Lywodraeth Cymru, pan fyddai'r rhieni wedi bod yn hapus i dalu am ofal plant beth bynnag. A ddylid bod wedi cyflwyno terfynau fel gyda'r Cynnig Gofal Plant?' (Ymatebydd i gyfweiliad â darparwyr C-CAS).

- 5.13 Gofynnwyd i'r darparwyr a gymerodd ran a oeddent wedi gallu darparu gofal plant i bob plentyn cymwys drwy C-CAS. Nododd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'r arolwg (93 y cant) eu bod wedi gallu darparu ar gyfer yr holl blant yr oedd angen gofal plant a ariannwyd arnynt yn eu lleoliad. Dim ond lleiafrif bach o ddarparwyr (7 y cant) a nododd nad oeddent wedi gallu darparu ar gyfer pob plentyn cymwys. Roedd y rhesymau a roddwyd gan y darparwyr hyn yn cynnwys nifer cyfyngedig o staff a phrinder lle i ddarparu ar gyfer pob plentyn ac felly, eu bod wedi gorfod gwrthod rhai plant cymwys.

- 5.14 Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd fod ganddynt gapasiti o ran lle ac aelodau staff i gynnig yr holl ddarpariaeth a oedd yn ofynnol. Hyd yn oed pan gynyddodd y galw am leoedd C-CAS yn sydyn mewn rhai ardaloedd ar ôl newid polisi a arweiniodd at gynnydd yn y rhieni a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun (gweler paragraff 3.14) nododd mwyafrif y darparwyr a gymerodd ran fod ganddynt ddigon o le i gynnig y lleoedd gofal plant yr oedd eu hangen.

- 5.15 I rai darparwyr nid sicrhau digon o gapasiti i ddarparu lleoedd a ariannwyd gan C-CAS oedd y broblem; yn hytrach, y brif her oedd nad oedd digon o blant cymwys yn eu lleoliad bob tro i sicrhau bod darparu lleoedd yn opsiwn ariannol hyfyw iddynt. Aeth rhai awdurdodau lleol i'r afael â hyn drwy gynnig cyfraddau cyllido a oedd yn uwch na'r cyfraddau fesul awr neu'r cyfraddau dyddiol a godir gan ddarparwyr - gweler tabl 3.1 ar dudalen 33.

- 5.16 Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y gyfradd gyllido a gynigiwyd i ddarparwyr drwy C-CAS yn uwch na'r hyn a gynigiwyd drwy'r Cynnig ac yn y mwyafrif o achosion

roedd yn uwch na'r hyn y byddai lleoliadau fel arfer yn ei godi ar eu cwsmeriaid. Fodd bynnag, i lawer o ddarparwyr a gyfwelwyd roedd darparu gofal plant yn ystod pandemig yn her, er gwaethaf y cyfraddau cyllido uwch hyn.

- 5.17 Soniodd y darparwyr a gyfwelwyd fod COVID-19 wedi cael effaith fawr ar eu busnesau. Er bod C-CAS wedi darparu ffynhonnell incwm mawr ei hangen i lawer o ddarparwyr, oherwydd y nifer cymharol fach o blant a gefnogwyd gan y Cynllun mewn rhai lleoliadau, nid oedd y referniw a gynhyrchwyd ohono o reidrwydd yn talu'r holl gostau. Hyd yn oed gyda chymorth ariannol drwy'r Cynllun Cadw Swyddi a rhai pharhad y cyllid Cynnig Gofal Plant, nododd rhai o'r darparwyr a gyfwelwyd eu bod wedi cael trafferth talu eu holl orbenion. Nododd un neu ddau o ddarparwyr eu bod wedi cymryd benthyciadau a / neu wedi ymestyn eu cyfleusterau gorddrafft yn ystod haf 2020 er mwyn talu eu holl orbenion. Roedd lleoliadau eraill wedi gofyn i'w staff leihau eu horiau i oriau rhan-amser, er mwyn osgoi gorfod eu diswyddo.
- 5.18 Nododd un darparwr a gyfwelwyd, fel gyda llawer o leoliadau gofal plant eraill, fod y derbyniadau a nifer cyffredinol y plant yn ei leoliad yn eithaf bach ym mis Medi yn draddodiadol wrth i rai plant adael y lleoliad i ddechrau'r ysgol - ond mae'r niferoedd yn cynyddu'n raddol dros y flwyddyn wrth i blant newydd gychwyn. Mae'r lleoliad yn dibynnu ar gronfeydd arian parod wrth gefn a gynhyrchir yn ystod y gwanwyn a'r haf i dalu eu costau yn yr hydref. Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gronni eu cronfeydd arian parod yng ngwanwyn a haf 2020, hyd yn oed gyda chymorth C-CAS ac felly, adeg y cyfweliad (Hydref 2020) roedd yn poeni am gynaliadwyedd tymor hwy y busnes.
- 'Yr haf hwn ni fydd gennym ddim ar gyfer misoedd y gaeaf - a byddwn yn defnyddio benthyciad i dalu amdano tan fis Ionawr. Dwi ddim yn gwneud hyn er mwyn gwneud elw, ac mae hyn yn bryder mawr imi nawr gan nad wyf yn gwybod yn y tymor hir sut a phryd y byddaf yn gallu ad-dalu'r benthyciad. Bydd effaith hirdymor arnom am y deng mlynedd nesaf oherwydd COVID.' (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).
- 5.19 Ar y llaw arall, i'r mwyafrif o ddarparwyr a gyfwelwyd, mae ailagor eu lleoliadau gofal plant ym mis Awst wedi bod yn gam tuag at ddychwelyd i fusnes fel arfer. Yn ogystal, nododd dros draean (37 y cant) y darparwyr a ymatebodd i'r arolwg fod rhai o'r rhieni yn parhau i fanteisio ar leoedd gofal plant a thalu amdanynt ar ôl i C-CAS ddod i ben. Roedd y rhain yn cynnwys rhai rhieni nad oeddent wedi manteisio ar unrhyw ofal plant ffurfiol cyn C-CAS.

5.20 Nododd rhai o'r rhieni a gyfwelwyd hefyd eu bod wedi'u plesio cymaint â'r ddarpariaeth gofal plant yr oedd eu plentyn wedi'i chael drwy C-CAS nes iddynt benderfynu cadw lle eu plentyn yn y lleoliad.

'Roedd y Cynllun hwn yn achubiaeth pan oedd y pandemig yn ei anterth. Hebdo byddai fy ngwraig a minnau (y ddau ohonom yn swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen sy'n gweithio sifftiau) wedi ei chael hi'n anhygoel o anodd. Roedd y feithrinfa a ddefnyddiwyd gennym yn anhygoel. Roedd yn gallu bod yn hyblyg o amgylch ein sifftiau ac roedd y ddau blentyn wrth eu bodd. Cymaint felly nes ein bod wedi parhau i anfon yr un iau yno ddiwrnod yr wythnos er bod y cyllid wedi dod i ben. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r Cynllun hwn.' (Ymatebydd i gyfweiliad rhieni C-CAS).

5.21 Gallwn ddod i'r casgliad o'r canfyddiadau hyn nad oedd yn rhaid i'r mwyafrif o'r darparwyr a gymerodd ran newid eu dulliau o ddarparu gofal plant yn sylweddol (y tu hwnt i fynd i'r afael â phrotocolau COVID-19) er mwyn darparu C-CAS. Nid oedd darparu gofal plant a ariannwyd gan C-CAS ychwaith yn rhoi pwysau gormodol ar eu capasiti i ddarparu'r gofal plant sy'n ofynnol. I rai darparwyr nid sicrhau digon o gapasiti i ddarparu lleoedd a ariannwyd gan C-CAS oedd y broblem; yn hytrach, y brif her oedd nad oedd digon o blant cymwys yn eu lleoliad bob tro i sicrhau bod darparu lleoedd yn opsiwn ariannol hyfyw iddynt.

6. Y cymorth a gynigiwyd i blant agored i niwed

Dylanwad C-CAS ar deuluoedd agored i niwed Canfyddiadau allweddol



588 o blant agored i niwed*

*Ffynhonnell o ffurflenni awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru a negeseuon e-bost dilynol gydag arweinwyr gofal plant

Roedd y ddarpariaeth yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, gydag amrywiant yn y nifer sy'n manteisio oherwydd:

- Gwahaniaethau yn y lefelau gofynnol o gefnogaeth gan deuluoedd
- I ba raddau yr oedd gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o C-CAS
- Argaeledd gofal plant addas
- Penderfyniad teuluoedd a ddylid derbyn C-CAS.

Ymhlith y teuluoedd a gefnogwyd roedd rhieni â materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, teuluoedd â phlant ag ADY a theuluoedd a nodwyd gan weithwyr iechyd eu bod angen cymorth ychwanegol.

Cynigwyd cefnogaeth ar ffurf gofal seibiant a rhyddhad brys i deuluoedd.

Effaith ar deuluoedd agored i niwed



Yn ôl gweithwyr iechyd proffesiynol, mae cyrchu gofal plant wedi gwneud **gwahaniaeth sylweddol** i'r teuluoedd agored i niwed sydd wedi defnyddio C-CAS.



Nododd y mwyafrif o weithwyr proffesiynol a oedd yn cefnogi teuluoedd agored i niwed, fod yr **holl blant a gyfeiriwyd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y gefnogaeth.**



Byddai rhai rhieni wedi **gwerthfawrogi oriau ychwanegol o gefnogaeth**, ond oherwydd darpariaeth, roeddent yn gyfyngedig i **un neu ddwy sesiwn fer yr wythnos.**



Teimlai rhanddeiliaid y gallai C-CAS fod wedi'i **hysbysebu'n well**, gan nad oedd rhai gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymwybodol o'r Cynllun.

Eiconau gan Icons8.com

Arolwg Rhieni Cynnig Gofal Plant 2019/20. N = 2382

6.1 O dan C-CAS, roedd cyllid ar gael i gynorthwyo gyda chost darpariaeth gofal plant ar gyfer plant agored i niwed. Yn ôl cofnodion yr awdurdod lleol, derbyniodd 588 o blant agored i niwed ofal plant drwy C-CAS.¹⁹ Mae'r bennod hon yn amlinellu sut mae plant agored i niwed a'u teuluoedd wedi cael cymorth drwy C-CAS a'r gwahaniaeth y mae'r Cynllun wedi'i wneud iddynt. Cafodd plant agored i niwed eu nodi gan yr Awdurdod Lleol ac roeddent yn cynnwys y rhai ag anghenion diogelu ac a gefnogwyd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys plant â chynlluniau gofal a chymorth, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, plant anabl a'r rhai â Datganiadau o anghenion addysgol arbennig, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Nodi plant sy'n agored i niwed a'u hatgyfeirio at C-CAS

- 6.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y cymorth y gellid ei ddarparu i blant agored i niwed drwy C-CAS - gweler Atodiad B. Fel yr eglurwyd yn adran 1.6, rhoddwyd rhywfaint o ymreolaeth i bob awdurdod lleol i benderfynu sut i ddarparu C-CAS yn y ffordd a oedd yn gweddu orau i anghenion y teuluoedd hynny. O ganlyniad, fel gyda chymorth gofal plant C-CAS i weithwyr hanfodol, roedd rhai amrywiadau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol o ran sut y nodwyd plant agored i niwed, a pha ofal plant C-CAS a oedd ar gael iddynt a sut.
- 6.3 Ar draws Cymru, cafodd 588 o blant agored i niwed ofal plant drwy C-CAS ond roedd nifer y plant agored i niwed a oedd yn cael gofal plant drwy C-CAS yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, o dros gant mewn un awdurdod lleol i ddim ond un plentyn mewn ardal arall. Mae tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod yr amrywiant yn y niferoedd a fanteisiodd ar y cynnig i'w briodoli i sawl ffactor: gwahaniaethau yn y lefelau cymorth gofynnol gan deuluoedd; i ba raddau yr oedd gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed yn ymwybodol o C-CAS; argaeledd gofal plant addas ac yn y lleoliadau cywir; a rhai teuluoedd yn dewis peidio â manteisio ar y cynnig gofal plant. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl meintioli i ba raddau yr oedd pob un o'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar bob maes fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

¹⁹ Gwybodaeth a gafwyd o'r ffurflenni a anfonwyd gan awdurdodau lleol at Lywodraeth Cymru yw hon a thrwy gyswilt dilynol drwy e-bost gydag arweinwyr gofal plant. Cofnodwyd bod nifer bach - llai na deg - yn blant gweithwyr hanfodol yn ogystal â phlant agored i niwed.

Nodi plant sy'n agored i niwed

- 6.4 Yn y rhan fwyaf o achosion roedd plant agored i niwed yn cael eu nodi a'u hatgyfeirio gan weithwyr cymdeithasol, arweinwyr cymorth teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a oedd â chysylltiadau presennol â'r teuluoedd. Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, adolygwyd yr atgyfeiriadau hyn gan banel amlasiantaeth, a fyddai wedyn yn penderfynu a oedd angen gofal plant C-CAS ar y teulu, a sawl awr neu sesiwn yr oedd ei angen arnynt. Nododd mwyafrif y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd a oedd wedi cefnogi'r teuluoedd agored i niwed fod yr holl blant yr oeddent wedi'u hailgyfeirio at y panel wedi cael eu derbyn ar y Cynllun. Fodd bynnag, mewn nifer bach o achosion nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol na dderbyniwyd pob teulu a atgyfeiriwyd at y Cynllun, a chawsant eu cymeradwyo fesul achos. Roedd y gymeradwyaeth yn aml yn dibynnu ar anghenion a gofynion penodol y teuluoedd, y risg i'r plant ar yr aelwyd ble yr oedd angen ymyrraeth a faint o leoedd gofal plant a oedd ar gael yn yr ardal yr oedd y teulu'n byw.
- 6.5 Yn y rhan fwyaf o achosion ar ôl i blentyn agored i niwed gael ei gymeradwyo ar gyfer C-CAS, trosglwyddwyd yr atgyfeiriad i dimau gofal plant awdurdodau lleol a fyddai'n dynodi darparwr gofal plant ar gyfer y plentyn. Y gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth iechyd a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad oedd y rhai a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi'r teuluoedd hyn.

Y rhesymau dros atgyfeirio i C-CAS

- 6.6 Cyfeiriodd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd at amrywiaeth o amgylchiadau ar gyfer atgyfeirio plant i ofal plant C-CAS. Roedd rhai yn blant i rieni a oedd yn dioddef o iechyd meddwl gwael neu a oedd â phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys teuluoedd lle roedd gan y plentyn cyn oed ysgol - neu ei frawd neu chwaer - anghenion ychwanegol difrifol ac felly roedd angen gofal cyson arnynt a lle roedd y gweithwyr proffesiynol wedi nodi bod hyn yn dod yn fwyfwy anodd i'r rhieni.
- 6.7 Gyda theuluoedd plant agored i niwed eisoes yn wynebu amgylchiadau heriol heb y newidiadau gofal plant yn sgil COVID-19, nododd gweithwyr proffesiynol fod teuluoedd dan fwy o straen oherwydd eu bod yn methu â chael mynediad at ofal plant a chymorth gan aelodau'r teulu yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y teuluoedd hyn fel arfer yn cael rhywfaint o gymorth eisoes gan weithwyr proffesiynol awdurdodau

lleol, fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, roedd mynediad at gymorth i'r teuluoedd hyn yn aml yn gyfyngedig i alwadau ffôn. Ni allai gweithwyr cymorth fynd i gartrefi pobl ac ni allai teuluoedd adael eu cartrefi i fynd i grwpiau chwarae neu sesiynau cymorth, neu hyd yn oed gael seibiant o fywyd teuluol o ddydd i ddydd. Nododd y rhai a gyfwelwyd fod y cyfyngiadau o ganlyniad i COVID-19 yn gwaethygu'r hyn a oedd eisoes yn amgylchedd cartref anodd iawn, a di-drefn ar brydiau, a allai fod yn achos pryder.

- 6.8 Y gweithwyr cymdeithasol a'r gweithwyr cymorth iechyd a gyfwelwyd oedd y rhai a oedd fu'n ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi'r teuluoedd hyn. Fe wnaethant nodi, i lawer o'r teuluoedd, mai un o'r meysydd cymorth oedd ei angen oedd galluogi'r plant i gael amser o'r cartref yn ystod y dydd fel y gallent dreulio amser mewn amgylchedd sefydlog diogel a / neu i'r rhiant / rhieni gael rhywfaint o seibiant neu ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'u hanghenion iechyd meddwl eu hunain ac anghenion cymorth eraill. Nododd y rhai a gyfwelwyd sawl enghraifft o sut roedd y cymorth a ddarparwyd drwy C-CAS wedi bod yn hynod werthfawr i'r teuluoedd hyn. Crynhoir rhai o'r enghreifftiau hyn yn yr astudiaethau achos byr isod.
- 6.9 O ganlyniad i gyfyngiadau COVID, mae gwasanaethau cymdeithasol plant yn gwneud penderfyniadau ar natur y cyswllt â phlant unigol, gydag amllder a natur y cyswllt yn dibynnu ar asesiad risg a adolygir yn rheolaidd, yn unol â chanllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i weithwyr cymdeithasol ymweld â phlant wyneb yn wyneb os oes pryderon ynghylch risg a chadw cysylltiad o bell neu'n rhithiol â phlant sy'n hysbys iddynt ond nad ydynt wedi'u hasesu fel rhai sy'n wynebu risg uchel. O dan amgylchiadau arferol, fel rhan o ddull amlasiantaeth, caiff plant eu gweld gan wasanaethau cyffredinol ac ataliol fel gwasanaethau iechyd, gofal plant ac addysg. Roedd galluogi plant agored i niwed, drwy gymorth C-CAS, i fanteisio ar ofal plant mewn lleoliad y tu allan i gartref y teulu, yn gyfle i weithwyr gofal plant a gweithwyr proffesiynol eraill sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach, yn lleihau straen ar deuluoedd ac yn gyfle i chwilio am unrhyw arwyddion a fyddai'n destun pryder.

Y ddarpariaeth gofal plant a gynigiwyd / a oedd ar gael i blant agored i niwed

- 6.10 Roedd y ddarpariaeth ar gyfer plant agored i niwed yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, cynigiwyd lle i'r plant mewn lleoliad

Dechrau'n Deg lleol a oedd wedi aros ar agor yn benodol ar gyfer plant a gefnogir gan C-CAS; cynigiwyd lle i eraill mewn lleoliadau gofal dydd preifat. Mewn rhai achosion, rhoddyd rhestr o ddarparwyr gofal plant a oedd yn cymryd rhan yn cynllun C-CAS i deuluoedd a gallent ddewis y lleoliad y gallai eu plentyn ei fynychu o'r rhestr honno; mewn achosion eraill gwnaed y penderfyniad gan y tîm gofal plant yn seiliedig ar ble roedd lleoedd ar gael. Fodd bynnag, nododd un gweithiwr cymdeithasol a gyfwelwyd, oherwydd y ffordd yr oedd cymorth drwy C-CAS ar gyfer plant agored i niwed yn cael ei roi ar waith yn ei ardal, bod yn rhaid iddo ddod o hyd i le gofal plant ei hun ar gyfer y plentyn yr oedd wedi'i atgyfeirio at y Cynllun. Nid oedd gan y gweithiwr cymdeithasol dan sylw unrhyw gysylltiad blaenorol â darparwyr gofal plant yn yr ardal ac felly bu'n rhaid iddo 'ffonio o gwmpas' i weld a ellid dod o hyd i le mewn lleoliad addas.

- 6.11 Roedd cael gafael ar ofal plant a oedd ar gael drwy C-CAS yn broblem mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle roedd trafndiaeth yn gyfyngedig. Cyfeiriodd un gweithiwr cymdeithasol at enghraifft o deulu un rhiant lle y cafodd y plentyn ei atgyfeirio at y Cynllun a'i dderbyn arno fel plentyn agored i niwed. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth a gynigiwyd yn rhy bell i'r teulu ei chyrraedd ac o ganlyniad ni allai dderbyn y cynnig.
- 6.12 Roedd swm y gofal plant a gynigiwyd i blant agored i niwed drwy C-CAS hefyd yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, cynigiwyd gofal plant dyddiol i blant agored i niwed mewn lleoliad preifat, tra bod eraill yn cael cynnig un neu ddwy o sesiynau byr (dwy awr) yr wythnos. Roedd y gwahaniaeth yn y ddarpariaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar y ddarpariaeth a oedd ar gael. Yn ogystal â hyn, nid oedd angen gofal plant llawnamser ar bob teulu fel yr oedd ei angen ar fwyafrif y gweithwyr hanfodol a oedd yn defnyddio'r Cynllun. Dim ond ychydig o amser bob wythnos yr oedd ei angen ar rai teuluoedd lle y gallai'r plentyn fod mewn amgylchedd cefnogol digynnwrf gan roi cyfle i aelodau eraill o'r teulu gael rhywfaint o seibiant gartref a chael seibiant byr o'u dyletswyddau gofal plant.
- 6.13 Fodd bynnag, nododd gweithwyr proffesiynol y gwasanaethau cymdeithasol a gyfwelwyd nad oedd rhai teuluoedd â phlant agored i niwed yn cael cymaint o gymorth gofal plant ag y byddent ei eisiau neu ei angen o bosibl. Roedd rhai o'r gweithwyr proffesiynol hyn o'r farn nad oedd y ddarpariaeth gofal plant a gefnogir gan C-CAS a gynigiwyd i blant agored i niwed yr un fath â'r ddarpariaeth C-CAS a

gynigiwyd i blant gweithwyr hanfodol. Nododd rhai eu bod yn credu bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i weithwyr hanfodol a bod y ddarpariaeth a oedd ar gael i blant agored i niwed yn dibynnu ar faint o leoedd gofal plant a ariannwyd gan C-CAS nad oeddent wedi'u llenwi gan blant gweithwyr hanfodol.

'Roedd enghreifftiau o staff atgyfeirio yn gofyn am fwy o oriau nag a ddynodwyd i deuluoedd i ddechrau, ond roedd darparwyr yn edrych ar eu capasiti yn gyntaf, cyn cadarnhau oriau ychwanegol gyda theuluoedd agored i niwed.

(Cynrychiolydd awdurdodau lleol)

- 6.14 Mae materion fel y rhain yn adlewyrchu dulliau gweithredu lleol mewn perthynas â'r oriau gofal plant a ariennir sydd ar gael yn hytrach na dyluniad cenedlaethol y Cynllun.

Rhwystrau i fanteisio ar C-CAS

- 6.15 Mynegodd asiantaethau atgyfeirio a gweithwyr cymdeithasol a gyfwelwyd eu bod yn teimlo y gallai C-CAS fod wedi cael ei hysbysebu'n well. Nododd rhai atgyfeirwyr eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r Cynllun ar hap neu ar dafod leferydd. Dim ond oherwydd i weithiwr cymdeithasol arall sôn amdano yr oedd un atgyfeiriwr wedi clywed am y Cynllun. Pan wnaeth yr atgyfeiriwr ymholiadau pellach, sylweddolodd fod diffyg ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhlith y rhan fwyaf o'i chydweithwyr.

'Nid oedd digon o bobl yn ymwybodol o'r Cynllun. Byddech chi'n disgwyl i ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol fod yn gwybod am y Cynllun, ond doedden nhw ddim.' (Ymatebydd a oedd yn weithiwr cymdeithasol a atgyfeiriodd at C-CAS).

- 6.16 Nododd atgyfeirwyr fod rhai teuluoedd agored i niwed yn amharod i fanteisio ar y Cynllun ar ôl i ofal plant gael ei gynnig, gan eu bod yn teimlo bod stigma yn gysylltiedig ag ef. Nododd un rhanddeiliad y gellid bod wedi mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn pe bai arweinwyr cymorth teulu wedi bod yn rhan o'r prosesau atgyfeirio. Yn eu barn nhw, byddai arweinwyr cymorth teulu wedi gallu cyfleu pwysigrwydd y cymorth i deuluoedd mewn ffordd a fyddai wedi dileu unrhyw stigma sy'n gysylltiedig ag ef.

'Collwyd cyfle i beidio â chynnwys arweinwyr cymorth teulu yn y broses. Gallent fod wedi egluro i'r teuluoedd hyn bwysigrwydd gofal plant o safon i'w plant,

gallent fod wedi llunio'r Cynllun i deuluoedd mewn ffordd ddatblygiadol.'
(Ymatebydd sy'n rhanddeiliaid gofal plant).

- 6.17 Mewn man arall, rhoddodd atgyfeirwyr enghreifftiau o deuluoedd nad oeddent yn manteisio ar y cynnig gofal plant oherwydd bod y sesiynau a gynigiwyd mewn lleoliad anghyfleus ac nad oedd y rhieni eisiau, neu nad oeddent yn gallu, teithio yno. Rheswm arall a nodwyd oedd bod yr un neu ddwy sesiwn o ofal plant a gynigiwyd yn rhy drafferthus neu anghyfleus. Esboniodd un cynrychiolydd awdurdod lleol nad oedd un teulu wedi manteisio ar y cynnig gofal plant a gefnogir gan C-CAS gan fod y ddarpariaeth yn eithaf pell o'u cartref. Yn eu barn nhw, nid oedd gorfod teithio i ddanfôn ac yna gasglu eu plentyn dim ond er mwyn mynychu sesiwn a oedd yn para cwpl o oriau unwaith yr wythnos yn ddefnyddiol iddynt.

Gwneud gwahaniaeth i blant agored i niwed a'u teuluoedd

- 6.18 Pwysleisiodd rhanddeiliad gofal plant bwysigrwydd trefn i blant a theuluoedd agored i niwed. Yn hynny o beth, yn eu barn nhw, roedd darparu hyd yn oed ychydig o ddarpariaeth yn fuddiol i rai teuluoedd gan fod hyn yn eu hannog i fabwysiadu trefn ddyddiol sy'n hanfodol i ddatblygiad y plentyn. Aethant ymlaen i nodi, i rai plant agored i niwed, bod manteisio ar ddarpariaeth drwy C-CAS yn cynnig cyfle i ddangos i deuluoedd y fantais o ddarparu gofal o ansawdd da i blant.

'Rhaid i'r Cynlluniau hyn fod yn gam tuag at gymorth pellach. Os yw'r plant hyn yn cael eu gadael heb gymorth ar ôl C-CAS, yna gall fod yn ddryslyd iddyn nhw. Mae'n bwysig gweithio gyda theulu i'w helpu i ddeall mantais parhau i ddarparu gofal plant o ansawdd i helpu datblygiad eu plentyn.' (Ymatebydd sy'n rhanddeiliaid gofal plant).

- 6.19 Defnyddiodd rhai awdurdodau lleol C-CAS fel seibiant i deuluoedd agored i niwed. Roedd hyn ar ffurf nifer o sesiynau prynhawn yr wythnos er mwyn rhoi seibiant i rieni. I rai rhieni, roedd cael rhywfaint o seibiant rhag gofalu am eu plant eu hunain yn cynnig cyfle iddynt ganolbwyntio ar eu hanghenion iechyd a llesiant eu hunain.



Astudiaeth Achos 1

Roedd angen cymorth brys ar fam plentyn ysgol gynradd a chanddo anghenion dysgu ychwanegol ar ôl arhosiad hir yn yr ysbyty. Gyda hanes o gamddefnyddio sylweddau a fawr ddim cefnogaeth deuluol, atgyfeiriodd y gweithiwr iechyd proffesiynol y plentyn at C-CAS. I ddechrau, cynigiwyd darpariaeth filltiroedd lawer o'r tŷ, ond cafodd hyn ei unioni'n gyflym ar ôl cyfarfodydd dilynol.

"Roedd yn achubiaeth iddyn nhw ar y pryd, roedd y plentyn yn cael gofal da, yn gallu cwrdd â phlant eraill ac roedd yn darparu gofal seibiant i'r fam. Heb y cymorth, gallai'r fam fod wedi cael ail bwl o salwch ac roedd yn ymyrraeth werthfawr iawn i'r teulu."

Ffynhonnell: Cyfweiliad ag atgyfeiriwr

Er bod y gefnogaeth hon yn hanfodol i'r teuluoedd hyn yn ystod cyfnod anodd, dywedwyd bod llai o hyblygrwydd o ran yr oriau a'r amseroedd a gynigiwyd.

- 6.20 Esboniodd asiantaethau atgyfeirio a gweithwyr cymdeithasol, oherwydd bod COVID-19 a'r ffaith bod rhai gwasanaethau wedi'u hatal dros dro, bod C-CAS weithiau'n cael ei ddefnyddio fel dull o gysylltu â theuluoedd sy'n agored i niwed i weld sut oedd pethau, ac i staff gofal plant gael *'llygaid ar lawr gwlad'* pan oedd gwasanaethau eraill wedi newid i apwyntiadau rhithiol yn unig. Fe'i defnyddiwyd hefyd fel ffordd o gysylltu â theuluoedd a sicrhau bod gan deuluoedd y rhwydwaith sydd ei angen o'u hamgylch i gefnogi rhieni a phlant yn llawn.

'Fydden ni ddim wedi gwybod a fyddai hi wedi troi at alcohol eto pe na baem wedi ymyrryd, ac roedd yn rhoi'r camau diogelu ychwanegol hynny i'r teulu yn ystod cyfnod anodd a sefyllfa a oedd yn argyfwng.' (Ymatebydd a oedd yn weithiwr cymdeithasol a atgyfeiriodd at C-CAS).



Astudiaeth Achos 2

Roedd y fam yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, roedd ei phartner yn gweithio oddi cartref ac roedd gan ei phlentyn Anhwylder Sbectrum Awtistiaeth. Roedd y teulu mewn cysylltiad â'r atgyfeiriwr oherwydd cyflwr ei phlentyn, ond sylwodd yr atgyfeiriwr mai iechyd meddwl y fam oedd y prif bryder. Er gwaethaf y ffaith eu bod yn gallu fforddio talu am ofal plant ffurfiol, atgyfeiriodd y gweithiwr iechyd proffesiynol y teulu er mwyn sicrhau bod y teulu'n cael ei weld yn y lleoliad, ac felly'n ddiogel. Fe wnaeth y plentyn elwa o gymdeithasu ag eraill a chafodd gefnogaeth drwy ddarpariaeth gofal plant ffurfiol.

'Nid oedd neb yn cadw llygad ar y plentyn hwn, a chan fod ganddo broblemau cymdeithasol, ni fyddai wedi gallu cyfleu a oedd yn poeni am unrhyw beth. Roedd yn achubiaeth go iawn iddyn nhw, ond ni ddaeth ei phroblemau iechyd meddwl i ben oherwydd bod y cyllid wedi dod i ben.'

Ffynhonnell: Cyfweiliad ag atgyfeiriwr

- 6.21 Roedd y gweithwyr proffesiynol a oedd wedi atgyfeirio plant agored i niwed at y Cynllun o'r farn bod manteisio ar rywfaint o ofal plant wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r plant a'r teuluoedd hynny. Cafwyd nifer o ganlyniadau cadarnhaol yn sgil gofal plant C-CAS: roedd plant yn gallu cymdeithasu ag eraill, ac roedd eu cynnydd yn cael ei wirio a'i fonitro mewn amgylchedd gofal plant ffurfiol. Dywedodd gweithwyr proffesiynol fod cymdeithasu a chyfathrebu â phlant eraill yn rhannau pwysig o ddatblygiad cynnar plentyn, ac i rai plant agored i niwed, ni fyddent wedi cael cyfle i ddysgu a threulio amser gyda phlant eraill o'r un oedran â nhw fel arall.
- 6.22 Gyda theuluoedd yn cael anhawster i ymdopi â'u sefyllfa gartref, a diffyg gwasanaethau ar gael i'w cefnogi yn ystod y cyfnod hwnnw, soniwyd y gallai atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol fod wedi bod yn llawer uwch heb gymorth gan C-CAS.

'Fe wnaeth gofal plant C-CAS helpu i leihau atgyfeiriadau'n sylweddol. Byddai'r atgyfeiriadau iechyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn llawer uwch heb y Cynllun. Roedd yn egwyl i'w chroesawu yn ystod cyfnod anodd iawn i deuluoedd.' (Ymatebydd a oedd yn weithiwr cymdeithasol a atgyfeiriodd at C-CAS).

'Roedd C-CAS yn golygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth i un rhiant agored i niwed, hebdo byddai wedi bod yn agos iawn at ladd ei hun heb amheuaeth. Ni allaf bwysleisio ddigon faint y gwnaeth C-CAS helpu'r teulu hwn

pan ddaeth ei incwm i ben, ac na allai'r fam ymdopi â'r duwch a'r newyddion am COVID, ac ati. Fe wnaeth C-CAS achub bywydau. Rwy'n falch fy mod i wedi bod yn ddylanwad cadarnhaol/darparwr yn ystod y cyfnod anodd hwn.' (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr C-CAS).



Astudiaeth Achos 3

Esboniodd un atgyfeiriwr sefyllfa mam sengl â phedwar o blant a gafodd ei hatgyfeirio at C-CAS gan fod pryderon am ei phlentyn, a oedd eisoes yn cael un sesiwn gofal plant. Ymhlith y pryderon roedd y ffaith bod y plentyn yn ymosodol tuag at eraill ac yn cyrraedd y lleoliad yn llwglyd, ac *'nid oedd ei anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu.'* Roedd yr atgyfeiriwr hefyd yn poeni am iechyd meddwl y fam.

Cafodd y plentyn ofal plant ychwanegol drwy C-CAS, a datblygodd hynny sgiliau cymdeithasol y plentyn. Atgyfeiriwyd y plentyn hefyd at arbenigwr, a chadarnhawyd diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Pan oedd ei phlentyn yn cael darpariaeth drwy C-CAS, rhoddwyd cyngor a strategaethau ymdopi i'r fam er mwyn rheoli ymddygiad ei phlentyn.

'Rhoddodd y Cynllun drefn i'r teulu ac roedd y plentyn yn cael brecwast. Byddai'r fam wedi cael anhawster i ymdopi heb y cymorth ychwanegol, gan nad oedd ganddi deulu a allai helpu. Gall asesiadau fod yn straen, ac roedd yn bwysig cefnogi'r teulu'n llawn yn ystod y cyfnod anodd hwnnw.' Ffynhonnell: Cyfweliad ag atgyfeiriwr

- 6.23 Soniwyd am ychydig enghreiffiau o weithwyr proffesiynol gofal plant yn gallu atgyfeirio plant at wasanaethau perthnasol pan oedd angen, lle nad oeddent wedi cael cymorth arbenigol o'r blaen. Atgyfeiriwyd un plentyn at Arbenigwr Lleferydd ac laith, *'na fyddai wedi cael y cymorth hwnnw o bosibl am ddwy flynedd arall, a fyddai wedi bod yn niweidiol i ddatblygiad y plentyn hwnnw.'* Atgyfeiriwyd plentyn arall i gael diagnosis o awtistiaeth, sydd wedi helpu'r teulu cyfan i addasu a deall ymddygiad eu plentyn.

'Nid yw bywydau pobl yn ddu a gwyn, ac fe wnaeth Llywodraeth Cymru yn dda i fod mor flaengar a chael atebion creadigol i helpu'r teuluoedd hyn pan oedd eu hangen arnynt fwyaf. Gall y dull hyblyg hwnnw fod o gymorth mawr i'r rhai sy'n wynebu argyfwng. ' (Ymatebydd sy'n rhanddeiliaid gofal plant).



Astudiaeth Achos 4

Aelwyd â dau riant sy'n weithiwr hanfodol, plant yn eu harddegau a phlentyn dwy oed ag anghenion addysgol arbennig. Roedd y fam wedi bod ar gyfnod o absenoldeb salwch cyn y pandemig gan ddychwelyd i weithio yn y maes gofal iechyd ym mis Mehefin. Cysylltodd â'r crèche, gyda'r bwriad o ddefnyddio un diwrnod yn unig yn y creche a neiniau a theidiau am weddill yr wythnos, gan mai dyna'r hyn y gallai'r teulu ei fforddio. Yn ystod y cyfnod pan gawsant gymorth drwy C-CAS fe wnaethant ddefnyddio'r creche bedwar diwrnod yr wythnos ac ar ôl diwedd Awst dychwelyd i ddefnyddio'r crèche am un diwrnod a neiniau a theidiau am dridiau. Cawsant wybod am C-CAS gan y crèche pan ddechreuodd eu plentyn yno, ond *'byddai wedi bod yn braf cael y wybodaeth am y Cynllun yn gynt drwy'r gwaith'*.

"Roedd yn golygu y gallwn osgoi defnyddio fy mam a nhad, oherwydd heb [C-CAS] byddwn wedi gorfod rhoi fy rhieni mewn perygl gan fod llawer o broblemau iechyd gan fy nhad. Roedd fy mam hefyd yn gallu gweithio mwy ei hun gan weithio yn lle cydweithwyr a oedd i ffwrdd o'r gwaith yn sâl. Ond dwi'n eu defnyddio eto nawr - mae fy nhad wedi rhoi'r gorau i warchod ei hun, ac rydym mewn swigen gyda nhw. Mae'n debyg ei fod wedi cadw fy rhieni'n ddiogel am gyfnod ond byddai wedi bod yn braf pe bai ar gael ar ôl mis Awst oherwydd bod cyfraddau'r haint yn dal yn uchel - neu hyd yn oed rhywbeth sy'n cyfrannu at gostau gofal plant ar gyfer staff gofal iechyd rheng flaen sy'n fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r feirws felly does dim rhaid i ni ddefnyddio teulu.

Ffynhonnell: Cyfweliad â rhiant

Ar ôl C-CAS

- 6.24 Esboniodd ambell atgyfeiriwr ar ôl i C-CAS ddod i ben ar 31 Awst 2020, fod teuluoedd agored i niwed a oedd wedi bod yn manteisio ar C-CAS ac a oedd hefyd yn gymwys i gael darpariaeth Dechrau'n Deg yn gallu dychwelyd i gael cymorth gofal plant drwy Dechrau'n Deg wrth i'r rhan fwyaf o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg ailagor ym mis Medi 2020.
- 6.25 Nododd un awdurdod lleol, o ganlyniad i'r manteision yr oedd rhai plant agored i niwed mewn ardaloedd y tu allan i'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg wedi'u cael yn sgil C-CAS, ei fod bellach wedi ymestyn ei wasanaeth allgymorth Dechrau'n Deg i deuluoedd yn yr ardaloedd hyn. Nododd nifer o randdeiliaid hefyd fod y manteision a gafodd plant agored i niwed yn sgil C-CAS, yn eu barn nhw, yn tynnu sylw at yr angen am gymorth parhaus o'r natur hon nawr bod C-CAS wedi dod i ben. Mae cyllid i gefnogi plant a theuluoedd agored i niwed ar gael drwy'r Gronfa Datblygu

Gofal Plant²⁰, fodd bynnag nod hyn yw cefnogi amrywiaeth o wasanaethau ac nid yw'n canolbwyntio'n llwyr ar ddarpariaeth gofal plant, fel y gwnaeth C-CAS.

'Byddai wedi bod yn wych pe na bai'r cymorth iechyd meddwl a'r gofal plant hwnnw wedi dod i ben i'r teulu hwn. Roedd y cymorth [C-CAS] yn achubiaeth i'r teulu hwn. Nid oedd eu problemau iechyd meddwl yn dod i ben oherwydd ei bod yn dymor ysgol. Rwy'n credu bod diffyg yn y system, o ran teuluoedd sydd wir angen y cymorth.' (Ymatebydd a oedd yn weithiwr cymdeithasol a atgyfeiriodd at C-CAS)

- 6.26 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn ein galluogi i ddod i'r casgliad bod C-CAS wedi arwain at fanteision cadarnhaol i lawer o blant sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu nad oedd cymorth C-CAS a oedd ar gael i blant agored i niwed yn cael ei hyrwyddo'n eang mewn rhai ardaloedd ac mai dim ond swm cyfyngedig o ofal plant y gallai rhai plant agored i niwed ei gael drwy'r Cynllun. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos y gallai fod angen cymorth gofal plant parhaus o'r math hwn ar rai plant sy'n agored i niwed nawr bod C-CAS wedi dod i ben.

²⁰ Datganiad i'r wasg 29 Hydref 2020: [Cefnogaeth i deuluoedd a phlant sy'n agored i niwed yn ystod y pandemig](#)

7. Casgliadau

- 7.1 Llwyddodd C-CAS i gefnogi llawer o weithwyr hanfodol a phlant agored i niwed drwy gyfnod anodd iawn yn ystod pandemig byd-eang. Mae'r enghreifftiau a nodwyd yn cyfeirio at weithwyr hanfodol na fyddent wedi gallu parhau i weithredu'n effeithiol mewn swydd hanfodol heb gymorth y Cynllun. Rhannwyd enghreifftiau hefyd o sefyllfaoedd lle y gallai plant agored i niwed fod wedi wynebu risg pellach o niwed heb y Cynllun.
- 7.2 Fodd bynnag, mae rhai gwersi wedi'u dysgu o'r broses a allai lywio'r gwaith o ddarparu ymyriadau brys tebyg yn y dyfodol a'r gwaith o ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru yn y dyfodol.

Dylunio a gweithredu C-CAS ar gyfer gweithwyr hanfodol

- 7.3 Roedd rhoi ymreolaeth i bob awdurdod lleol ddehongli'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gweithredu C-CAS ar lefel leol yn fodd o sicrhau bod y Cynllun yn cael ei sefydlu'n gyflym yn seiliedig ar anghenion lleol gweithwyr hanfodol a'r ddarpariaeth gofal plant a oedd ar gael. Roedd y dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol unigol sefydlu systemau newydd, gan ddechrau o'r dechrau yn aml yn achos awdurdodau a oedd yn ymgymryd â rôl awdurdodau ymgysylltu wrth ddarparu'r Cynnig Gofal Plant²¹. Roedd sefydlu'r systemau hyn a lansio'r Cynllun yn ystod amserlen fer iawn yn heriol iawn i bawb a gymerodd ran. Sefydlodd pob awdurdod lleol y Cynllun, o fewn diwrnodau, oherwydd gwaith caled y staff a gyda chymorth cydweithrediad a chefnogaeth gref o fewn awdurdodau lleol yn ogystal â rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.
- 7.4 O ganlyniad i'r ffordd ymreolaethol o sefydlu'r Cynllun, cynigiwyd cyfraddau cyllido gwahanol i ddarparwyr ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol. Roedd hyn yn galluogi awdurdodau i gynnig cyfraddau cyllido a oedd yn adlewyrchu cyfraddau'r farchnad gofal plant leol. Fodd bynnag, roedd cael cyfraddau gwahanol ar draws darparwyr ac ardaloedd awdurdodau lleol wedi creu nifer o heriau wrth weinyddu taliadau cyllido i ddarparwyr, gan arwain at oedi gyda rhai taliadau a rhai achosion o or-dalu a than-dalu.

²¹ Fel rhan o'r cynnig gofal plant, nid yw'r awdurdodau 'ymgysylltu' yn gweinyddu'r prosesau ymgeisio a thalu.

7.5 Dywedodd llawer o awdurdodau eu bod yn ffafrio cyfradd genedlaethol, yn yr un modd â'r Cynnig Gofal Plant. Efallai na fydd cael un gyfradd safonol ar draws pob ardal yn adlewyrchu'r amrywiant mewn cyfraddau gofal plant a godir gan ddarparwyr mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Fodd bynnag, mae'n galluogi sefydlu systemau talu y gellir eu gweinyddu'n hawdd ar draws ffiniau awdurdodau lleol, neu hyd yn oed ledled Cymru gyfan. Mae hyn yn haws i'r darparwyr hynny sy'n darparu ar gyfer rhieni sy'n byw y tu allan i'r sir.

Argymhelliad 1 - Dylai Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau lleol unigol ystyried cynnig un gyfradd gyllido i'r holl ddarparwyr gofal plant sy'n cymryd rhan mewn mentrau fel C-CAS yn y dyfodol. Byddai hyn yn symleiddio gweithrediad systemau talu a gweinyddol canolog.

7.6 Un gwahaniaeth allweddol o ran gweithredu C-CAS ledled Cymru oedd y ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn dehongli neu'n diffinio gweithwyr hanfodol yn eu hardaloedd. Roedd hyn yn amrywio o un awdurdod lleol yn diffinio gweithwyr hanfodol fel y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau brys rheng flaen, i eraill lle roedd y diffiniad o weithiwr hanfodol yn cyfeirio at ystod eang o alwedigaethau a swyddi. Roedd yn dilyn, felly, fod nifer y rhieni a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun C-CAS a'u hamgylchiadau hefyd yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, gan greu teimladau o annhegwch ymhlith llawer o'r darparwyr, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach yr ymgynghorwyd â hwy. Teimlai rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd fod nifer fach o rieni wedi cymryd mantais ar y diffiniadau llac o swydd-ddisgrifiadau a gynhwysir yn y meini prawf er mwyn hawlio cymhwystra lle na ddylent fod wedi gwneud hynny o bosibl.

Argymhelliad 2 - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod meini prawf cymhwystra unrhyw fentrau o'r fath yn y dyfodol yn cael eu diffinio a'u dehongli'n gyson ar draws pob maes. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ganllawiau mwy rhagnodol a/neu ddull mwy canolog yn hytrach na dull lleol, o adolygu a chadarnhau cymhwystra rhieni a phlant sy'n cymryd rhan. Efallai y bydd hyn hefyd yn gofyn am ddiffiniad symlach neu dynnach o'r meini prawf cymhwystra - gweler hefyd argymhelliad 5.

- 7.7 Fel y nodir uchod, ac mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, roedd y gofal plant a gynigiwyd drwy C-CAS yn galluogi'r gweithwyr hanfodol a gymerodd ran i barhau i weithio yn ystod gwanwyn a haf 2020. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod llawer o rieni a gafodd gymorth (tua hanner y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg fel rhan o'r gwerthusiad hwn) yn defnyddio gofal plant ffurfiol o'r blaen, yn aml gan yr un darparwr ag y gwnaethant wedyn ei ddefnyddio i gael gofal plant a ariannwyd gan C-CAS. Byddai llawer o'r rhieni hyn, hyd yn oed y rhai sy'n manteisio ar ofal plant a ariennir drwy Gynnig Gofal Plant Cymru, wedi bod yn talu am o leiaf rhywfaint o'r ddarpariaeth hon (o leiaf yr oriau a oedd yn fwy na'r uchafswm o 20 awr yr wythnos a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant tair a phedair oed) cyn manteisio ar gymorth C-CAS.
- 7.8 Cododd y canfyddiadau hyn gwestiynau'n ymwneud â chost darparu gofal plant a ariennir yn llawn i'r holl weithwyr hanfodol cymwys. I rai gweithwyr hanfodol, yn enwedig y rhai na allent fforddio gofal plant ffurfiol ac a oedd yn dibynnu ar drefniadau gofal plant anffurfiol o'r blaen, roedd y gofal plant a ariannwyd yn darparu cymorth hanfodol iddynt a oedd yn eu galluogi i barhau i weithio. Fodd bynnag, i weithwyr hanfodol eraill a arferai fanteisio ar ofal plant ffurfiol, yn enwedig y rhai a fyddai wedi talu am y ddarpariaeth hon, efallai nad oedd gofal plant a ariennir yn llawn yn angenrheidiol - er bod cymorth o ran dod o hyd i ofal plant a manteisio arno yn elfen hanfodol o gymorth iddynt. Fodd bynnag, roedd talu'r costau llawn yn arbed rhywfaint o amser ac yn cyflymu'r broses o weinyddu'r cynllun i awdurdodau a darparwyr lleol, a chroesawyd hynny.
- 7.9 Yn sgil ehangder y swyddi a gynhwysir yn y diffiniad o weithwyr hanfodol sy'n gymwys ar gyfer C-CAS mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol a'r newid yn y ddealltwriaeth neu'r dehongliad o'r meini prawf dros yr haf, fel mai dim ond un riant mewn teuluoedd dau riant a oedd yn gorfod bod yn weithiwr hanfodol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun, codwyd rhagor o gwestiynau ynghylch cost cyflwyno'r Cynllun mewn rhai ardaloedd.

Argymhelliad 3 - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen ariannu'n llawn yr holl gymorth gofal plant ffurfiol a ddarperir i weithwyr hanfodol mewn unrhyw fentrau yn y dyfodol. Efallai y bydd angen ystyried Cynllun cymorth gofal plant sy'n sicrhau mynediad digonol at ddarpariaeth gofal plant a chyfraniad tuag at gostau i lawer o rieni ond nid o reidrwydd gofal plant a ariennir yn llawn i bawb - gan osod cyfyngiadau tebyg o bosibl ar nifer yr oriau gofal plant a ariennir fel y rhai a gynhwysir yng Nghynnig Gofal Plant Cymru.

Argymhelliad 4 - Wrth gyflwyno unrhyw fenter o'r fath yn y dyfodol, dylid ystyried cyflwyno cap ar gyflog fel rhan o gymhwysra gweithwyr hanfodol.

Argymhelliad 5 - Wrth gyflwyno unrhyw fenter o'r fath yn y dyfodol, dylid ystyried symleiddio'r diffiniad o weithwyr hanfodol neu rychwant y swyddi a gynhwysir yn y meini prawf cymhwysra. Yn gysylltiedig ag argymhelliad 2, dylai'r meini prawf cymhwysra ar gyfer mentrau yn y dyfodol fod yn gyson ar draws pob ardal awdurdod lleol.

Effaith C-CAS ar y rhieni a gymerodd ran yn y Cynllun

- 7.10 Mae C-CAS wedi cael effaith gadarnhaol ar weithwyr hanfodol a'u plant a gymerodd ran yn y Cynllun. Roedd wedi galluogi llawer o weithwyr i barhau i weithio gan gyflawni tasgau hanfodol a darparu gwasanaethau hanfodol na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall, neu a fyddai o leiaf wedi bod yn heriol iawn, heb y cymorth gofal plant.
- 7.11 Roedd C-CAS hefyd yn ffynhonnell incwm ychwanegol i'w chroesawu i lawer o ddarparwyr gofal plant. Heb os, fe wnaeth cyllid drwy'r Cynllun ochr yn ochr â'r cymorth ariannol a oedd ar gael drwy'r Cynllun Cadw Swyddi ac, mewn rhai achosion, taliadau parhaus o gyllid a grantiau'r Cynnig Gofal Plant, arbed rhai lleoliadau rhag cael trafferthion ariannol ac, i rai, eu harbed rhag cau yn barhaol. Fodd bynnag, mae sefyllfa ariannol llawer o leoliadau gofal plant yn parhau i fod yn fregus, gan i rai gymryd benthyciadau neu ddefnyddio eu cynilion er mwyn sicrhau parhad eu busnes yn ystod haf 2020. Felly mae cynaliadwyedd hirdymor y busnesau hyn yn parhau i fod yn ansicr ac mae rhanddeiliaid gofal plant ac awdurdodau lleol yn talu sylw manwl i'r ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal yn y tymor canolig.

Argymhelliad 6 - Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol adolygu sefyllfa ariannol lleoliadau a arhosodd ar agor i ddarparu C-CAS ac ystyried opsiynau cymorth pellach ar gyfer y rhai yr effeithiwyd yn negyddol ar eu sefyllfa ariannol o ganlyniad i gyflawni'r Cynllun.

- 7.12 Roedd rhai darparwyr o'r farn bod y ffaith bod gwahanol gynlluniau cymorth ar gael yn ddryslyd, gan arwain at rai yn hawlio cyllid nad oedd ganddynt hawl iddo ac yn gorfod ei ad-dalu gan roi straen ariannol ar eu busnes.

Argymhelliad 7 - Pe bai C-CAS, neu Gynllun cymorth cyfatebol yn cael ei gynnig eto, yna dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol adolygu'r canllawiau a gynigir i ddarparwyr ynghylch sut mae gwahanol gynlluniau cymorth yn rhyngweithio â'i gilydd - e.e. y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Cadw Swyddi.

Effaith C-CAS ar blant agored i niwed.

- 7.13 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod effaith y cyfyngiadau a osodwyd arnynt oherwydd COVID-19 wedi gwaethygu'r hyn a oedd eisoes yn fywyd cartref heriol a di-drefn i lawer o deuluoedd agored i niwed. Ar gyfer y teuluoedd hyn, roedd y gofal plant a ariannwyd ac a ddarparwyd drwy C-CAS yn darparu un elfen o'r cymorth ehangach yr oedd ei angen arnynt a oedd yn arwain at fanteision cadarnhaol, ac o bosibl atal materion rhag gwaethygu i'r pwynt lle y byddai diogelwch y plentyn yn y fantol. Ymhlith y manteision roedd darparu amgylchedd sefydlog a diogel i'r plant, seibiant i rieni a chyfle i weithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymdeithasol asesu lles corfforol a meddyliol y plentyn yn ystod cyfnod pan na allent wneud hynny yng nghartref y teulu.
- 7.14 Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu na chafodd y ffaith bod cymorth C-CAS ar gael ei hyrwyddo'n eang mewn rhai ardaloedd, gan ysgogi rhai gwasanaethau cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd i nodi nad oeddent wedi bod yn ymwybodol ei fod ar gael ar y cychwyn. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod cymorth C-CAS a oedd wedi'i anelu at blant agored i niwed wedi cael llai o flaenoriaeth mewn rhai ardaloedd na'r cymorth C-CAS a gynigiwyd i weithwyr hanfodol.
- 7.15 Roedd y mwyafrif y plant agored i niwed a atgyfeiriwyd at C-CAS yn gallu cael y swm o ofal plant addas yr oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, dim ond swm

cyfyngedig o ofal plant y gallai rhai plant agored i niwed fanteisio arno drwy'r Cynllun. Roedd rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd manteisio ar y ddarpariaeth neu'n methu â gwneud hynny oherwydd diffyg trafnidiaeth.

Argymhelliad 8 - O ystyried y manteision clir i blant agored i niwed a gefnogir gan C-CAS, dylai awdurdodau lleol flaenoriaethu anghenion y plant hyn mewn unrhyw fentrau o'r natur hon yn y dyfodol i'r un graddau ag unrhyw blant cymwys eraill - gan dybio na fyddai gwneud hynny yn cael effaith andwyol arnynt. Byddai hyn yn cynnwys hyrwyddo gwell cymorth sydd ar gael i weithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd a sicrhau bod plant cymwys yn gallu manteisio ar yr holl ddarpariaeth gofal plant sydd ei hangen arnynt.

- 7.16 Er bod cyfyngiadau COVID-19 wedi gwaethygu llawer o'r heriau sy'n wynebu teuluoedd agored i niwed a gefnogir gan C-CAS, mae'n annhebygol y bydd yr heriau hyn yn diflannu'n llwyr ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi. Felly, efallai y bydd angen ystyried cynnig cymorth parhaus o'r natur hon i rai teuluoedd â phlant agored i niwed, yn enwedig y rhai na allant gael mynediad at raglenni cymorth eraill fel Dechrau'n Deg.

Argymhelliad 9 - Fel rhan o'i pholisi ehangach ar blant agored i niwed, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud rhagor o ymchwil i adolygu'r angen posibl am raglenni cymorth gofal plant tebyg a ariennir wedi'u hanelu at blant agored i niwed na allant gael mynediad at raglenni cymorth gofal plant eraill yn eu hardal.

- 7.17 Ni fu'n bosibl ystyried goblygiadau ehangach mynychu gofal a ariennir gan C-CAS i blant yn y gwerthusiad hwn. Efallai y bydd yn bosibl archwilio'r effaith ar blant yn y dyfodol gan ddefnyddio data gweinyddol y llywodraeth (e.e. canlyniadau iechyd ac addysgol). Casglwyd data ar lefel unigol a darparwyd y wybodaeth breifatrwydd angenrheidiol er mwyn i hyn ddigwydd.

Argymhelliad 10 - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu'r cyfleoedd i ddefnyddio data gweinyddol i ymchwilio ymhellach i'r effaith ar blant yn sgil mynychu lleoliadau gofal plant yn ystod ton gyntaf y pandemig.

Atodiad A: Diffiniad o weithwyr hanfodol drwy gyfnod y Coronafeirws (allweddol)²²

Fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2020 ac yn gyson â rhestr Llywodraeth y DU:

Os yw'ch gwaith yn hanfodol i'r ymateb i COVID-19, neu'ch bod yn gweithio yn un o'r sectorau critigol a restrir isod, dylech wneud trefniadau i'ch plentyn gael gofal yn ddiogel adref. Os nad oes dewis amgen diogel, bydd darpariaeth yn cael ei threfnu mewn ysgolion neu leoliadau eraill.

Iechyd a gofal cymdeithasol – mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, feddygon, nyrsys, bydwagedd, parafeddygon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a staff rheng flaen arall ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwirfoddolwyr; y staff cymorth ac arbenigol sydd eu hangen i gynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol y DU; y rheini sy'n gweithio fel rhan o'r gadwyn gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr meddyginiaeth ac offer diogelwch meddygol a phersonol.

Iechyd a gofal plant – mae hyn yn cynnwys staff meithrinfeydd a staff addysgu, gweithwyr cymdeithasol a'r gweithwyr proffesiynol addysg arbenigol hynny y mae'n rhaid iddynt barhau'n weithgar wrth ymateb i COVID-19 er mwyn i'r dull hwn fod yn effeithiol.

Gwasanaethau cyhoeddus allweddol – mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n hanfodol i gynnal y system gyfiawnder, staff crefyddol, elusennau a gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen allweddol, y rheini sy'n gyfrifol am reoli'r ymadawedig, a newyddiadurwyr a darlledwyr sy'n darparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus.

Llywodraeth leol a chenedlaethol – mae hyn ond yn cynnwys y swyddi gweinyddol hynny sy'n hanfodol i'r ymateb i COVID-19 neu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel talu budd-daliadau, gan gynnwys asiantaethau llywodraethol a chyrrff hyd-braich.

Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill – mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd, prosesu, dosbarthu, gwerthu a chludo, yn ogystal â'r rheini sy'n hanfodol i ddarparu nwyddau allweddol eraill (er enghraifft meddyginiaeth hylendid a milfeddygol).

Diogelwch cyhoeddus a diogelwch gwladol – mae hyn yn cynnwys yr heddlu a staff cymorth, dinasyddion y Weinyddiaeth Amddiffyn, personél contractwyr a'r lluoedd arfog (y rheini sy'n hanfodol i gyflawni tasgau amddiffyn a diogelwch gwladol allweddol ac i'r ymateb i'r pandemig COVID-19), cyflogeion y gwasanaeth tân ac achub (gan gynnwys staff cymorth), staff yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, y rheini sy'n cynnal diogelwch ar y ffin, staff carchardai a'r gwasanaeth prawf, a rolau eraill sy'n berthnasol i ddiogelwch gwladol, gan gynnwys y rheini sydd dramor.

²² [Datganiad Ysgrifenedig: Meini prawf ar gyfer defnyddio'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer plant sy'n agored i niwed, neu y mae eu rhieni'n hanfodol ar gyfer ymateb i COVID-19](#)

Trafnidiaeth – mae hyn yn cynnwys y rheini a fydd yn cadw dulliau trafndiaeth i fynd drwy'r awyr, ar ddŵr, ar yr heolydd a rheilffyrdd, a hynny i deithwyr a nwyddau, yn ystod yr ymateb i COVID-19, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio ar systemau trafndiaeth y mae cadwyni cyflenwi'n eu defnyddio.

Gwasanaethau ariannol, cyfleustodau, a chyfathrebu – mae hyn yn cynnwys staff sydd eu hangen i barhau i ddarparu gwasanaethau ariannol hanfodol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, weithwyr mewn banciau, cymdeithasau adeiladu a'r marchnadoedd ariannol), y sectorau olew, nwy, trydan a dŵr (gan gynnwys carthffosiaeth), y sector technoleg gwybodaeth a seilwaith data, a chyflenwadau diwydiant cynradd yn ystod yr ymateb i COVID-19, yn ogystal â staff allweddol sy'n gweithio yn y sectorau niwclear sifil, cemegau, telathrebu (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i weithrediadau'r rhwydwaith, peirianneg maes, staff canolfannau galwadau, seilwaith TG a data, a gwasanaethau critigol 999 a 111), gwasanaethau post a dosbarthu, darparwyr taliadau a sectorau gwaredu gwastraff.

Os bydd gweithwyr yn meddwl eu bod yn perthyn i'r categorïau hanfodol uchod, dylent gadarnhau bod eu rôl benodol yn angenrheidiol er mwyn parhau â'r gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn.

Atodiad B: Cymorth Gofal Plant i Weithwyr Hanfodol a Phlant sy'n Agored i Niwed yn ystod pandemig Coronafeirws: Canllawiau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Dyma ganllawiau anstatudol gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi'r trefniadau brys ar waith i ddarparu cymorth gofal plant cyn ysgol i weithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed yn ystod pandemig COVID-19 2020. Mae'r cymorth hwn wedi'i dargedu at blant cyn oed ysgol gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed. Dylai gweithwyr hanfodol sydd â phlant oed ysgol barhau i anfon eu plant i'r ysgol, oni bai wrth gwrs y gellir gofalu amdanynt yn ddiogel gartref. Bydd eu hawdurdod lleol yn gallu rhoi cyngor iddynt ar geisiadau ac amgylchiadau lleol.

Mae'n hollbwysig nad yw gweithwyr hanfodol – y rhai hynny ar y rheng flaen – yn wynebu rhwystrau yn y frwydr yn erbyn coronafeirws. Gwyddom fod angen darpariaeth gofal plant frys ar lawer o'r rhieni hyn, naill ai am fod eu lleoliad arferol wedi cau neu am eu bod wedi dibynnu'n flaenorol ar rieni neu neiniau a theidiau am ofal plant, sydd bellach yn hunanynysu. Mae angen i ni hefyd barhau i ddarparu gofal i'n plant mwyaf agored i niwed. Er bod darpariaeth o'r fath ar gael mewn ysgolion i blant oed ysgol heb unrhyw gost ychwanegol i rieni, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth a ariennir mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig i blant cyn oed ysgol.

Plant sy'n agored i niwed

Mae plant sy'n agored i niwed yn cynnwys plant ag anghenion diogelu ac sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys plant â chynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, plant anabl a phlant â Datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai mwyaf agored o'r rhain.²³

Plant sy'n agored i niwed oed cyn-ysgol

Bydd yna blant cyn oed ysgol y mae eich awdurdod lleol wedi'u nodi'n blant sy'n agored i niwed. Os bydd yr awdurdod lleol o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau llesiant y plant sy'n agored i niwed hyn fyddai drwy ddarparu gofal plant ffurfiol iddynt, yna gall yr awdurdod lleol drefnu iddynt gael gofal plant a gellir adennill cost y gofal hwnnw gan Lywodraeth Cymru drwy'r grantiau a amlinellir yn adran 9 o'r canllawiau hyn.

²³ Cymorth Gofal Plant i weithwyr Beirniadol - Canllawiau i Awdurdodau Lleol - Ebrill 2020

Nid yw'r canllawiau hyn yn pennu unrhyw brosesau ffurfiol y dylai eich awdurdod lleol eu dilyn na faint o ofal plant y dylai plentyn sy'n agored i niwed ei gael. Bydd angen i'r elfennau hyn gael eu pennu'n lleol yn unol â gweithdrefnau a chynlluniau presennol.

Atodiad C: Arolwg o Sut y Gweithredwyd Mesurau Diogelu Rhag y Coronafeirws gan Leoliadau Gofal Plant a Chwarae Cofrestredig

Cefndir:

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ymchwil Arad gynnal arolwg o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig er mwyn helpu i fod yn sail i ganllawiau i ddarparu'r ar fesurau diogelu rhag COVID-19.

Dechreuodd yr arolwg ar 22 Mai a daeth i ben am hanner dydd ar 28 Mai 2020. Roedd yn gofyn sut yr roedd lleoliadau a oedd ar agor i blant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed yn ymdopi â gweithredu mesurau diogelu rhag y Coronafeirws. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau i bob lleoliad (gan gynnwys y rhai a oedd ar gau dros dro oherwydd COVID-19) ar ba fesurau diogelu yr oeddent yn teimlo y gallent eu rhoi ar waith yn eu lleoliad yn eu barn hwy.

Anfonwyd yr arolwg drwy e-bost yn uniongyrchol i leoliadau a gofrestrwyd i darparu'r Cynnig Gofal Plant gan ein bod wedi cael eu manylion cyswllt yn gyfreithlon a chaniatâd i gysylltu â nhw at ddibenion ymchwil. Gwyddom fod hyn yn cynnwys mwyafrif y lleoliadau cofrestredig. Mae hyn yn fwy dibynadwy nag arolwg agored; gwyddom mai dim ond lleoliadau cofrestredig sydd wedi ymateb.

Ymatebodd 749 o leoliadau i'r arolwg; roedd 298 yn categoreiddio eu hunain fel gwarchodwyr plant, 206 fel gofal dydd llawn, 82 fel gofal sesiynol, 50 fel gofal y tu allan i'r ysgol, 4 fel darpariaeth chwarae mynediad agored, ac un fel crèche (nid atebodd pob un y cwestiwn hwn). O blith y rhain, mae 46% wedi darparu gofal plant i blentyn ers 23 Mawrth 2020 (dyddiad cyflwyno'r cyfyngiadau symud). Mae gennym ymatebion gan leoliadau sy'n gweithredu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol.

Isod rhoddir trosolwg lefel uchel o'r canfyddiadau allweddol.

Prif ganfyddiadau:

Cadw pellter cymdeithasol

- Dywedodd 65% o'r lleoliadau a ymatebodd nad yw'n bosibl cadw pellter cymdeithasol yn eu lleoliadau. Dim ond 6% o leoliadau sy'n credu bod modd sicrhau bod plant yn eu lleoliad yn cadw pellter cymdeithasol, ond dywed 23% eu bod yn barod i wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â hyn.
- Dywedodd 47% o leoliadau nad yw'n bosibl cyfyngu ar gymdeithasoli (h.y. dim mwy na 5 o blant neu oedolion i ddod i gysylltiad â'i gilydd yn y lleoliad yn ystod cyfnod o wythnos) yn eu lleoliad. Dim ond 19% a ddywedodd fod modd rheoli hyn yn eu lleoliad, ond dywedodd 24% eu bod yn barod i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â hyn.
- Nododd dros dri chwarter ei bod yn bosibl atal plentyn (76%) neu aelod o staff (76%) rhag mynychu am 14 diwrnod os oes gan aelod o'u teulu symptomau COVID-19

- Dywedodd dros eu hanner (55%) ei bod yn bosibl cadw pellter cymdeithasol wrth ollwng a chasglu plant, a dywedodd 31% eu bod yn barod i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â hyn

Gofal

- Dywedodd 56% o'r lleoliadau a ymatebodd ei bod yn bosibl cadw at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (heb unrhyw lacio), a dywedodd 25% eu bod yn barod i wneud newidiadau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â hyn.
- Dywedodd 70% ei bod yn bosibl bod yn yr awyr agored cymaint â phosibl yn eu lleoliad, a dywedodd 73% ei bod yn bosibl cadw ffenestr(i) ar agor yn eu lleoliad os darperir gofal y tu mewn (bob amser ar gyfer awyru)

Glanhau

- Nododd 86% o'r lleoliadau a ymatebodd ei bod yn bosibl sicrhau bod pob plentyn a staff yn golchi eu dwylo'n aml â sebon a dŵr am 20 eiliad, gan gynnwys wrth gyrraedd y lleoliad, a chyn ac ar ôl bwyta. Dywedodd 78% o leoliadau ei bod yn bosibl sicrhau bod pob plentyn ac aelod o staff yn golchi eu dwylo â sebon a dŵr rhedegog ar ôl tisian neu beswch
- Dywedodd 57% ei bod yn bosibl glanhau'r holl offer, teganau ac arwynebau yn drylwyr cyn pob sesiwn gofal plant, ac mae 31% yn barod i wneud newidiadau i gydymffurfio â hyn os oes angen

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

- Dywedodd 47% ei bod yn bosibl newid iwniform/dillad gwaith yn y lleoliad gofal plant, ac yna rhoi'r dillad mewn bag a theithio adref mewn dillad nad ydynt wedi'u gwisgo wrth ofalu am y plant, ac mae 28% yn barod i wneud newidiadau. i gydymffurfio â hyn os oes angen
- Dywedodd y mwyafrif (84%) ei bod yn bosibl defnyddio ffedogau a menig yn eu lleoliadau ar gyfer gofal personol (h.y. newid cewynnau os oes angen)
- Dywedodd 21% ei bod yn bosibl gwisgo masgiau yn eu lleoliad, ac mae 30% yn barod i wneud newidiadau i gydymffurfio â hyn os oes angen

Profi

- Nododd mwy na hanner y lleoliadau (56%) y byddai'n bosibl profi eu hunain/staff yn wythnosol am y feirws yn eu lleoliad (gan dybio bod y pecynnau prawf yn cael eu darparu), ac mae 37% yn barod i wneud newidiadau i gydymffurfio â hyn os bydd angen. Dim ond 3% oedd yn credu na fyddai hyn yn bosibl.

Atodiad D: Dadansoddiad ychwanegol o ddata monitro

Mae'r tabl isod yn cyflwyno cyfanswm y plant a fanteisiodd ar C-CAS bob mis rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020, wedi'u dadansoddi yn ôl oedran plant gweithwyr hanfodol neu oedran plant sy'n agored i niwed. Mae'r data hyn yn ddata cyfanredol o ffurflenni misol awdurdodau lleol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Dylid trin y data yn ofalus oherwydd, ar gyfer pob mis, mae data ar goll ar gyfer nifer sylweddol o awdurdodau lleol.²⁴ O ganlyniad, oherwydd y data anghyson hwn, nid yw'n bosibl dadansoddi tueddiadau o ran y nifer a fanteisiodd ar y Cynllun dros amser.

Mis	Oedran y plant	Plant gweithiwr hanfodol	Plant agored i niwed
Ebrill-20	Dan 1 oed	126	5
	1 oed	550	7
	2 oed	635	35
	3 oed	613	27
	4 oed	368	17
	5 oed a throsodd	46	4
	Cyfanswm	2338	95
Mai-20	Dan 1 oed	156	8
	1 oed	744	18
	2 oed	826	47
	3 oed	789	50
	4 oed	528	26
	5 oed a throsodd	61	9
	Cyfanswm	3104	158
Meh-20	Dan 1 oed	153	6
	1 oed	669	10
	2 oed	732	49
	3 oed	794	48
	4 oed	470	21
	5 oed a throsodd	91	4
	Cyfanswm	2909	138
Gorff-20	Dan 1 oed	33	3
	1 oed	236	15
	2 oed	285	28
	3 oed	346	34
	4 oed	135	25
	5 oed a throsodd	15	3
	Cyfanswm	1050	108

Ffynhonnell: Ffurflenni misol awdurdodau lleol

²⁴ Dim ond ar gyfer pedwar awdurdod lleol y mae data ar gael ar blant gweithwyr hanfodol ar gyfer pob un o'r pedwar mis a dim ond ar gyfer dau awdurdod lleol y mae data ar gael ar blant sy'n agored i niwed ar gyfer pob un o'r pedwar mis.

Er gwaethaf y data anghyson, mae dau awdurdod lleol wedi darparu data ar gyfer y cyfnod cyfan hwn ar gyfer nifer y plant gweithwyr hanfodol a nifer y plant agored i niwed. Cyflwynir y data cyfanredol hwn yn y tabl isod. Mae'n dangos bod nifer y plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed a fanteisiodd ar C-CAS wedi cynyddu bob mis rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020. Yna gostyngodd y niferoedd hyn rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf.

Mis	Oedran y plant	Plant gweithiwr hanfodol	Plant agored i niwed
Ebrill-20	Dan 1 oed	4	0
	1 oed	14	1
	2 oed	31	2
	3 oed	39	3
	4 oed	11	2
	5 oed a throsodd	32	3
	Cyfanswm	131	11
Mai-20	Dan 1 oed	5	1
	1 oed	17	1
	2 oed	37	3
	3 oed	51	6
	4 oed	14	2
	5 oed a throsodd	34	3
	Cyfanswm	158	16
Meh-20	Dan 1 oed	11	1
	1 oed	49	1
	2 oed	63	8
	3 oed	86	8
	4 oed	29	2
	5 oed a throsodd	37	3
	Cyfanswm	275	23
Gorff-20	Dan 1 oed	7	1
	1 oed	40	2
	2 oed	50	7
	3 oed	62	6
	4 oed	12	3
	5 oed a throsodd	14	2
	Cyfanswm	185	21

Ffynhonnell: Ffurflenni misol dau awdurdod lleol

Atodiad E: Canllawiau Holi

Defnyddiwyd y canllawiau pwnc hyn wrth gyfweld â thimau gofal plant awdurdodau lleol. Partneriaid Cwlwm, rhanddeiliaid ehangach a darparwyr gofal plant.

Canllaw holi awdurdodau lleol

Bydd trafodaethau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cwmpasu'r prosesau sy'n gysylltiedig â sefydlu (yn achos C-CAS), gan gyflawni C-CAS a CCO. Bydd trafodaethau hefyd yn canolbwyntio ar yr effaith y mae cyflwyno'r gefnogaeth hon wedi'i chael ar amser ac adnoddau awdurdodau lleol a'r effaith y mae wedi'i chael ar rieni a darparwyr gofal plant sy'n cymryd rhan

Nodyn i'r cyfwelydd: nodyn atgoffa o gyflenwi ac ymgysylltu â'r Cynnig Gofal Plant: awdurdodau lleol:

1. Awdurdodau sy'n gweithredu'n annibynnol ar eraill - h.y. nid partner cyflenwi nac ymgysylltu ag unrhyw ALLau eraill - **Caerffili; Abertawe, Caerdydd, CNPT**
2. Cyflenwi awdurdodau lleol sy'n cefnogi 1 awdurdod ymgysylltu neu fwy - **Ynys Môn a Gwynedd [Conwy]; Blaenau Gwent [Torfaen]; Sir y Fflint [Wrecsam a Sir Ddinbych]; RhCT [Merthyr Tudful & Pen-y-bont ar Ogwr]; Casnewydd [Sir Fynwy a Dyffryn Morgannwg]; Ceredigion [Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Benfro]**
3. ALI Ymgysylltu yn unig **Pen-y-bont ar Ogwr; Sir Gaerfyrddin; Conwy; Sir Ddinbych; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Sir Benfro; Powys; Torfaen; Wrecsam; Bro Morgannwg**

Nodyn i'r cyfwelydd

- Byddai Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r CCO wedi gorfod parhau i wneud hynny ar gyfer darparwyr a oedd eisoes â phlant wedi cofrestru ar gyfer CCO am y cyfnod rhwng Mawrth a Mehefin 2020 - h.y. gweinyddu hyn yn ogystal â'r C-CAS.
- Ailgychwynwyd y CCO hefyd mewn fformat gostyngedig ym mis Mehefin 2020 - eto ochr yn ochr â'r C-CAS, felly mae angen ystyried hyn.

Nodyn i'r cyfwelydd: trosolwg o gyflenwi ac ymgysylltu C-CAS awdurdodau lleol:

Ar gyfer C-CAS - roedd y mwyafrif o ALLau yn gweithredu'n annibynnol mewn perthynas â darparu a thalu ymgysylltu. Yr eithriadau i hyn yw

- Gwynedd a Ceredigion a wnaeth taliadau ar ran yr Awdurdodau Ymgysylltu, ond cymeradwywyd ceisiadau am C-CAS gan yr ALLau unigol.
- Talodd Casnewydd ddarparwyr Casnewydd yn uniongyrchol am ddarparu C-CAS i blant a rhieni cymwys o Sir Fynwy

Bydd y drafodaeth hon yn canolbwyntio ar y Cynnig Gofal Plant a gyflwynwyd rhwng Medi 2019 ac Awst 2020 yn ogystal â'r C-CAS a gyflwynwyd rhwng Ebrill ac Awst 2020

Cynnig Gofal Plant

Proses

1. A allwch chi siarad â mi trwy'r broses Cynnig Gofal Plant o fis Medi 2019 ymlaen?

Awgrymiadau

- a. Beth oedd y lefel derbyn? - a oedd hyn yn cyfateb i'ch disgwyliad
 - b. Beth oedd y prif heriau?
 - c. Beth weithiodd yn arbennig o dda?
2. Sut wnaeth y broses o wirio cymhwysedd cyflogaeth rhieni (yn enwedig rhieni hunangyflogedig) weithio yn ystod y cyfnod hwn?
 - a. A oedd unrhyw heriau?
 - b. Os oedd, a oedd yr heriau yn debyg i'r rhai a brofwyd yn flaenorol?
 - c. A oedd unrhyw enghreifftiau lle gweithiodd pethau'n arbennig o dda?

Gwybodaeth

3. Roedd argymhellion gwerthusiad gofal plant 2019 yn cynnwys yr angen am ganllawiau gwybodaeth a chefnogaeth barhaus i awdurdodau lleol mewn perthynas â nodi a gwirio cymhwysedd cyflogaeth rhai rhieni hunangyflogedig. A dderbynioch chi unrhyw arweiniad a chefnogaeth mewn perthynas â hyn?
 4. Cynhaliodd LIC weithdy yng Nghaerdydd gyda Chyllid a Thollau EM ym mis Chwefror 2020 i gynorthwyo awdurdodau cyflenwi i asesu ceisiadau ac wedi darparu arweiniad manylach wedi hynny, a wnaeth hyn helpu?
 5. Yn ystod 2018 - 19 roedd rhai rhieni ddefnyddiodd y Cynnig Gofal Plant yn ansicr beth oedd ganddynt hawl iddo mewn perthynas â gofal plant wedi'i ariannu a gefnogir gan y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol - a oedd hyn yn rhywbeth y gwnaethoch ganolbwyntio arno fel rhan o'ch cyfathrebu â rhieni o fis Medi 2019?
- A dderbynioch chi wybodaeth ac arweiniad yn ymwneud â sut y gellir neu y dylid defnyddio'r Grant Cymorth Ychwanegol? [Nodyn i gyfwelwyr - cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw Grant Cymorth Ychwanegol ym mis Mawrth 2020 - yn brydlon os derbyniwyd hwn]. Os ydy, a yw hyn wedi cefnogi / newid y ffordd y mae'r grant yn cael ei ddefnyddio i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol?

Dosbarthu

6. A wnaeth darparwyr gynnwys unrhyw daliadau dewisol a ffioedd atodol i blant yn eu lleoliad a gefnogir gan y Cynnig Gofal Plant (e.e. bwyd, costau cludo).
7. Ar gyfer ALIau sy'n gweithredu fel ALI cyflenwi ar gyfer meysydd eraill - sut oedd y berthynas waith rhyngoch chi a'r ALI ymgysylltu rydych chi'n ei gefnogi rhwng mis Medi a mis Mawrth. Beth weithiodd yn dda - beth oedd yn heriol?

8. Ar gyfer ALLau sy'n gweithredu fel ALLau ymgysylltu yn unig - sut oedd y berthynas waith rhyngoch chi a'r ALI gyflawni rhwng mis Medi a mis Mawrth. Beth weithiodd yn dda - beth oedd yn heriol?
- a. Os gwnaethoch weithredu'n fwy annibynnol wrth ddarparu C-CAS o'i gymharu â CCO, a oedd unrhyw fanteision / anfanteision i hyn?
9. A gododd unrhyw faterion allweddol eraill wrth gyflawni'r Cynnig Gofal Plant rhwng Medi a Mawrth? - ar ôl mis Mawrth hyd at fis Awst?

Cyflwyno'r Cynnig ar draws ffiniau

10. A oedd unrhyw heriau gweinyddol yn gysylltiedig â chyflwyno'r cynnig:
- a. Ar draws ALLau Cymru
- b. Ar draws Ffin Cymru yng nghenedloedd eraill y DU
11. A ddaethoch ar draws achosion o rieni sy'n byw yn Lloegr eisiau cyrchu'r Cynnig Saesneg mewn lleoliadau Cymreig ond nad oeddent yn gallu (ac i'r gwrthwyneb)?

Capasiti yn y dyfodol

12. A yw'r cyfyngiadau a'r heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi arwain at gau unrhyw leoliadau gofal plant yn barhaol? - os oes, rhowch enghreifftiau / manylion
- a. Os oes, pa effaith y mae hyn yn debygol o gael ar allu cyffredinol y ddarpariaeth i gyflawni'r Cynnig Gofal Plant yn ystod 2020/21 a thu hwnt?
- b. A yw hyn wedi effeithio ar unrhyw fath penodol o ddarpariaeth gofal plant yn fwy nag eraill - e.e. ADY neu ddarpariaeth Gymraeg?
- c. A oes rhanbarthau penodol lle mae'r gallu i gyflawni'r Cynnig Gofal Plant yn broblem?

Pwyntiau dysgu

13. A oedd unrhyw bwyntiau dysgu allweddol yn ymwneud â chydlynu a chyflwyno'r Cynnig gofal plant a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn? A oes unrhyw beth y credwch y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi'i wneud yn wahanol?
- a. E.e. mewn perthynas ag ansawdd / priodoldeb cyfathrebu,
- b. arweiniad,
- c. prydlondeb taliadau,
- ch. Gofynion ynglŷn â monitro ac ati

C-CAS

Nodyn i'r cyfwelydd - amlinellwch bwrpas y cyfweliad a gwiriwch fod y cyfwelai wedi derbyn ac yn fodlon â'r PN ac ati.

Proses

14. Siaradwch fi trwy'r broses o sefydlu'r C-CAS yn ôl ym mis Mawrth / Ebrill?

Awgrymiadau:

- Beth oedd y broses o sefydlu'r C-CAS yn ei olygu?
- Pa wybodaeth, arweiniad a chefnogaeth a gawsoch gan LIC a / neu bartneriaid eraill - a oedd hyn yn ddigonol? - faint o rybudd gawsoch chi cyn sefydlu'r rhaglen? Esboniwch eich ateb.
- Pa systemau oedd angen i chi eu rhoi ar waith i ddarparu ar gyfer / cyflwyno'r C-CAS?
 - a oedd y rhain yn wahanol i'r rhai a oedd eisoes ar waith ar gyfer y cynnig gofal plant?
 - Beth weithiodd yn dda - beth oedd yn heriol?
 - Pe bai systemau / ffyrdd newydd o weithio yn cael eu defnyddio, a fyddwch chi'n cadw neu'n addasu unrhyw un o'r rhain ar gyfer rhaglenni eraill, gan gynnwys ar gyfer y cynnig gofal plant - rhowch fanylion
- Sut gwnaethoch chi ymgysylltu â darparwyr ac ennill eu cyfranogiad yn y rhaglen? - a gafodd darparwyr penodol eu targedu neu a oedd y cyfle i ddarparu gofal plant a ariennir gan C-CAS yn agored i bob darparwr cofrestredig?
- Beth oedd ymateb cychwynnol darparwyr i C-CAS?
 - o A oedd llawer o ddarparwyr yn barod i aros ar agor?
 - o A oedd gan ddarparwyr bryderon ynghylch darparu gofal plant yn ystod y cyfnod clo - os felly beth oedd y rhain - sut yr aethpwyd i'r afael â hwy?
- A wnaethoch chi geisio amcangyfrif graddfa'r C-CAS sy'n ofynnol yn eich ardal chi?
 - Os felly, amlinellwch sut gwnaethoch chi amcangyfrif y capasiti sydd ei angen?
 - Sut gwnaethoch chi gyfateb i'r cyflenwad a'r galw ac a wnaeth y galw fod yn fwy na'r cyflenwad?
- Sut gwnaethoch chi hysbysu rhieni plant bregus o'r cynnig C-CAS?
- Pa drefniadau a roddwyd ar waith i alluogi plant agored i niwed i gael mynediad at C-CAS?

- A oedd gofal plant Dechrau'n Deg ar gael am yr holl amser, neu rywfaent ohono, pan gaewyd addysg ysgol oherwydd ei gloi?
 - Oedd trwy'r amser
 - Oedd peth o'r amser
 - Nag oedd
 - Ddim yn gwybod

- Os nad oedd gofal plant Dechrau'n Deg ar gael oherwydd y cyfnod clo:
 - Pam oedd hyn
 - A wnaethoch chi wneud teuluoedd nad oeddent yn gallu cyrchu gofal plant Dechrau'n Deg yn ymwybodol o C-CAS?
 - Do trwy'r amser
 - Do peth o'r amser
 - Naddo

- A oedd lleoliadau ysgol yn cynnig gofal i blant iau nag oedran ysgol statudol (5 oed) pan nad oedd addysg yn cael ei darparu oherwydd cloi?
 - Oedd, Pawb
 - Oedd, Rhai
 - Nag oedd
 - Ddim yn gwybod

- Os na, a wnaethoch chi ystyried hyn fel opsiwn i ddarparu gofal i alluogi gweithwyr hanfodol i fynd i'r gwaith? Esboniwch yr ateb hwn

Darparu gwasanaeth (rhieni)

15. Beth oedd y meini prawf cymhwysedd i rieni gael mynediad i C-CAS? (awgrym - h.y. meini prawf mewn perthynas â gweithwyr hanfodol a rhieni plant sy'n agored i niwed) -

16. Sut y gwiriwyd cymhwysedd rhieni?

17. Sut gwnaeth rhieni gais am y C-CAS? Beth weithiodd yn dda a beth oedd yn heriol ynglŷn â'r broses ymgeisio?

a. Sut oedd hyn yn cymharu â phroses ymgeisio'r Cynnig Gofal Plant?

b. A oedd yn rhaid i rieni gofrestru / ailgofrestru bob tymor ysgol? - os oedd, esboniwch unrhyw fuddion a / neu heriau sy'n gysylltiedig â hyn?

[Er gwybodaeth i gyfwelwyr yn unig - byddwch yn ymwybodol, o dan y C-CAS, bod rhai ALLau wedi gofyn i rieni wneud cais bob pythefnos i sicrhau eu bod yn dal yn gymwys, a bod angen y gofal plant arnynt. Fe achosodd broblemau pan anghofiodd y rhiant adnewyddu ac yna nid oedd ganddyn nhw yswiriant]

c. A oes unrhyw wersi y gellid eu dysgu o geisio am C-CAS a allai lywio dyluniad / gweithrediad proses debyg / symlach yn ystod rowndiau'r Cynnig Gofal Plant yn y dyfodol?

18. A oedd cap ar nifer yr oriau, cyfradd yr awr / dyddiol neu gostau eraill y gallai cynnig C-CAS eu hariannu / cefnogi?

19. A oedd unrhyw feysydd o anghenion gofal plant rhieni cymwys na ellid eu diwallu trwy'r C-CAS? Os felly ble / beth oedd y bylchau? e.e.

- a. Darpariaeth ADY
- b. Darpariaeth iaith Gymraeg
- c. Darpariaeth y tu allan i oriau gweithio
- ch. Darpariaeth ar gyfer plant o'r tu allan i'r ardal
- e. arall

Darparu gwasanaeth (darparwyr)

20. A gynigiodd unrhyw ddarparwyr ofal plant allgymorth i sefydliadau mawr sy'n cyflogi gweithwyr hanfodol? Os felly, rhwch ychydig o fanylion?

[nodyn i gyfwelwyr - seibiwyd cyllid CCO i ddarparwyr ar gyfer plant a oedd i fod i ddechrau ym mis Ebrill - ond parhaodd ar gyfer plant a gofrestrwyd cyn hyn er na allai'r plant hyn fod yn bresennol.]

21. Sut wnaethoch chi hysbysu darparwyr am oedi'r CCO i blant newydd?

- a. A oedd unrhyw heriau / materion yn gysylltiedig â hyn?
- b. Beth oedd ymateb darparwyr i'r newidiadau hyn?

22. Sut gwnaethoch chi hysbysu darparwyr am gyflwyno'r C-CAS?

- a. Pa wybodaeth a / neu gefnogaeth wnaethoch chi ac eraill eu cynnig i ddarparwyr?
- b. Beth oedd ymateb darparwyr i'r cynnig hwn?

23. Beth, os unrhyw beth, yr oedd angen i ddarparwyr ei wneud i gofrestru i ddarparu darpariaeth a ariennir gan C-CAS?

24. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddarparwyr sy'n methu / yn anfodlon darparu C-CAS? Os oes, esboniwch pam

- a. Pa fath o ddarparwyr oedd y rhain? - (e.e. gwarchodwyr plant / meithrinfeydd dydd yn bennaf)
- b. A oedd y darparwyr hyn a oedd wedi bod yn darparu CCO hyd at y pwynt hwn?

25. A oedd digon o ddarpariaeth addas ar gael i ateb y galw a gynhyrchwyd gan C-CAS? - os na, ble oedd y prinder / ble oedd y bylchau?
26. A oedd unrhyw ddarparwyr nad oeddent yn darparu darpariaeth a ariannwyd gan y Cynnig Gofal Plant a ddarparodd ddarpariaeth a ariennir gan C-CAS?
a. Os do - rhowch fanylion pellach yn ymwneud â sut y digwyddodd hyn.
27. Pa ffioedd darparwyr gofal plant a gwmpesir gan gyfradd ariannu C-CAS a gynigiwyd i ddarparwyr? - e.e. a oedd darparwyr yn cael eu cyfradd arferol yr awr / dydd neu a oedd yn gyfradd benodol a gynigiwyd i bob darparwr? - os cynigiwyd cyfradd benodol beth oedd hyn?
28. Sut gwnaeth darparwyr dynnu cyllid C-CAS i lawr - pa wybodaeth / tystiolaeth yr oedd angen iddynt ei gyflenwi er mwyn sbarduno taliad.
29. a dalwyd darparwyr:
a. ymlaen llaw
b. mewn ôl-ddyledion
c. yn wythnosol
ch. yn fisol
30. A ymgwymerwyd ag unrhyw weithgareddau eraill fel rhan o'r broses gyflawni?
a. os do, beth oedd y rhain
31. Mewn perthynas â phroses gyflenwi C-CAS beth weithiodd yn dda / beth oedd yn heriol?
a. A oes unrhyw wersi wedi'u dysgu o'r broses gyflenwi C-CAS a allai lywio'r broses o gyflawni'r CCO yn y dyfodol?

Nodyn - un o'r allbynnau a gynhyrchir o ganlyniad i drafodaethau ar brosesau cyflenwi fydd diagram sy'n crynhoi'r model cyflenwi C-CAS ar gyfer pob ALI.

Effaith (rhieni a phlant)

32. Yn eich barn chi - A gafodd C-CAS unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar rieni a phlant a gefnogwyd ganddo? Rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n bosibl e.e.
a. gallu gweithwyr hanfodol i barhau i weithio
b. gallu rhieni plant sy'n agored i niwed i gael rhywfaint o seibiant / cael gafael ar gymorth arall.
c. Lles plant iau - dan dri
ch. Lles plant bregus
33. A welsoch chi gynnydd yn y nifer sy'n derbyn gofal plant ffurfiol o ganlyniad i C-CAS?
34. A benderfynodd unrhyw rieni cymwys beidio â chymryd y cynnig C-CAS?
a. Os felly - a ydych chi'n gwybod eu rhesymau dros hyn?

Effaith ar ddarparwyr

35. Ar wahân i'r newidiadau gofynnol o ganlyniad uniongyrchol i gamau gweithredu gofynnol COVID, pa effaith, os o gwbl, a gafodd C-CAS ar ddarparwyr a gyflwynodd y cynnig o ran:

- a. Cynaliadwyedd ariannol eu busnes
- b. Unrhyw gostau ychwanegol e.e. offer / amser staff ychwanegol
- c. Y ffordd y gwnaethant ddarparu gofal plant - yn enwedig mewn perthynas â chymhareb gofod / staff i ddarparu ar gyfer cymysgedd posibl o blant iau a hŷn

36. Pa effaith gafodd y cyfnod rhwng Ebrill ac Awst ar ddarparwyr gofal plant na wnaethant / na allai gymryd rhan yn C-CAS?

Canllaw holi ar gyfer rhanddeiliaid Cwlwm ((i) C-CAS a (ii) Cynnig Gofal Plant a gwmpesir mewn un cyfweiliad)

Pwysleisiwch fod y drafodaeth yn canolbwyntio ar lywio'r gwerthusiadau o CCO a C-CAS ac ar wersi ehangach ar gyfer CCO a rhaglenni gofal plant yn y dyfodol, yn hytrach na thrafod yr heriau cyffredinol / materion iechyd a diogelwch / PPE y mae'r sector yn eu hwynebu dros y gwanwyn a'r haf 2020 - gan fod hynny'n cael ei gwmpasu mewn man arall.

1. Gwybodaeth gefndir

- Rhowch drosolwg byr o'ch sefydliad / rôl.

2. Cynnig Gofal Plant

Pwrpas: Deall ymglymiad sefydliadau / cyfwelai â'r Cynnig Gofal Plant; eu barn gyffredinol am y Cynnig hyd yma a sut y gallai'r saib wrth gyflawni'r Cynigydd yn ystod 2020 fod wedi effeithio ar rieni, darparwyr plant a rhanddeiliaid eraill.

Cynnig Gofal Plant Blwyddyn 3: Canolbwyntiwch ar y cyfnod Medi 2019-Mawrth 2020

- Rhowch drosolwg byr o'ch cyfranogiad a'ch profiad o'r Cynnig Gofal Plant hyd yma.
- Beth yw eich barn am y Cynnig Gofal Plant?
Awgrymiadau:
 - Beth yw'r buddion i aelodau / beth yw'r anfanteision o ddarparu'r Cynnig Gofal Plant?
 - Beth sy'n gweithio'n dda / beth sy'n gweithio cystal?
 - Unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r Cynnig?
- Beth yw eich barn ar gyfathrebu ac ymgysylltu Llywodraeth Cymru?
Awgrymiadau:
 - Gyda chi fel sefydliad?
 - Gyda darparwyr gofal plant / eich aelodau?

- Beth yw eich barn am y gyfradd a delir am ofal plant?

Awgrymiadau:

- Gweld y cyfraddau ar gyfer gofal plant yng nghyd-destun y cyfraddau ar gyfer Meithrinfa Cyfnod Sylfaen.

Oedi'r Cynnig Gofal Plant: Canolbwyntiwch ar y cyfnod Mawrth-Ebrill 2020

- Siaradwch â mi trwy raddau eich cyfranogiad / profiad o oedi wrth gyflawni'r Cynnig Gofal Plant.
- Beth yw eich barn ar gyfathrebu ac ymgysylltu Llywodraeth Cymru ynghylch y saib i'r Cynnig?
